



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion**  
**The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 12 Ionawr 2011**  
**Wednesday, 12 January 2011**

## Cynnwys Contents

- |     |  |
|-----|--|
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb<br>Questions to the Minister for Business and Budget   |
| 24  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth<br>Questions to the Minister for Heritage  |
| 42  | Datganiad Deddfwriaethol am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol<br>Arfaethedig ynghylch Rhoi Organau a Meinweoedd<br>Legislative Statement on the Proposed Organ and Tissue Donation Legislative<br>Competence Order |
| 59  | Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad<br>Questions to the Assembly Commission  |
| 62  | Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg,<br>Cyflogaeth na Hyfforddiant<br>The Enterprise and Learning Committee's Report on Young People not in Education,<br>Employment or Training   |
| 85  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ynni Adnewyddadwy<br>Welsh Conservatives Debate: Renewable Energy   |
| 112 | Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu<br>Myfyrwyr<br>Welsh Liberal Democrats Debate: Programme for International Student Assessment<br>Results                                     |
| 139 | Pwynt o Drefn<br>Point of Order  |
| 140 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time  |
| 144 | Dadl Fer: Dyfodol Cymunedau Cymraeg<br>Short Debate: The Future of Welsh-speaking Communities  |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambwr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb Questions to the Minister for Business and Budget**

| Cyllideb | Budget |
|----------|--------|
|----------|--------|

**1. Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1257(BB)

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I will be tabling a supplementary budget updating the current Welsh Assembly Government budget in February.

**Alun Davies:** We look forward to hearing your proposals next month. Do you agree that the philosophical approach and the financial strategy that the Assembly Government has followed have been of enormous benefit to people in Wales? We, and you, have received considerable advice from the parties opposite on how to handle issues such as health, and so on. However, had you taken that advice, we would not be in the position that we are today, in that we have been able to secure a proper and effective outcome on tuition fees and on funding higher education. We would have seen the decimation of the education and local government budgets. By protecting capital investment in the current year, we have been able to protect a fragile economic recovery in Wales.

**Jane Hutt:** I touched on this issue yesterday during the business statement and announcement. We have sought to develop an ethical budget, working to protect the vulnerable and support our children and young people, including through higher education. This was also the basis of how we made in-year decisions, which will be reflected in the supplementary budget. Some £135 million is allocated for revenue, and £110 million is allocated for the NHS. It is particularly important that the Minister for Health and Social Services announced that

**1. Alun Davies:** Will the Minister provide an update on the current Welsh Assembly Government budget. OAQ(3)1257(BB)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Byddaf yn cyflwyno cyllideb atodol sy'n diweddu cyllideb bresennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror.

**Alun Davies:** Edrychwn ymlaen at glywed eich cynigion fis nesaf. A ydych yn cytuno bod agwedd synhwyrol a strategaeth ariannol Llywodraeth y Cynulliad wedi bod o fudd enfawr i bobl Cymru? Rydym ni a chithau wedi cael cryn dipyn o gyngor gan y pleidiau gyferbyn ynghylch sut i ymdrin â materion fel iechyd ac yn y blaen. Fodd bynnag, pe baech wedi derbyn y cyngor hwnnw, ni fyddem yn y sefyllfa rydym yn ddi heddiw. Ni fyddem wedi gallu sicrhau canlyniadau priodol ac effeithiol ar ffioedd dysgu ac ar gyllido addysg uwch. Byddem wedi gweld gostyngiad yn y cyllidebau addysg a llywodraeth leol. Drwy ddiogelu buddsoddiad cyfalaf yn y flwyddyn gyfredol, rydym wedi gallu diogelu adferiad economaidd bregus yng Nghymru.

**Jane Hutt:** Crybwylais y mater hwn ddoe yn ystod y datganiad a'r cyhoeddiad busnes. Rydym wedi ceisio llunio cyllideb foesegol, gan weithio i amddiffyn y rheini sy'n agored i niwed a chefnogi ein plant a'n pobl ifanc, gan gynnwys drwy addysg uwch. Roedd hyn hefyd yn sail i'r modd yr aethom ati i wneud penderfyniadau o fewn y flwyddyn, a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb atodol. Mae £135 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer refeniw, a £110 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y GIG. Mae'n arbennig o bwysig bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau

allocation just before Christmas in terms of the winter pressures. There is £25 million for student support, as well as a £47 million in-year allocation for capital, where our two criteria were to protect the vulnerable and to ensure capital investment to benefit the construction industry. It is interesting to note that that has been welcomed by the construction industry. In today's *Western Mail*, Mike Edmonds writes that

'Wales still requires new schools, hospitals, roads and facilities of every nature in order to create the world-class...infrastructure the country deserves'.

That is what our budget seeks to deliver, not just this year, but next year.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** I am grateful to Alun Davies for drawing attention to our pledge to protect the health budget in line with inflation. As the Minister well knows, £435 million has been taken out of the NHS budget this year, and there is £1 billion to come out over the next three years. It is right to say that this is about priorities. However, given that you are reducing the health budget by 7.6 per cent, according to your own figures, why are you resisting looking at the £1 billion that, according to Paul Williams, the NHS finance director, is currently being misspent in the health service? He mentioned it at an Assembly committee meeting, and I know that Members of other political parties agreed with him at the time. Why will you not look at that serious fault of £1 billion being misspent?

**Jane Hutt:** It is interesting that you do not seek to take this opportunity to defend your so-called alternative budget, which was announced via a press release just before the end of the last Assembly term. It appeared to be a feeble effort. There was no three-year profile, there was no split between revenue and capital, and there was very little detail about how you would fund your proposal to ring-fence health spending. However, what was clear from that so-called draft budget was that you would scrap free prescriptions

Cymdeithasol wedi cyhoeddi'r dyraniad hwnnw ychydig cyn y Nadolig, gan ystyried y pwysau a wynebir yn ystod y gaeaf. Ceir £25 miliwn ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, yn ogystal â £47 miliwn o ddyraniad ar gyfer cyfalaf o fewn y flwyddyn. Ein meini prawf oedd amddiffyn y rheini sy'n agored i niwed a sicrhau buddsoddiad cyfalaf i ddwyn budd i'r diwydiant adeiladu. Mae'n ddiddorol nodi bod y diwydiant adeiladu wedi croesawu hynny. Heddiw yn y *Western Mail*, dywed Mike Edmonds:

Mae ar Gymru angen ysgolion, ysbytai, ffyrrd a chyfleusterau newydd o bob math o hyd er mwyn creu sealwaith o'r radd flaenaf, fel y mae'r wlad yn ei haeddu.

Dyna beth mae ein cyllideb am ei gyflawni, nid dim ond eleni, ond y flwyddyn nesaf hefyd.

**Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig (Nick Bourne):** Rwyf yn ddiolchgar i Alun Davies am dynnu sylw at ein haddewid i ddiogelu'r gyllideb iechyd yn unol â chwyddiant. Fel y mae'r Gweinidog yn gwybod yn iawn, mae £435 miliwn wedi cael ei dynnu o gyllideb y GIG eleni, a bydd £1 biliwn yn mynd ohoni dros y tair blynedd nesaf. Mae'n wir dweud bod hyn yn ymwneud â blaenoriaethau. Fodd bynnag, o ystyried eich bod yn lleihau 7.6 y cant ar y gyllideb iechyd, yn ôl eich ffigurau eich hun, pam nad ydych yn edrych ar yr £1 biliwn sydd, yn ôl Paul Williams, cyfarwyddwr cyllid y GIG, yn cael ei gamwario yn y gwasanaeth iechyd? Soniodd am hyn yn un o bwylgorau'r Cynulliad, a gwn fod Aelodau o bleidiau gwleidyddol eraill yn cytuno ag ef ar y pryd. Pam na wnewch chi edrych ar yr £1 biliwn sy'n cael ei gamwario, sy'n ddiffyg difrifol?

**Jane Hutt:** Mae'n ddiddorol nad ydych yn ceisio manteisio ar y cyfile hwn i amddiffyn eich cyllideb amgen fel rydych yn ei galw, a gyhoeddwyd mewn datganiad i'r wasg yn union cyn diwedd tymor diwethaf y Cynulliad. Ymdrech wan ydoedd i bob golwg. Nid oedd proffil tair blynedd, nid oedd rhaniad rhwng refeniw a chyfalaf, ac nid oedd fawr ddim o fanylion yngylch sut y byddech yn ariannu eich cynnig i neilltuo gwariant iechyd. Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn amlwg o'r gyllideb ddrafft honedig oedd y

and free school breakfasts, you would not provide tuition fees subsidies, you would scrap the Communities First programme, you would introduce major postponements to the road building programme, and you would make an additional cut of 1.5 per cent to the local government settlement. Are you prepared to defend that so-called alternative budget? As I have announced, we have allocated £110 million to boost the efforts of the health service, particularly as it is facing a difficult winter. We are meeting those needs in-year and ensuring that the health service can deliver on its expectations.

**Nick Bourne:** That is your version of events, but it does not stack up. Ours is a clear alternative budget, as you demonstrated by going through it. We have given far more detail than Ed Milliband, your leader at Westminster, in terms of where we would see these cuts fall. We know very well that if Labour had been re-elected, there would have been cuts to the budget much the same as we are now seeing in Wales. Therefore, let me come back to the question I asked you, Minister, to which you did not respond—perhaps you will respond to it this time. Given that you, on your own figures, have honestly said that there will be a cut of 7.6 per cent in the health budget, and given that there is a cut of nearly £1.5 billion in health spending over four years at a time when people are living longer and new treatments are coming on line and new drugs are being offered, I do not know how you can face the people of Wales and say that you are spending less on health. However, if you are spending less on health, why on earth will you not look at that £1 billion that is being misspent, according to NHS finance directors, on delayed discharge and other matters? Why will you not look at it?

**Jane Hutt:** This is more than a well-worn groove in a record—the only record in town for the Welsh Conservatives. The service and financial framework for the NHS will deliver that, not only this year, but in future years. When the Minister for Health and Social

byddech yn cael gwared â phresgripsiynau am ddim a brecwast am ddim mewn ysgolion, y byddai cymorthdaliadau ffioedd dysgu yn diflannu, y byddech yn dileu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, y byddai oedi mawr yn y rhaglen adeiladu ffyrdd, ac y byddech yn gwneud toriad ychwanegol o 1.5 y cant yn y setliad llywodraeth leol. A ydych yn barod i amddiffyn y gyllideb amgen honedig honno? Fel yr wyf wedi'i gyhoeddi, rydym wedi dyrannu £110 miliwn i roi hwbi i ymdrechion y gwasanaeth iechyd, yn enwedig gan ei fod yn wynebu gaeaf caled. Rydym yn diwallu'r anghenion hynny o fewn y flwyddyn ac yn sicrhau y gall y gwasanaeth iechyd gyflawni'r hyn a ddisgwylir ohono.

**Nick Bourne:** Dyna eich fersiwn chi o bethau, ond nid yw'n gwneud synnwyr. Mae ein cyllideb ni yn amlwg yn gyllideb amgen, fel y gwnaethoch ddangos wrth fynd drwyddi. Rydym wedi rhoi llawer mwy o fanylion nag Ed Milliband, eich arweinydd yn San Steffan, o ran lle y byddem ni'n gwneud y toriadau hyn. Rydym yn gwybod yn iawn, pe bai Llafur wedi cael ei ail-ethol, byddai'r toriadau yn y gyllideb yn debyg iawn i'r hyn rydym yn ei weld yn awr yng Nghymru. Felly, gadewch imi ddod yn ôl at y cwestiwn a ofynnais ichi ac na wnaethoch ymateb iddo, Weinidog—efallai y gnewch ymateb iddo y tro hwn. O ystyried eich bod chi, wrth edrych ar eich ffigurau eich hun, wedi dweud yn onest y bydd toriad o 7.6 y cant yn y gyllideb iechyd, ac o gofio y bydd bron i £1.5 biliwn yn llai yn cael ei wario ar iechyd dros bedair blynedd ar adeg pan mae pobl yn byw'n hwy, triniaethau newydd yn cael eu cyflwyno a chyffuriau newydd yn cael eu cynnig, nid wyf yn gwybod sut y gallwch wynebu pobl Cymru a dweud eich bod yn gwario llai ar iechyd. Fodd bynnag, os ydych yn gwario llai ar iechyd, pam ar wyneb y ddaear na wnewch chi edrych ar yr £1 biliwn hwnnw sy'n cael ei gamwario, yn ôl cyfarwyddwyr cyllid y GIG, ar oedi wrth ryddhau cleifion a materion eraill? Pam na edrychwch chi ar hyn?

**Jane Hutt:** Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn chwarae'r un hen gân drosodd a throsodd—yr unig gân sydd ganddynt. Bydd y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid ar gyfer y GIG yn cyflawni hynny, nid yn unig eleni, ond yn y dyfodol. Pan ddaeth y Gweinidog dros

Services came before the committee for scrutiny—and I was very pleased to read the Finance Committee's measured and balanced report on the scrutiny of next year's budget—it was quite clear that the committee felt that we could deliver on the expectations of what is a planned programme. The service and financial framework is what steers the NHS and the health boards that deliver at the front line. Indeed, delivering efficiencies and innovation this year, which is being driven through our efficiency and innovation programme, is a responsibility that the health boards and the health service are taking on board.

With regard to that £110 million, you do not recognise that, Nick, as a substantial allocation at a particularly pressured time for the NHS. You must also recognise that £13 million of that capital allocation was for scanners and diagnostic equipment, which is critically important for the NHS in terms of delivery and welcomed by health professionals on the front line.

**Nick Bourne:** I certainly recognise that you are putting £100 million in, but you are not recognising that you are taking £1.5 billion out. It is a fairly clear piece of arithmetic as to how serious that is. The impact of this on the people of Wales—and it is clear what their priorities are—is that you are taking money out of our national health service to put elsewhere. It is an issue of priorities. However, I come back again to the question I have asked you, Jane. Why on earth will you not look at the issue of delayed discharge so that you can at least get better value for money within the reduced budget that you are putting forward—a budget reduced by 7.6 per cent or £1.5 billion over four years?

**Jane Hutt:** Llywydd, I think that I dealt with the issue of the allocations I have made this year to support the NHS, in line with the service and financial framework. This is the first time this afternoon that I have been asked the question about delayed transfers of care, which is a critical area requiring investment in social care. Going back to your draft budget, the slashing of local government budgets will of course be

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gerbron y pwylgor at ddibenion craffu—ac roeddwn yn falch iawn o ddarllen adroddiad cytbwys a gofalus y Pwyllgor Cyllid yngylch craffu ar gyllideb y flwyddyn nesaf—roedd yn eithaf clir bod y pwylgor yn teimlo y gallem gyflawni disgwyliadau'r rhaglen sydd wedi'i chynllunio. Y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid sy'n llywio'r GIG a'r byrddau iechyd sy'n darparu ar y rheng flaen. Yn wir, mae'r byrddau iechyd a'r gwasanaeth iechyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arloesedd eleni, drwy ein Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi.

O ran y £110 miliwn hwnnw, nid ydych yn cydnabod bod hynny, Nick, yn ddyraniad sylweddol mewn cyfnod lle mae'r GIG o dan gryn dipyn o bwysau. Rhaid ichi hefyd gydnabod bod £13 miliwn o'r dyraniad cyfalaf hwnnw ar gyfer offer sganio a diagnostig, sy'n allweddol bwysig i'r GIG o ran darparu, ac mae'n cael ei groesawu gan weithwyr iechyd proffesiynol ar y rheng flaen.

**Nick Bourne:** Rwyf yn sicr yn sylweddoli eich bod yn rhoi £100 miliwn, ond nid ydych chi'n sylweddoli eich bod yn tynnu £1.5 biliwn o'r gwasanaeth. Rhifyddeg eithaf syml sydd ei angen i gyfrifo pa mor ddifrifol yw hynny. Effaith hyn ar bobl Cymru—ac mae'n glir beth yw eu blaenoraiethau—yw eich bod yn symud arian o'r gwasanaeth iechyd gwladol i'w roi yn rhywle arall. Mae'n fater o flaenoraiethau. Fodd bynnag, rwyf yn dod yn ôl eto at y cwestiwn rwyf wedi ei ofyn ichi, Jane. Pam ar wyneb y ddaear na edrychwch chi ar oedi cyn rhyddhau clefion er mwyn ichi o leiaf gael gwell gwerth am arian o fewn y gyllideb lai rydych yn ei chyflwyno—cyllideb sydd 7.6 y cant neu £1.5 biliwn yn llai dros bedair blynedd?

**Jane Hutt:** Lywydd, rwyf yn meddwl fy mod wedi rhoi sylw i'r dyraniadau rwyf wedi'u gwneud y flwyddyn hon i gefnogi'r GIG, yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid. Dyma'r tro cyntaf y prynhawn yma imi gael cwestiwn am oedi wrth drosglwyddo gofal, sef maes allweddol sy'n gofyn am fuddsoddiad mewn gofal cymdeithasol. Wrth fynd yn ôl at eich cyllideb ddrafft chi, bydd effaith y toriadau yn y cyllidebau llywodraeth

reflected in social care, whereas we sought to protect social care through an allocation to local government specifically for social care, which will help deal with delayed transfers of care. [Interruption.]

leol, wrth gwrs, i'w gweld ym maes gofal cymdeithasol. Rydym ni ar y llaw arall wedi ceisio diogelu gofal cymdeithasol drwy roi dyraniad i lywodraeth leol yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol, a fydd yn helpu i ymdrin ag oedi wrth drosglwyddo gofal. [Torri ar draws.]

**The Presiding Officer:** Order. Before we proceed, I would ask you to consider whether it might be appropriate to have a rational discussion between now and events later this year. Peter Black is next.

**Peter Black:** Thank you for calling me after that comment, Presiding Officer.

Minister, I notice that you have already detailed some of your extra announcements in terms of additional expenditure, totalling £189 million in the last six weeks over and above the budget. I also understand and agree that we are very hard pressed in terms of finances, and that we have a difficult settlement and a lot of things that we need to spend that money on. However, given that you have been able to find that £189 million, what other sums of money do you have up your sleeve that you can announce over the next six weeks?

**The Presiding Officer:** Trefn. Cyn inni symud ymlaen, byddwn yn gofyn ichi ystyried a fyddai'n briodol cael trafodaeth resymegol rhwng heddiw a digwyddiadau yn ddiweddarach eleni. Peter Black sydd nesaf.

**Peter Black:** Diolch am alw arnaf ar ôl y sylw hwnnw, Llywydd.

Weinidog, rwyf yn sylwi eich bod eisoes wedi rhoi manylion rhai o'ch cyhoeddiadau ychwanegol am wariant ychwanegol, sef cyfanswm o £189 miliwn yn ystod y chwe wythnos diwethaf, ar ben y gyllideb. Rwyf hefyd yn deall ac yn cytuno ein bod o dan bwysau gwirioneddol o ran cyllid, a bod gennym setliad anodd a llawer o bethau y mae angen inni wario'r arian hwnnw arnynt. Fodd bynnag, gan eich bod wedi gallu dod o hyd i'r £189 miliwn hwnnw, pa symiau eraill yr hoffech eu rhannu â ni ar gyfer y chwe wythnos nesaf?

**Jane Hutt:** I want to respond to what the Llywydd has said about the importance of being transparent and open, as that is what I have sought to be this afternoon, particularly in relation to handling the pressures on this year's budget—the 2010-11 budget. I also recognise that the supplementary budget—on which I will appear before the Finance Committee—will allow me to account for allocations this year, which will include that revenue and capital allocation. It is important, of course, that that is recognised in the context of a very difficult financial settlement—the most difficult financial settlement—for 2011-12 onwards. How we use our money, Peter, is of critical importance in safeguarding the people of Wales against the considerable impact of the increase in VAT and the withdrawal of the Child Trust Fund. That goes back to my point about protecting the vulnerable.

**Jane Hutt:** Rwyf am ymateb i'r hyn y mae'r Llywydd wedi'i ddweud am bwysigrwydd bod yn dryloyw ac yn agored, gan mai dyna beth rwyf wedi ceisio ei wneud y prynhawn yma, yn enwedig o ran ymdrin â'r pwysau ar y gyllideb eleni—cyllideb 2010-11. Rwyf hefyd yn cydnabod y bydd y gyllideb atodol—a fydd yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid—yn caniatáu imi gyfrif am ddyraniadau eleni. Bydd hynny'n cynnwys y dyraniad refeniw a chyfalaf hwnnw. Mae'n bwysig, wrth gwrs, fod hwnnw'n cael ei gydnabod yng nghyd-destun setliad ariannol anodd iawn—y setliad ariannol anoddaf—ar gyfer 2011-12 ymlaen. Mae'r modd rydym yn defnyddio ein harian, Peter, yn hollbwysig wrth ddiogelu pobl Cymru yn erbyn effaith sylweddol y cynnydd mewn TAW a dileu'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae hynny'n mynd yn ôl at fy mhwynt am ddiogelu'r rheini sy'n agored i niwed.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. I note that you did not mention a figure, and it should be noted that the Child Trust Fund and VAT do not have an impact on your budget. The Government can claim back any VAT that it expends as part of its expenditure. The important point that I wanted to make was that, around Wales, the condition of school buildings is particularly bad, and I was hoping that, if you were able to identify another £100 million or so in your reserves that you could spend this year, you could allocate additional money to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning to try to deal with that pressing problem. In my area alone, we have a backlog of about £150 million, which you know will amount to more than £1 billion across Wales. Will you consider allocating any reserves that you have left for that issue?

**Jane Hutt:** I am sure that schools and, going beyond that, further education colleges will have been pleased to hear that, of the £47 million that I announced as a result of prudent management of our capital resources, £8 million will go towards school maintenance and refurbishment, £3 million towards further education maintenance and £5 million towards school capital investment. I can assure you that the Minister for education got his bids in in a timely fashion. You will also want to reflect on the fact that those small scale allocations will bring direct benefits for local contractors and local economies, which is what the private sector, particularly, wants to see in order to protect the economic recovery.

### Cyllideb

**2. David Melding:** *Pa weithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd i leihau aneffeithlonrwydd yng nghyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru.*  
OAQ(3)1279(BB)

**Jane Hutt:** The duty to safeguard public funds has been at the heart of our spending plans and financial management since the Assembly Government was first established.

**David Melding:** Minister, reflecting on my

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Sylwaf na wnaethoch sôn am ffigur, a dylid nodi nad yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant na TAW yn effeithio ar eich cyllideb. Mae'r Llywodraeth yn cael hawlio'n ôl unrhyw dreth ar werth sy'n rhan o'i gwariant. Dyma'r pwyt pwysig roeddwn am ei wneud. O amgylch Cymru, mae cyflwr adeiladau ysgol yn arbennig o wael, ac roeddwn yn gobeithio, pe baech yn gallu dod o hyd i ryw £100 miliwn arall yn y cronfeydd wrth gefn y gallech eu gwario eleni, y gallech ddyrannu arian ychwanegol i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r broblem fawr honno. Yn fy ardal i yn unig, mae gennym £150 miliwn o ôl-groniad, a byddwch yn gwybod y bydd y swm yn uwch nag £1 biliwn ledled Cymru. A wnewch ystyried dyrannu unrhyw gronfeydd wrth gefn sydd gennych ar gyfer hynny?

**Jane Hutt:** Rywf yn siŵr y bydd ysgolion, a cholegau addysg bellach yn ogystal, wedi bod yn falch o glywed y bydd £8 miliwn o'r £47 miliwn a gyhoeddais—o ganlyniad i'r ffaith ein bod wedi rheoli ein hadnoddau cyfalaf yn ddoeth—yn mynd tuag at gynnal a chadw ac adnewyddu ysgolion, y bydd £3 miliwn yn mynd tuag at gynnal a chadw addysg bellach, ac y bydd £5 miliwn yn mynd tuag at fuddsoddiad cyfalaf ysgolion. Gallaf eich sicrhau bod y Gweinidog dros Addysg wedi cael ei gynigion yn brydlon. Byddwch hefyd am ystyried y ffaith y bydd y dyraniadau bach hynny'n sicrhau manteision uniongyrchol i gcontractwyr lleol ac i economiâu lleol, sef yr hyn y mae'r sector preifat yn arbennig am ei weld er mwyn amddiffyn yr adferiad economaidd.

### Budget

**2. David Melding:** *What procedures are currently in place to reduce inefficiencies in Welsh Assembly Government budgets.*  
OAQ(3)1279(BB)

**Jane Hutt:** Mae'r ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus wedi bod wrth wraidd ein cynlluniau gwariant a rheolaeth ariannol ers i Lywodraeth y Cynulliad gael ei sefydlu.

**David Melding:** Weinidog, wrth edrych yn

time here in the Assembly, particularly my time as Chair of the Audit Committee and member of a number of scrutiny committees, it seems to me that the Welsh Assembly Government needs to strengthen the way in which it monitors and evaluates its policies. Evaluation is getting there, but ongoing monitoring of policy aims seems, sometimes, to be quite weak. This also needs to be combined with agreement on some reliable benchmarks to demonstrate the vision of the Welsh Assembly Government over time—things such as life expectancy, educational attainment or a simple wealth measure—so that we can show the people of Wales that devolution is making a difference and making our people better off and better educated, and able to enjoy a higher quality of life.

ol ar fy nghyfnod yma yn y Cynulliad, yn enwedig fy nghyfnod fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac aelod o nifer o bwyllgorau craffu, mae'n ymddangos i mi fod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gryfhau'r ffordd y mae'n monitro ac yn gwerthuso ei pholisiâu. Nid yw'r prosesau gwerthuso'n bell ohoni, ond weithiau, ymddengys fod y gwaith parhaus o fonitro amcanion polisi braidd yn wan. Mae angen cyfuno hyn hefyd â chytundeb ar feincnodau dibynadwy i ddangos gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru dros amser—pethau fel disgwyliad oes, cyrhaeddiad addysgol neu fesur cyfoeth syml—er mwyn inni allu dangos i bobl Cymru fod datganoli yn gwneud gwahaniaeth a bod ein pobl yn well eu byd, yn cael gwell addysg, ac yn gallu mwynhau ansawdd bywyd gwell o ganlyniad iddo.

**Jane Hutt:** Thank you, David, for that valuable question on the ways in which we are trying to learn from the past 12 years and beyond in terms of the challenges posed by the current financial situation. I have already commented once on the balanced and fair Finance Committee report on how we have approached the budget for coming years. I particularly welcome the fact that the Finance Committee welcomed our development of invest-to-save activities. This is something on which we can develop a new framework to ensure that public sector providers and those delivering and planning our services can invest to save on delivery. The framework of benchmarks that we set ourselves, such as the child wellbeing monitor, is valuable.

**Jane Hutt:** Diolch, David, am y cwestiwn gwerthfawr hwnnw ar y ffyrdd rydym yn ceisio dysgu o'r 12 mlynedd a aeth heibio o ran yr heriau a wynebwn fel rhan o'r sefyllfa ariannol bresennol. Rwyf eisoes wedi sôn unwaith am adroddiad cytbwys a theg y Pwyllgor Cyllid ar sut rydym wedi ymdrin â'r gyllideb ar gyfer y blynnyddoedd nesaf. Croesawaf yn arbennig yffaith bod y Pwyllgor Cyllid wedi croesawu'r gweithgareddau rydym wedi'u datblygu er mwyn buddsoddi i arbed. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn ddatblygu fframwaith newydd arno i sicrhau bod darparwyr yn y sector cyhoeddus a'r rheini sy'n cyflwyno ac yn cynllunio ein gwasanaethau yn gallu buddsoddi i arbed wrth gyflawni. Mae'r fframwaith o feincnodau rydym wedi'u gosod i'n hunain, fel y monitor lles plant, yn werthfawr.

**Bethan Jenkins:** Can the Minister give us an update on the work of the efficiency and innovation board? While I think that the work that it does is very noble in its aims to secure savings, people want to see actions being delivered by the board. I speak specifically with regard to the work that we have been doing on the Public Accounts Committee on looking at savings in local government and across the public sector. We were told that there would be protocols in place for local government savings, yet we see from Rhondda Cynon Taf and Neath Port Talbot

**Bethan Jenkins:** A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi? Er fy mod yn meddwl ei fod yn gwneud gwaith ardderchog i sicrhau arbedion, mae pobl am weld y Bwrdd yn gweithredu. Rwyf yn sôn yn benodol am y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i edrych ar arbedion mewn llywodraeth leol ac ar draws y sector cyhoeddus. Dywedwyd wrthym y byddai protocolau ar waith ar gyfer arbedion llywodraeth leol, ond eto rydym yn gweld o edrych ar Rhondda Cynon Taf a

that the cuts agenda is stark, from one local authority to another. Are there any benchmarks or criteria from this particular board to ensure that public sector cuts are made in such a way that local people and the lowest paid workers will not be the ones to suffer as a result, but that management and backroom services will be the first to be cut?

Chastell-nedd Port Talbot fod yr agenda doriadau yn amlwg iawn, o un awdurdod lleol i'r llall. A oes gan y Bwrdd penodol hwn unrhyw feincnodau neu feini prawf i sicrhau bod toriadau yn y sector cyhoeddus yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau nad pobl leol na gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf fydd yn dioddef o ganlyniad, ac mai'r gwasanaethau ystafell gefn a rheoli fydd y cyntaf i gael eu torri?

**Jane Hutt:** The work of the efficiency and innovation board is pan-public sector and it has been developed effectively over the past year, led in the work streams by local authority chief executives and key partners in the NHS, the third sector, and the Wales TUC. The fact that innovation and best practice have been developed, delivered and showcased at our public service summit has been important. The importance of delivering savings in commissioning and procurement, national asset management and public service ICT has to be at the forefront. It is also important to recognise that our work to develop a memorandum of understanding to create a consistent approach to the current financial challenge, particularly with local government and led by the First Minister through his partnership council, is key to local authority responses to the challenges that they face in terms of the cuts, which we are having to deal with as a result of the poorest settlement from the Westminster Government.

**Jane Hutt:** Mae'r Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus. Mae wedi cael ei ddatblygu'n effeithiol dros y flwyddyn diwethaf, o dan arweiniad prif weithredwyr awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol yn y ffrydiau gwaith yn y GIG, y trydydd sector, a TUC Cymru. Mae'r ffaith bod arloesedd ac arferion gorau wedi cael eu datblygu, eu darparu a'u harddangos yn ein huwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn bwysig. Rhaid rhoi pwyslais go iawn ar bwysigrwydd sicrhau arbedion wrth gomisiyu a chaffael, ac wrth reoli asedau cenedlaethol a TGCh mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod ein gwaith i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn creu dull gweithredu cyson i fynd i'r afael â'r her ariannol bresennol—yn enwedig gyda llywodraeth leol ac o dan arweiniad y Prif Weinidog drwy ei Gyngor Partneriaeth—yn allweddol i ymatebion awdurdodau lleol i'r heriau a wynebant o ran y toriadau rydym yn gorfol ymdrin â hwy o ganlyniad i'r setliad tlotaf gan Lywodraeth San Steffan.

**Jenny Randerson:** Many of my constituents who are under the care of the health board for mental health issues are concerned about the proposals to relocate the facilities at Whitchurch Hospital to Llandough. They are not concerned about the proposals to update the facilities, I can assure you, but they are concerned about the relocation. They have also complained to me about how long it has taken for any improvements to come forward in mental health services in Cardiff. One reason for this is that the old trust started on proposals to update the Whitchurch site and later changed its mind. In the process, the old trust and the health board have spent £6 million on the early plans. Although not all of that money can be said to have been wasted,

**Jenny Randerson:** Mae llawer o'm hetholwyr sydd o dan ofal y bwrdd iechyd ar gyfer anhwylderau iechyd meddwl yn pryderu am y cynigion i symud y cyfleusterau sydd yn Ysbyty'r Eglwys Newydd i Landochau. Gallaf eich sicrhau nad ydynt yn pryderu am y cynigion i ddiweddarau'r cyfleusterau, ond maent yn pryderu am yr ail-leoli. Maent hefyd wedi cwyno wrthyf am yr amser sydd wedi mynd heibio cyn cyflwyno unrhyw welliannau mewn gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerdydd. Un rheswm am hyn yw bod yr hen ymddiriedolaeth wedi dechrau gweithio ar gynigion i ddiweddar safle'r Eglwys Newydd, ond wedi newid ei meddwl yn ddiweddarach. Yn y broses, mae'r hen

some of it at least was spent on things that, although previously agreed, will not now go ahead.

Minister, what evaluation and review have you and your Government made of that money, the way in which it was spent, and whether it was properly spent so that it is now appropriate to abandon it?

**Jane Hutt:** The relocation of mental health services is an operational matter and therefore subject to consultation. Indeed, the drive to improve mental health services is at the forefront of the Welsh Assembly Government's agenda. I have already mentioned the importance of the invest-to-save fund, and I would draw your attention to the fact that we have supported bids from the Cardiff and Vale University Local Health Board to help improve safety, effectiveness and efficiency in terms of, for example, community-based staff. We have ensured that the local health board has the funding to support the innovation and change that we all recognise is needed in the delivery of mental health services.

**Jonathan Morgan:** I am very grateful to be called to ask a supplementary question on this subject. Jenny Randerson raised an extremely important point about the £6 million spent by the Cardiff and Vale University Local Health Board at Whitchurch Hospital. This is by far one of the biggest capital projects to be scrapped, resulting, potentially, in the loss of almost all of that £6 million. Will the Government confirm whether its intention is to provide resource cover if that £6 million cannot be recovered? My understanding is that, in the end-of-year accounts, if that money cannot be accounted for, it has to be written off and regarded as abortive expenditure. If it is abortive expenditure, the Minister for Health and Social Services needs to provide resource cover to cover it for the health board. Does the Government intend to do that, or should the health board be more responsible for how it spends public money?

ymddiriedolaeth a'r bwrdd iechyd wedi gwario £6 miliwn ar y cynlluniau cynnar. Er na ellir dweud bod bob ceiniog o'r arian hwnnw wedi cael ei wastraffu, cafodd rhywfaint ohono o leiaf ei wario ar bethau na fyddant yn digwydd yn awr, er y cytunwyd arnynt ar y dechrau.

Weinidog, pa waith gwerthuso ac adolygu rydych chi a'ch Llywodraeth wedi'i wneud mewn perthynas â'r arian hwnnw, y ffordd y cafodd ei wario, ac a gafodd ei wario'n briodol fel ei bod yn awr yn briodol anghofio amdano?

**Jane Hutt:** Mae ail-leoli'r gwasanaethau iechyd meddwl yn fater gweithredol ac felly yn destun ymgynghori. Yn wir, mae'r ymgyrch i wella gwasanaethau iechyd meddwl yn uchel ar agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rwyf eisoes wedi crybwyl pwysigrwydd y gronfa buddsoddi i arbed, a hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith ein bod wedi cefnogi bidiau gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro i helpu i wella diogelwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd staff yn y gymuned, er enghraift. Rydym wedi sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol y cyllid i gefnogi'r gwaith arloesi a newid y mae pob un ohonom yn cydnabod sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn falch iawn o gael fy ngalw i ofyn cwestiwn atodol ar y pwnc hwn. Cododd Jenny Randerson bwynt pwysig iawn am y £6 miliwn a wariwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Hwn yn sicr yw un o'r prosiectau cyfalaf mwyaf i gael ei ddileu, gan arwain, o bosibl, at golli bron y cyfan o'r £6 miliwn hwnnw. A wnaiff y Llywodraeth gadarnhau a yw'n bwriadu darparu adnoddau yn lle'r £6 miliwn hwnnw os na ellir ei gael yn ôl? Yn ôl yr hyn rwyf fi'n ei ddeall, yn y cyfrifon diwedd blwyddyn, os nad oes modd rhoi cyfrif am yr arian hwnnw, rhaid iddo gael ei ddiystyr, a'i ystyried yn wariant ofer. Os yw'n wariant ofer, mae angen i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu adnoddau yn lle'r adnoddau hynny ar gyfer y Bwrdd Iechyd. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud hynny, ynteu a ddylai'r Bwrdd Iechyd fod yn fwy cyfrifol am sut

mae'n gwario arian cyhoeddus?

1.50 p.m.

**Jane Hutt:** Again, this is an operational matter, in terms of the management of the finance and, indeed, health service delivery, for the Cardiff and Vale University Local Health Board. The Minister has answered many questions on this issue, and it is important now that we look at the progress for ensuring that we have the appropriate reform of mental health services to serve the population of Cardiff and the Vale of Glamorgan.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(3)1255(BB), yn ôl.

**'Cymru'n Un'**

**4. Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa ymrwymiadau yn y cytundeb Cymru'n Un y mae hi'n disgwyl na fyddant wedi'u cyflawni yng nghyswllt ei phortffolio Gweinidogol pan ddaw'r Trydydd Cynulliad i ben. OAQ(3)1264(BB)

**Jane Hutt:** All 'One Wales' commitments relating to my portfolio have been delivered.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, Minister. It is interesting that in your portfolio you are charged with the efficient spend and use of Government resource across departments. I have gone around my region this Christmas, and many health workers to whom I have spoken have touched on the 'no redundancy' policy that has been championed by this Government, when they are facing job insecurity. Do you believe, as the Minister charged with the efficient spend of Government money, that it is an efficient use of resources within the health service to protect executive positions when nurses on the front line are facing redundancy?

**Jane Hutt:** Again, we have to be very clear, at what is a sensitive time, about the ways in which we as a Government, and our partners

**Jane Hutt:** Unwaith eto, mae hwn yn fater gweithredol, o ran rheoli'r cyllid ac, yn wir, darparu gwasanaeth iechyd, ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r Gweinidog wedi ateb nifer o gwestiynau ynghylch y mater hwn, ac mae'n bwysig yn awr ein bod yn edrych ar y datblygiadau ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth iechyd meddwl yn cael ei ddiwygio'n briodol i wasanaethu poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg.

**The Presiding Officer:** Question 3, OAQ(3)1255(BB), is withdrawn,

**'One Wales'**

**4. Andrew R.T. Davies:** Will the Minister outline which commitments from the One Wales agreement she envisages remaining outstanding in relation to her Ministerial portfolio upon dissolution of the Third Assembly. OAQ(3)1264(BB)

**Jane Hutt:** Mae holl ymrwymiadau 'Cymru'n Un' sy'n ymwneud â fy mhorthffolio wedi cael eu cyflawni.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'n ddiddorol eich bod, fel rhan o'ch portffolio, yn gyfrifol am fynd ati'n effeithlon i wario a defnyddio adnoddau'r Llywodraeth ar draws yr adrannau. Rwyf wedi bod o amgylch fy rhanbarth y Nadolig hwn, ac mae nifer o weithwyr iechyd rwyf wedi siarad â nhw wedi crybwyl y polisi dim dileu swyddi sydd wedi cael ei hyrwyddo gan y Llywodraeth hon, er eu bod yn wynebu ansicrwydd yn eu swyddi hwy. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am wario arian y Llywodraeth yn effeithlon, a ydych yn credu bod diogelu swyddi prif swyddogion, pan mae nyrssys sy'n gweithio yn y rheng flaen mewn perygl o golli eu swyddi hwy, yn enghraift o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon yn y gwasanaeth iechyd?

**Jane Hutt:** Unwaith eto, rhaid inni fod yn glir iawn, mewn cyfnod sensitif fel hwn, am y ffyrdd rydym ni fel Llywodraeth, a'n

in local government and the health service, are seeking to safeguard jobs and front-line services. As you well know, Andrew, the Minister for Health and Social Services has been very clear on this point about ensuring that we protect and safeguard not only the staff, but their terms and conditions.

**Helen Mary Jones:** Would you agree, Minister, that, in terms of protecting services for the most vulnerable, it is very important that the commitment to social services that the One Wales Government has demonstrated continues to be maintained through these very difficult financial times? Would you further agree that a failure to do so would put pressures on our national health service that would rapidly become unsustainable?

**Jane Hutt:** That goes back to my response to the question from the leader of the opposition. Quite clearly, if we are to tackle delayed transfers of care, we need to ensure that we are supporting our local authorities in relation to social services budgets. I was pleased to attend the launch of the manifesto of the British Association of Social Workers—I believe that you were also there—at which the Deputy Minister for Social Services welcomed the fact that we had made an additional allocation for social services, which, over the next three years, will safeguard investment in social care, and support vulnerable children also.

### Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU

**5. Joyce Watson:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU. OAQ(3)1269(BB)

**Jane Hutt:** I have met the Chief Secretary to the Treasury regularly, most recently on 22 November, after his appearance before the Finance Committee. I published a written statement on Monday on our most recent meeting, which has resulted in his agreement to official discussions about the Holtham funding floor.

partneriaid mewn llywodraeth leol ac yn y gwasanaeth iechyd, yn ceisio diogelu swyddi a gwasanaethau rheng flaan. Fel y gwyddoch, Andrew, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn glir iawn ar y pwynt hwn am sicrhau ein bod yn amddiffyn ac yn diogelu nid yn unig y staff, ond eu telerau ac amodau hefyd.

**Helen Mary Jones:** A fyddch yn cytuno, Weinidog, o ran diogelu gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed, ei bod yn bwysig iawn bod yr ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi'i ddangos i'r gwasanaethau cymdeithasol yn parhau yn ystod y cyfnod ariannol anodd iawn? A fyddch yn cytuno ymhellach y byddai peidio â gwneud hynny yn rhoi pwysau ar ein gwasanaeth iechyd gwladol, a fyddai'n mynd yn anghynaliadwy mewn dim o dro?

**Jane Hutt:** Mae hynny'n mynd yn ôl i'm hymateb i gwestiwn arweinydd yr wrthblaid. Yn amlwg, os ydym am fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, mae angen inni sicrhau ein bod yn cefnogi ein hawdurdodau lleol yng nghyswllt cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yn bleser gennyl fod yn bresennol yn lansiad maniffesto Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain—credaf eich bod chithau yno hefyd—lle'r oedd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn croesawu ein dyraniad ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hwnnw, yn ystod y tair blynedd nesaf, yn diogelu buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol, ac yn cefnogi plant agored i niwed hefyd.

### Discussions with the UK Government

**5. Joyce Watson:** Will the Minister provide an update on her discussions with the UK Government. OAQ(3)1269(BB)

**Jane Hutt:** Rwyf wedi cael cyfarfodydd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn rheolaidd, yn fwyaf diweddar ar 22 Tachwedd, ar ôl iddo ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ddydd Llun ar ein cyfarfod diweddaraf, ac yn dilyn y cyfarfod hwnnw mae wedi cytuno i drafod dull ariannu gwaelodol Holtham yn swyddogol.

**Joyce Watson:** Thank you for that answer, Minister. I am sure that you have followed with interest the efforts of the Secretary of State for Wales to lobby her Cabinet colleagues on the proposed route of the London to Birmingham high-speed rail line, which will now take a less offensive route through her Buckinghamshire constituency. Will you join me in hoping that, having delivered for the people of Chesham and Amersham, Mrs Gillan will now use her considerable petitioning skills to deliver a funding settlement that recognises the needs of the people of Wales through a funding floor to stall the relative decline in funding per head caused by the Barnett formula?

**Jane Hutt:** I am sure that we were all disappointed across this Chamber about the UK Government's decision to postpone the announcement on the electrification of the Great Western main line to Wales until the new year. We are now in the new year, and we continue to make a strong case to the UK Government. As the First Minister said yesterday, the electrification has to be to Swansea and is essential in terms of its economic and environmental benefits.

**Andrew R.T. Davies:** On Monday, you issued a statement on your discussions with the Chief Secretary to the Treasury and the recent points that you have been talking about. In particular, you touched upon the possible application of the reforms in England that affect the housing revenue account subsidy. Given that your Government failed to request these reforms when the Labour Party was in power in London, and that the Bevan Foundation indicated that the potential loss is £1 billion, what will be the financial gain for Welsh local authorities if the reforms are implemented?

**Jane Hutt:** I am glad that you recognise from the written statement that I sought to raise this issue with the Chief Secretary to the Treasury. Rather than summarising his letter to me in the written statement, I will read his reply. I have raised this point most vigorously, as the Deputy Minister for

**Joyce Watson:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn siŵr eich bod wedi dilyn gyda diddordeb ymdrechion Ysgrifennydd Gwladol Cymru i lobio ei chyd-Weinidogion yn y Cabinet ynghylch llwybr arfaethedig y rheilffordd gyflym rhwng Llundain a Birmingham, a fydd bellach yn dilyn llwybr llai tramgwyddol drwy ei hetholaeth yn Swydd Buckingham. A wnewch ymuno â mi i obeithio y bydd Mrs Gillan, ar ôl gofalu am bobl Chesham ac Amersham, yn mynd ati'n awr i ddefnyddio ei sgiliau deisebu sylweddol i sicrhau setliad cyllido sy'n cydnabod anghenion pobl Cymru, drwy gyfrwng dull ariannu gwaelodol a fydd yn atal dirywiad cymharol mewn cyllid y pen, fel sy'n cael ei achosi gan fformiwla Barnett?

**Jane Hutt:** Rwyf yn siŵr ein bod i gyd, ar draws y Siambra hon, yn siomedig am benderfyniad Llywodraeth y DU i ohirio'r cyhoeddiad ynghylch trydaneiddio prif lein y Great Western i Gymru tan y flwyddyn newydd. Mae hi bellach yn flwyddyn newydd, ac rydym yn parhau i gyflwyno achos cryf i Lywodraeth y DU. Fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe, rhaid trydaneiddio hyd at Abertawe, ac mae'n hanfodol o ran ei fanteision economaidd ac amgylcheddol.

**Andrew R.T. Davies:** Ddydd Llun, gwnaethoch roi datganiad am eich trafodaethau â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ac am y pwyntiau diweddar rydych wedi bod yn sôn amdanynt. Yn benodol, cyfeirioch at y diwygiadau posibl yn Lloegr sy'n effeithio ar gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. O gofio na ofynodd eich Llywodraeth am y diwygiadau hyn pan oedd y Blaid Lafur mewn grym yn Llundain, a bod Sefydliad Bevan wedi dangos bod y golled bosibl yn £1 biliwn, sut y bydd awdurdodau lleol Cymru ar eu hennill yn ariannol os bydd y diwygiadau'n cael eu gwireddu?

**Jane Hutt:** Rwyf yn falch eich bod yn cydnabod o'r datganiad ysgrifenedig fy mod wedi codi'r mater hwn â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Yn hytrach na chrynhoi ei lythyr ataf yn y datganiad ysgrifenedig, darllenaf ei ymateb. Rwyf wedi codi'r pwynt hwn yn frwd iawn, wrth i'r Dirprwy Weinidog dros

Housing and Regeneration and I have been working on it. In his letter to me, he said, on the housing revenue account subsidy, that he is content for his officials to discuss the possible application of English reforms to the Welsh Assembly Government, which, he said, would address my concerns about surrendering surpluses. I am sure that we will return to this topic, not only this afternoon, but in due course.

**Leanne Wood:** Mae twristiaeth yn cyfrannu oddeutu £4 biliwn y flwyddyn i economi Cymru ac, fel y gwyddoch yn dda, mae'n ffynhonnell hanfodol o gyflogaeth. Yn wyneb yr hinsawdd economaidd anodd, yn ogystal â thywydd anodd, mae'r ffigurau diweddaraf ar nifer yr ymwelwyr sy'n dod i Gymru a faint o arian sy'n cael ei wario gan dwristiaid yn awgrymu ein bod yn ymdopi'n well na gwledydd eraill yn y DU. Sut y gallwn fanteisio ar yr atyniadau yn y Cymoedd, lle mae cymaint o botensial twristiaeth heb ei gyffwrdd? Ar wahân i gynnig hanes amrywiol a chyfoethog, mae gan ein hen Gymoedd glofaol lawer o lecynnau hardd a lleoedd sy'n werth ymweld â hwy, fel y dywedodd yr awdur Mike Parker yn ei restr o 50 o brif atyniadau'r Cymoedd. Gyda llaw, mae gan bobl hyd at ddiwedd y mis i bleidleisio dros eu hoff le. Weinidog, gwn eich bod yn gyfarwydd â'r prosiect hwnnw a'ch bod wedi nodi bod arian wedi cael ei fuddsoddi ym Mlaenau'r Cymoedd, ond sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar botensial twristiaeth yn y Cymoedd?

**Alun Ffred Jones:** Yn ddiweddar, mae ymgrych Y Cymoedd—Calon ac Enaid

won a number of awards, including coming top in the community relations category and top in the public sector category at the Chartered Institute of Public Relations Practitioners Cymru awards, which suggests that we are getting something right with regard to that campaign. In terms of ensuring that we capitalise on the relative success of that campaign and of other campaigns, as you referred to in your question, we need to raise standards and the quality of our attractions and ensure that people are aware of the exciting and interesting attractions that we have all over Wales and, in particular, in the Valleys, an area that has not been traditionally known as a tourist attraction, but which is gaining in popularity. Raising the awareness of these attractions is important, and the competition to which you have referred is one way of achieving that awareness at a UK level.

#### Blaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru

**3. Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer gweddill trydydd tymor y Cynulliad. OAQ(3)1398(HER)

**Alun Ffred Jones:** I remain committed to fulfilling my ‘One Wales’ commitments across north Wales. That includes supporting high-quality cultural experiences for the people of the area and visitors, as well as ensuring that heritage tourism project funding is made available across north Wales.

**Darren Millar:** Thank you for your response, Minister. As has already been said today, tourism makes up a significant proportion of the economy in north Wales. It is extremely important that it is not overlooked when it comes to opportunities to create new employment and see some additional investment in our country. I make a plea to you, Minister, to work with your colleague the Minister for Environment, Sustainability and Housing on the issue of the Clwydian range area of outstanding natural beauty. I have received representations from my constituents, who wish to see this area designated as a national park. That would go a long way to encouraging people to visit the north-east of Wales and could provide a

Cymru, wedi ennill nifer o wobrau. Daeth i'r brig yn y categori cysylltiadau â'r gymuned ac yn y categori sector cyhoeddus yng ngwobrau Sefydliad Siartredig Ymarferwyr Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru. Mae hynny'n awgrymu bod yr ymgyrch honno'n gwneud rhywbeth yn iawn. I sicrhau ein bod yn manteisio ar lwyddiant yr ymgyrch honno ac ymgyrchoedd eraill, fel y sonioch yn eich cwestiwn, mae angen inni godi safonau ac ansawdd ein hatyniadau, a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r atyniadau cyffrous a diddorol sydd gennym ar hyd a lled Cymru ac, yn benodol, yn y Cymoedd, sef ardal nad yw wedi cael ei hystyried yn draddodiadol yn atyniad i dwristiaid, ond sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'r atyniadau hyn, ac mae'r gystadleuaeth rydych wedi cyfeirio ati yn un ffordd o sicrhau'r ymwybyddiaeth honno ar lefel y DU.

#### Priorities for North Wales

**3. Darren Millar:** Will the Minister outline his priorities for North Wales for the remainder of the third Assembly term. OAQ(3)1398(HER)

**Alun Ffred Jones:** Rwyf yn dal wedi ymrwymo i gyflawni fy ymrwymiadau, fel y maent wedi'u nodi yn 'Cymru'n Un', ledled y gogledd. Mae hynny'n cynnwys cefnogi profiadau diwylliannol o safon uchel i bobl yr ardal ac i ymwelwyr, yn ogystal â sicrhau bod cyllid y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth ar gael ledled y gogledd.

**Darren Millar:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Fel y dywedwyd eisoes heddiw, mae twristiaeth yn rhan fawr o'r economi yn y gogledd. Mae'n eithriadol o bwysig nad yw'n cael ei esgeuluso pan geir cyfleoedd i greu cyflogaeth newydd ac i weld rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol yn ein gwlad. Eryniaf arnoch, Weinidog, i weithio gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd. Rwyf wedi cael sylwadau gan fy etholwyr, sydd am i'r ardal hon gael ei dynodi'n Barc Cenedlaethol. Byddai hynny'n gwneud llawer iawn i annog pobl i ymweld â'r gogledd-ddwyrain, a gallai roi hwb economaidd sylweddol i lawer o gymunedau

significant economic boon to many communities in my constituency and elsewhere. This year is the fortieth anniversary of the official opening of the Offa's Dyke national trail, much of which goes through the Clwydian range. Will you take this opportunity to discuss that with your ministerial colleague in order to take this matter forward?

**Alun Ffred Jones:** You are right to say that tourism plays an important part in the economic life of north Wales. North Wales attracts more visitors and spend per year than any other region of Wales, with just over 3 million trips taken and nearly 12 million bed nights spent in the area. Visitor spend in the area is nearly 35 per cent of all tourism spend in Wales. With regard to the Clwydian range, I will talk, and have been talking, to my colleagues. I attended a symposium at Llysfasi recently, at which the Clwydian range and its attractions were discussed. It was a lively and informative afternoon. I have also set up a partnership group in north-east Wales to look at ways of improving the tourism offer, using the Pontcysyllte aqueduct and canal structures in that region, because of its world heritage status, as a gateway to north-east Wales. However, we need to link that into the other attractions in that area. A lot of work is ongoing. I recognise that this area has perhaps not had the profile of other areas in Wales in the past and we need to work on that.

**Gareth Jones:** Hoffwn eich llongyfarch, Weinidog, ar y rhan y bu ichi ei chwarae wrth sicrhau'r buddsoddiad o £6.5 miliwn mewn canolfan newydd ar gyfer rygbi a digwyddiadau ym Mharc Eirias ym Mae Colwyn. Bydd yn ddiamheul yn lleoliad a fydd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan etholwyr yn Aberconwy. A ydych yn cytuno y bydd y lleoliad hwn o fudd aruthrol i'r economi leol yn ogystal â chyfrannu at godi lefelau ffitrwydd ac iechyd yn gyffredinol? Yr wyf yn deall hefyd y gosodir cyfarpar yn y maes chwarae a fydd yn ei wneud yn addas i wylwyr sefyll yno ar gyfer digwyddiadau awyr agored heblaw gemau rygbi. Pa

yn fy etholaeth i ac mewn mannau eraill. Eleni, byddwn yn dathlu deugain mlynedd ers i lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa gael ei agror yn swyddogol, ac mae rhan helaeth o'r lwybr hwnnw yn mynd drwy Fryniau Clwyd. A fyddwch yn manteisio ar y cyfle hwn i drafod hynny â'ch cyd-Weinidog er mwyn bwrw ymlaen â'r mater hwn?

**Alun Ffred Jones:** Rydych yn llygad eich lle i ddweud bod twristiaeth yn chwarae rhan bwysig ym mywyd economaidd y gogledd. Mae'r gogledd yn denu mwy o ymwelwyr a gwariant bob blwyddyn nag unrhyw ranbarth arall yng Nghymru, gydag ychydig dros 3 miliwn o deithiau a bron i 12 miliwn o nosweithiau gwely. Roedd gwariant ymwelwyr yn yr ardal yn cyfrif am bron 35 y cant o holl wariant twristiaeth Cymru. O ran Bryniau Clwyd, byddaf yn siarad, ac rwyf wedi bod yn siarad, â'm cyd-Aelodau. Bûm mewn symposiwm yn Llysfasi yn ddiweddar, a chafodd Bryniau Clwyd a'i atyniadau eu trafod yno. Roedd yn brynhawn bywiog a llawn gwybodaeth. Rwyf hefyd wedi sefydlu grŵp partneriaeth yn y gogledd-ddwyrain i edrych ar ffyrdd o wella'r cynnig twristiaeth, gan ddefnyddio traphont ddŵr Pontcysyllte a'r camlesi yn y rhanbarth hwnnw—oherwydd ei statws fel safle treftadaeth y byd—fel porth i'r gogledd-ddwyrain. Fodd bynnag, mae angen inni gysylltu hynny â'r atyniadau eraill yn yr ardal honno. Mae llawer o waith ar y gweill. Rwyf yn cydnabod nad yw'r ardal hon o bosibl wedi cael cymaint o broffil ag ardaloedd eraill yng Nghymru yn y gorffennol, ac mae angen inni weithio ar hynny.

**Gareth Jones:** I would like to congratulate you, Minister, on the part that you played in ensuring the investment of £6.5 million in a new rugby and events centre at Parc Eirias in Colwyn Bay. It will no doubt be a venue that will be much used by constituents in Aberconwy. Do you agree that this venue will be of immense benefit to the local economy as well as contributing to raising levels of fitness and health in general? I also understand that the pitch has equipment installed that will allow spectators to stand on the pitch for outdoor events other than rugby matches. What discussions will be taking place with partners with a view to securing

drafodaethau a fydd yn digwydd gyda phartneriaid gyda'r nod o sicrhau mwy o ddigwyddiadau mawr yn y lleoliad cyffrous newydd hwn yn y gogledd?

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf wedi siarad gydag arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â'r datblygiad cyffrous hwn, fel yr ydych yn ei ddisgrifio. Mae'n gyfleuster ardderchog, ac yn newyddion gwych i'r ardal. Gall fod yn ffocws i nifer o ddigwyddiadau.

2.30 p.m.

O ran edrych ymlaen i'r dyfodol, mae'r uned digwyddiadau mawr wedi datblygu strategaeth sy'n nodi'n benodol ein bod yn chwilio am gyfleoedd i ddenu digwyddiadau i Gymru, ac i greu rhai ein hunain. Mae angen gwneud hyn ar draws Cymru, ac nid canolbwntio ar Gaerdydd a'r cyffiniau yn unig, sydd â'r adnoddau penodol, manteisiol, a fydd yn denu rhai o'r digwyddiadau hyn. Mae'n rhaid chwilio am gyfleoedd, felly, a bydd Parc Eirias yn ei gynnig ei hun yn y dyfodol, nid yn unig ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, ond, fel y bu i chi ddweud, ar gyfer digwyddiadau awyr agored eraill hefyd.

**Eleanor Burnham:** Nid oes gennym amser i drafod popeth. Fodd bynnag, yr wyf yn cydfynd yn llwyr â'r hyn a ddywedwyd eisoes. Mae pethau da yn digwydd, a gobeithio yr adeiledir ar yr hyn yr ydych wedi ei grybwyl, yng nghyd-destun Pontcysyllte, Chastell y Waun, a'r ardal o harddwch naturiol eithriadol. Bûm mewn cyfarfod yn ddiweddar yng Nghorwen, lle maent am ymestyn yr ardal o harddwch naturiol eithriadol; yr wyf yn falch o glywed hynny. Gobeithio y gallwch wneud rhywbeth ynglŷn â hynny. Gobeithiaf hefyd y gallwch wneud rhywbeth ynglŷn ag adeilad achub pyllau glo yn Wrecsam, sydd bron â chael ei ddymchwel.

Yn ogystal â hyn, a allwch wneud rhywbeth i wella'r cyswllt rhwng yr hyn sy'n digwydd yng nghanolfan y mileniwm a gogledd Cymru? Efallai y gall y ganolfan fynd â phethau allan o'r fan honno i ogledd Cymru, er mwyn i bobl yno gael gwell dealltwriaeth a chael rhywfaint o gyswllt â'r ganolfan. Mae'n andros o bellter i bobl ddod o'r

more major events in this exciting new venue in north Wales?

**Alun Ffred Jones:** I have spoken to the leader of Conwy County Borough Council about this exciting development, as you describe it. It is an excellent facility, and it is great news for the area. It could be a focus for a number of events.

In terms of looking to the future, the major events unit has developed a strategy that specifically notes that we are looking for opportunities to attract events to Wales, and to create some of our own. We need to do that across Wales, and not just concentrate on Cardiff and its environs, which have specific facilities that are of great benefit and which will attract some of these events. We have to look for opportunities, therefore, and Parc Eirias will offer itself in future, not only for sporting events, but, as you said, for other outdoor events.

**Eleanor Burnham:** We do not have time to discuss everything. However, I agree with everything that has already been said. Good things are happening, and I hope that what you have mentioned will be built upon, with regard to Pontcysyllte, Chirk and the area of outstanding natural beauty. I attended a meeting in Corwen recently, where they want to extend the area of outstanding natural beauty; I am pleased to hear that. I hope that you can do something about that. I also hope that you can do something about the mine rescue building in Wrexham, which has almost been demolished.

In addition, could you do something to improve the link between what happens in the millennium centre and north Wales? Perhaps the centre could take events out to north Wales, so that people there can have a better understanding and some kind of link with the centre. It is a very long distance for people to travel from north Wales to Cardiff,

gogledd i Gaerdydd, ac mae llawer o bethau da yn digwydd yng Nghanolfan y Mileniwm.

**Alun Ffred Jones:** Nid wyf yn mynd i achub unrhyw bwll glo yn ardal Wrecsam, oherwydd maent i gyd wedi cau. Fodd bynnag, deallaf fod yr adeilad y cyfeiriwch ato o ddiddordeb hanesyddol, ac mae fy swyddogion yn ymwybodol o hynny.

O ran cyswllt canolfan y mileniwm â lleoliadau a chyfleusterau y tu allan i'r brifddinas, mae cadeirydd newydd y ganolfan wedi nodi ei awydd i greu cysylltiadau cryfach â chanolfannau ar hyd a lled Cymru. Tynnaf eich sylw hefyd at y gwaith y mae'r ddwy theatr genedlaethol—yn Gymraeg a Saesneg—yn ei wneud. Mae'r theatr genedlaethol Saesneg—the National Theatre of Wales—wedi cynnal digwyddiadau a pherfformiadau ym mhob rhan o Gymru, yn rhan o'i rhaglen gychwynnol. Yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n parhau, ac mae'n bwysig ei fod yn parhau.

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**4. Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. OAQ(3)1359(HER)

**Alun Ffred Jones:** The National Library of Wales in Aberystwyth is one of Wales's key national institutions, and the Welsh Assembly Government provides grant-in-aid funding to support the work of the library in collecting and preserving and in promoting access by visitors and remote users to our rich and diverse cultural heritage.

**Brian Gibbons:** Over the last 12 months, I have had a bit more time on my hands, and I have had the opportunity, as part of the literary legacy of Wales, to look at the Library of Wales collection, which the Assembly Government supports. That is an excellent collection of up to 30 works of the literature of Wales in English, and is an outstanding contribution to Wales's cultural legacy. I understand that a complete set of the Library of Wales series is available, for example, in a public library in Wexford, in the Irish Republic. However, are any steps

and many good things are happening in the millennium centre.

**Alun Ffred Jones:** I am not going to rescue any coal mine in the Wrexham area, because they have all closed. However, I understand that the building that you referred to is of historical importance, and my officials are aware of that.

With regard to the millennium centre and its links with locations and facilities outside of the capital, the new chair of the centre has noted his desire to create stronger links with centres throughout Wales. I also draw your attention to the work that the two national theatres—in Welsh and English—are doing. The English-language national theatre—the National Theatre of Wales—has held events and performances throughout Wales, as part of its initial programme. I am sure that that will continue, and it is important that it does so.

### National Library for Wales

**4. Brian Gibbons:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for the National Library of Wales. OAQ(3)1359(HER)

**Alun Ffred Jones:** Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yw un o brif sefydliadau cenedlaethol Cymru, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth grant i gefnogi gwaith y llyfrgell wrth iddi gasglu a chadw ac annog ymwelwyr a defnyddwyr o bell i fwynhau ein treftadaeth ddiwylliannol amrywiol a chyfoethog.

**Brian Gibbons:** Dros y 12 mis diwethaf, rwyf wedi mwynhau tipyn mwy o amser hamdden, ac wedi cael y cyfre, fel rhan o etifeddiaeth lenyddol Cymru, i edrych ar gasgliad Library of Wales, sy'n cael cefnogaeth gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hwnnw'n gasgliad rhagorol sy'n cynnwys hyd at 30 darn o waith sy'n ymdrin â llenyddiaeth Cymru yn Saesneg. Mae'n gyfraniad pwysig at etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru. Caf ar ddeall bod set gyflawn o'r gyfres Library of Wales ar gael, er enghraift, mewn llyfrgell gyhoeddus yn

being taken to make public libraries in Wales more open to providing an outlet for this excellent collection?

**Alun Ffred Jones:** I am glad that you have referred to the Library of Wales series. I was not aware that there is a whole set of these books in Wexford—I will look in when I am passing through next. We have discussed promoting this collection, because, although it has sold reasonably well, I believe that more could and should be done. There is a serious issue about the national curriculum in Wales, and the lack of understanding and knowledge of the literature of Wales in English, although this is not my domain—which I mention as I see Mr Leighton Andrews walking past. However, it is important that we use every means to promote this excellent collection of works. In fact, I had the opportunity recently of reading the latest edition by an author from Pwllheli, Stead Jones—which was not his real name. It is an excellent edition in what has been a very successful series. As you say, there is work to be done to promote the series more widely.

**Nick Bourne:** I agree very much with the comments of Brian Gibbons and the Minister about the excellent work done by Andrew Green and his team in Aberystwyth in what is one of the great libraries of the world. Clearly, access to the library is vital, and Saturday opening has been reintroduced. What is the Minister doing, along with the library, to promote the remote access that is so important—I know that digitalisation and so on is going on and that they are focusing resources on that—so that people who, regrettably, cannot make it to the great town of Aberystwyth are able, nevertheless, to access materials at the library? I do not know whether I should declare an interest as a friend, but just in case I should, I do. [Laughter.]

**The Presiding Officer:** I think we are all friends.

**Alun Ffred Jones:** I hope that we are friends of the library, of course.

Wexford yng Ngweriniaeth Iwerddon. Fodd bynnag, a oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd i sicrhau bod llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn fwy agored i roi llwyfan i'r casgliad ardderchog hwn?

**Alun Ffred Jones:** Rwyf yn falch eich bod wedi sôn am gyfres Library of Wales. Nid oeddwn yn gwybod bod y gyfres gyfan i'w gweld yn Wexford—byddaf yn siŵr o alw heibio y tro nesaf y byddaf yno. Rydym wedi trafod hyrwyddo'r casgliad hwn, oherwydd er ei fod wedi gwerthu'n gymharol dda, credaf y gellid gwneud rhagor. Un mater difrifol yng nghyswilt y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru yw'r diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am lenyddiaeth Saesneg Cymru, er nad yw hwn yn faes i mi—meddafi wrth weld Mr Leighton Andrews yn cerdded heibio. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn mynd ati ym mhob ffordd bosibl i hyrwyddo'r casgliad rhagorol hwn. Yn wir, yn ddiweddar, cefais y cyfle i ddarllen y rhifyn diweddaraf gan awdur o Bwllheli, Stead Jones, er nad hwn yw ei enw iawn. Mae'n rhifyn ardderchog mewn cyfres Iwyddiannus tu hwnt yn fy marn i. Fel y dywedwch, mae gwaith i'w wneud i hyrwyddo'r gyfres yn fwy eang.

**Nick Bourne:** Rwyf yn cytuno'n fawr â sylwadau Brian Gibbons a'r Gweinidog am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan Andrew Green a'i dîm yn Aberystwyth yn un o lyfrgelloedd pennaf y byd. Yn amlwg, mae mynediad i'r llyfrgell yn hollbwysig, ac mae wedi dechrau agor ar ddydd Sadwrn unwaith eto. Beth mae'r Gweinidog, ynghyd â'r llyfrgell, yn ei wneud i hyrwyddo mynediad o bell sydd mor bwysig—gwn am y gwaith digidoleiddio ac yn y blaen a'u bod yn canolbwytio adnoddau ar hynny—er mwyn i bobl nad ydynt, yn anffodus, yn gallu mynd i dref wych Aberystwyth, allu cael mynediad at ddeunyddiau yn y llyfrgell? Nid wyf yn gwybod a ddylwn ddatgan buddiant fel cyfaill, ond rhag ofn y dylwn wneud hynny, rwyf yn datgan buddiant. [Chwerthin.]

**Y Llywydd:** Rwyf yn credu ein bod ni i gyd yn gyfeillion.

**Alun Ffred Jones:** Rwyf yn gobethio ein bod yn gyfeillion i'r llyfrgell, wrth gwrs.

**Nick Bourne:** I am an official friend, as a member of the Friends of the National Library of Wales.

**Alun Ffred Jones:** Okay.

A great deal of work has been ongoing over recent years in terms of developing the website and remote network. User numbers have increased steadily and the website hits are on target. In terms of website visits, in the first six months of last year, or this year in a sense, 65 per cent of the whole-year target had been achieved, which meant 20 million website hits in that first six months. That is a significant number, and we hope to exceed the target that has been set. The national library is to be congratulated on this, and I also note the ongoing work with the Casgliad y Werin Cymru—the People's Collection Wales, which is being led by the national library, in partnership with National Museum Wales, the Royal Commission and other partners. That work has been very successful so far, and soon we will be seeing that operating in its fully fledged form. That, again, will be a means of access to the treasures of Wales to anyone in the world. That development, which has been ongoing for a number of years, is one of the most exciting developments within the heritage field.

**David Lloyd:** Ategaf y sylwadau a wnaethpwyd ynglŷn â'r rôl allweddol y llyfrgell genedlaethol yn croniclo hanes ein cenedl. Ymhellach i'r atebion a roesoch eisoes, Weinidog, yn gyffredinol, sut mae'r llyfrgell genedlaethol yn perfformio yn erbyn y targedau a osodwyd?

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf wedi cyfeirio at un o'r targedau hynny eisoes yn fy ateb i Nick Bourne. At ei gilydd, mae'r llyfrgell yn perfformio'n dda iawn. Yr unig ffigur sydd ychydig yn is na'r hyn a ddymunwn yw nifer yr ymweliadau, ond mae hynny, i ryw raddau, oherwydd y penderfyniad i gau ar ddydd Sadwrn, ac mae'r llyfrgell ar hyn o bryd yn adennill y gynulleidfa honno. Fodd bynnag, o safbwyt y rhai sy'n cael eu galw'n '*remote network users*', yn y chwe mis cyntaf, mae dros 800,000 o bobl wedi

**Nick Bourne:** Rwyf fi'n gyfaill swyddogol, fel aelod o Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Alun Ffred Jones:** Iawn.

Mae llawer iawn o waith wedi bod ar y gweill dros y blynnyddoedd diwethaf i ddatblygu'r wefan a'r rhwydwaith o bell. Mae nifer y defnyddwyr wedi cynyddu'n gyson ac mae'r ymweliadau â'r wefan yn cyrraedd y targedau. O ran ymweliadau â'r wefan, yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn diwethaf, neu eleni ar un ystyr, cyflawnwyd 65 y cant o'r targed ar gyfer y flwyddyn gyfan. Roedd hynny'n golygu 20 miliwn o ymweliadau â'r wefan yn ystod y chwe mis cyntaf hwnnw. Mae hwnnw'n ffigur sylweddol, ac rydym yn gobeithio rhagori ar y targed a osodwyd. Rhaid llonyfarch y Llyfrgell Genedlaethol yn hyn o beth, a dylwn sôn hefyd am brosiect Casgliad y Werin Cymru, sy'n cael ei arwain gan y Llyfrgell Genedlaethol, ar y cyd ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, y Comisiwn Brenhinol a phartneriaid eraill. Mae'r gwaith hwnnw wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn, a byddwn yn gweld hwnnw ar waith yn llawn yn fuan. Bydd hynny eto yn ffordd i unrhyw un drwy'r byd fwynhau trysorau Cymru. Y datblygiad hwnnw, sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers nifer o flynyddoedd, yw un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous yn y maes treftadaeth.

**David Lloyd:** I endorse the comments made about the national library's crucial role in chronicling our nation's history. Further to the responses that you have already given, Minister, in general, how does the national library perform against the set targets?

**Alun Ffred Jones:** I have referred to one of those targets already in my response to Nick Bourne. Generally, the library is performing very well. The only figure that is somewhat lower than we would wish is that for the number of visits, but that is, to some extent, a result of the decision to close on Saturdays, and the library is currently regaining that audience. However, with regard to what are called 'remote network users', in the first six months, over 800,000 people have used that medium, and the target is 1.25 million,

defnyddio'r cyfrwng hwnnw, ac mae'r targed yn 1.25 miliwn, felly mae'n ymddangos y rhagorir ar y targed hwnnw. Cyfeiriais hefyd at y defnydd o'r wefan. Yn ôl y targedau hynny i gyd, mae'r llyfrgell yn perfformio'n dda iawn, ond mae'n wynebu cyfnod anodd, gan fod y gyllideb o dan bwysau, a bydd rhaid i'r llyfrgell genedlaethol—fel pob corff arall sy'n cael ei noddi gan y Llywodraeth—edrych yn ofalus iawn ar sut y mae'n gweithredu.

2.40 p.m.

### **Twristiaeth**

**5. Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwydiant twristiaeth yng Ngorllewin Cymru. OAQ(3)1366(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yr ydym wedi dyrannu £710,000 i Bartneriaeth Twristiaeth De Orllewin Cymru ar gyfer 2010-11, i hyrwyddo a datblygu ei blaenoriaethau twristiaeth rhanbarthol, sy'n gydnaws â'n blaenoriaethau cenedlaethol. Yr ydym hefyd yn cefnogi partneriaethau ardaloedd marchnata sir Benfro a sir Gaerfyrddin.

**Nerys Evans:** Mae sicrhau cefnogaeth i'r diwydiant twristiaeth yn hanfodol, fel un o'r prif ddiwydiannau yn sir Benfro a sir Gaerfyrddin. Yr wyf wedi bod yn siarad â busnesau yn y diwydiant yn Ninbych-y-pysgod yr wythnos hon ynglŷn â'r cynnydd i 20 y cant mewn treth ar werth y mis hwn. Mae pryder y bydd y cynnydd hwn i 20 y cant yn rhwystro teithwyr domestig ac o dramor rhag ymweld â Dinbych-y-pysgod a lleoliadau twristiaeth eraill yng Nghymru. Mae sawl gwlad Ewropaeidd yn rhoi graddfa is o dreth ar werth i ystafelloedd gwesty, prydau bwyd mewn bwytau ac yn y blaen, er mwyn denu ymwelwyr. Yr wyf yn credu'n gryf y dylid cyflwyno graddfa treth ar werth is, o 5 y cant, ar gyfer y diwydiant twristiaeth.

A ydych yn credu bod angen i ni edrych ar wledydd eraill yn Ewrop a'r pwysigrwydd y maent yn ei roi, drwy'r system trethi, i'r diwydiant twristiaeth? A ydych yn rhannu fy mhryder i am effaith y cynnydd mewn treth ar werth ar y diwydiant hwn?

therefore it appears that that target will be exceeded. I also referred to the use of the website. According to all those targets, the library is performing very well, but it faces a difficult period, as the budget is under pressure, and the library—like all other bodies sponsored by the Government—will have to look carefully at how it operates.

### **Tourism**

**5. Nerys Evans:** Will the Minister make a statement on the tourism industry in West Wales. OAQ(3)1366(HER)

**Alun Ffred Jones:** We have allocated £710,000 to the South West Wales Tourism Partnership for 2010-11 for the promotion and development of its regional tourism priorities, which are aligned to our national priorities. We are also supporting the marketing area partnerships of Pembrokeshire and Carmarthenshire.

**Nerys Evans:** Ensuring support for the tourism industry is crucial, as it is a major industry in Pembrokeshire and Carmarthenshire. I have been speaking to businesses in the industry in Tenby this week about the increase in VAT this month to 20 per cent. There is concern that this increase to 20 per cent will prevent domestic and foreign travellers from visiting Tenby and other tourism locations in Wales. Several European countries place a lower rate of VAT on hotel rooms, restaurant meals and so on, in order to attract visitors. I strongly believe that a lower VAT rate, of 5 per cent, should be introduced for the tourism industry.

Do you believe that we need to look to other nations in Europe and the importance that they place, through the taxation system, on the tourism industry? Do you share my concern about the impact of the increase in VAT on this industry?

**Alun Ffred Jones:** Mae'n bwysig nodi nad yw treth ar werth yn fater datganoledig ac felly nid yw'n benderfyniad i mi. Fodd bynnag, ar lefel gyffredinol, ar adeg o ddirwasgiad, pan fo pwysau ar gyflogau pobl, gyda bygythiad o ddiweithdra cynyddol, a phan fo pobl eisoes yn nerfus am wario, mae'n sicr y bydd cynyddu treth ar werth yn fygythiad cyffredinol, a bydd yn fygythiad i'r diwydiant twristiaeth hefyd—nid oes dwywaith am hynny. Felly, fy ymateb i yw: wrth gwrs y dylid edrych ar y cymariaethau rhynghladol a gweld beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill. Nid wyf yn barod i ymriddi i fod yn ymgrychyd dros lefel treth ar werth is, ond yr wyf yn ddigon parod i ystyried hynny mewn cyd-destun polisi o safbwyt ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth yn Llundain. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod anodd fel hwn, pan fo chwyddiant yn parhau i fod yn uchel yn ôl y ddwy ffordd o fesur chwyddiant—yr ydym yn sôn am ffigur o tua 4 y cant—ac ar adeg o wasgfa gyffredinol, nid oes dwywaith nad yw Canghellor y Trysorlys yn chwarae â thân.

### Twristiaeth

**6. Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. OAQ(3)1378(HER)

**Alun Ffred Jones:** The latest research shows that tourism spend contributes around £4 billion annually to the Welsh economy and supports around 100,000 jobs. Unlike many other sectors, tourism is rooted in the country and the jobs created by tourism cannot be relocated to a country with lower labour costs.

**Val Lloyd:** Thank you very much for that comprehensive reply, Minister. I know that you are well aware that Swansea has a rich heritage in the copper industry—so much so that it lead to Swansea gaining a world-wide reputation as ‘Copperopolis’. On 5 March 2011, the Swansea copper advisory group, in association with Swansea University, will be holding a copper day to celebrate the two hundredth anniversary of the internationally famed Hafod copper works in my constituency. This occasion will be marked by a number of talks, behind-the-scenes

**Alun Ffred Jones:** It is important to note that VAT is not a devolved matter, and therefore it is not a decision for me. However, generally, at a time of recession, when there is pressure on people's wages, with a threat of increasing unemployment, and when people are nervous about spending, it is clear that increasing VAT is a general threat, and it will also be a threat to the tourism industry—there is no doubt about that. Therefore, my response is: of course, we should look at international comparisons and at what is happening in other nations. I am not willing to commit to being a campaigner for a lower level of VAT, but I am quite willing to consider that in a policy context in terms of trying to influence the Government in London. However, during a difficult period such as this, when inflation continues to be high according to the two methods of measuring inflation—we are talking about a figure of about 4 per cent—and a time of general pressure, there is no doubt that the Chancellor is playing with fire.

### Tourism

**6. Val Lloyd:** Will the Minister make a statement on the tourism industry in Wales. OAQ(3)1378(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae'r gwaith ymchwil diweddaraf yn dangos bod twristiaeth yn cyfrannu oddeutu £4 biliwn at economi Cymru bob blwyddyn ac yn cynnal oddeutu 100,000 o swyddi. Yn wahanol i nifer o sectorau eraill, mae twristiaeth wedi ei wreiddio yn y wlad, ac ni ellir symud swyddi sy'n cael eu creu gan dwristiaeth i wlad lle mae'r costau llafur yn is.

**Val Lloyd:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb cynhwysfawr hwnnw, Weinidog. Gwn eich bod yn ymwybodol iawn bod gan Abertawe dreftadaeth gyfoethog yn y diwydiant copr, i'r graddau bod Abertawe wedi cael enw drwy'r byd fel 'Copperopolis'. Ar 5 Mawrth 2011, bydd Grŵp Cyngori ar Gopr Abertawe, ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, yn cynnal diwrnod copr i ddathlu'r ffaith bod gwaith copr Hafod yn fy etholaeth, sy'n enwog drwy'r byd, yn 200 oed. Bydd yr achlysur hwn yn cael ei nodi gan nifer o sgyrsiau, teithiau y tu ôl i'r llenni,

tours, displays and exhibitions. All of the events will be free of charge and everyone is welcome to attend. The aim of the day is to raise awareness of Swansea's heritage and to encourage more tourism in the area. Minister, would you agree that this 'copper day' is a good practice model that could be utilised by other towns and cities across Wales—not only to celebrate and promote local heritage, but also to encourage and support the tourism industry in Wales? We would be delighted, Minister, if you could find time in your busy schedule to join us.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for the invitation. I will consider it along with many other invitations. I should point out that I attended a conference in Swansea last year that was focused on the rich heritage of the lower Swansea valley, and discussions about how that could be promoted and developed for the future. The event that you refer to seems to be an excellent opportunity to develop ideas and strategies for investment in the future, and it is one that I wholeheartedly support. I have given that support publicly before, and, as I have said, if time allows, I would be more than happy to attend the event as well.

**Mohammad Asghar:** Minister, developing global links has the potential to be invaluable in stimulating Wales's tourism industry. Last October, following the Ryder Cup, the First Minister spoke of discussions that had taken place with the US ambassador. He noted that the ambassador was eager to host events here, particularly around 4 July, and to develop

'a real presence for the US Government in Wales'.

Given the unique opportunity that the Ryder Cup has provided for Wales to raise its profile in the United States, and given the admission of the previous First Minister in 2009 that,

arddangosiadau ac arddangosfeydd. Bydd yr holl ddigwyddiadau yn rhad ac am ddim ac mae croeso i bawb fynychu. Nod y diwrnod yw codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth Abertawe a hybu rhagor o dwristiaeth yn yr ardal. Weinidog, a fydddech yn cytuno bod y 'diwrnod copr' hwn yn fodel arfer da y gallai trefi a dinasoedd eraill ar draws Cymru ei ddefnyddio—nid yn unig i ddathlu a hyrwyddo treftadaeth leol, ond i hybu a chefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru hefyd? Byddai'n bleser gennym, Weinidog, pe gallich ddod o hyd i amser yn eich amserlen brysur i ymuno â ni.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am y gwahoddiad. Byddaf yn ei ystyried ynghyd â'r nifer o wahodiadau eraill rwyf wedi'u cael. Dylwn nodi fy mod wedi mynchu cynhadledd yn Abertawe y llynedd a oedd yn canolbwytio ar dreftadaeth gyfoethog Cwm Tawe isaf, ac a oedd yn cynnwys trafodaethau ynghylch sut y gellid hyrwyddo hynny a'i ddatblygu ar gyfer y dyfodol. Mae'r digwyddiad rydych yn cyfeirio ato i bob golwg yn gyfle gwych i ddatblygu syniadau a strategaethau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, ac rwyf yn ei gefnogi'n llwyr. Rwyf wedi dangos y gefnogaeth honno'n gyhoeddus o'r blaen, ac fel y dywedais, os yw amser yn caniatáu, byddwn yn fwy na pharod i fynychu'r digwyddiad hefyd.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, mae gan ddatblygu cysylltiadau byd-eang y potensial i fod yn amhrisiadwy wrth hybu diwydiant twristiaeth Cymru. Fis Hydref diwethaf, yn dilyn twrnamaint Cwpan Ryder, soniodd y Prif Weinidog am drafodaethau a oedd wedi cael eu cynnal gyda llysgennad yr Unol Daleithiau. Soniodd fod y llysgennad yn awyddus iawn i gynnal digwyddiadau yma, yn enwedig o gwmpas 4 Gorffennaf, ac i ddatblygu

presenoldeb gwirioneddol ar gyfer Llywodraeth yr Unol Daleithiau yng Nghymru.

O gofio'r cyfle unigryw y mae Cwpan Ryder wedi'i roi i Gymru i godi ei phroffil yn yr Unol Daleithiau, ac o gofio sylw cyn Brif Weinidog Cymru yn 2009, sef

'We struggle to get the Americans to understand what Wales is and where Wales is,'

will you provide an update on any further discussions that the Assembly Government has had with US diplomats to ensure that all opportunities to raise the profile of Wales in the United States are pursued?

**Alun Ffred Jones:** Certainly, and I am sure that the First Minister would also be more than happy to discuss these matters with you, and to answer questions on them. With reference to the Ryder Cup and the success of that event, and the way that Wales was seen by a worldwide audience, we are keenly aware of the opportunities that now present themselves, and we want to build on that success and on the legacy of the Ryder Cup. There is a Cabinet working party that looks at the direct benefits that have accrued from holding the event, and at what needs to be done to build upon the official and unofficial links that were made during that week, so that Wales can benefit in the long term from that successful and significant sporting occasion.

**Mohammad Asghar:** Minister, what assessment have you made of Visit Wales's decision not to attend travel and tourism trade events like the world travel market held at the ExCel arena in London? In recent years, groups like the Tourism Partnership North Wales have highlighted the lack of knowledge in many overseas markets about Wales, yet Wales lacked representation at an event attended by almost 27,000 visitors and over 2,700 members of the international press. Is that a missed opportunity for Wales to promote itself to global markets and to build on the momentum generated by the Ryder Cup, which we just mentioned? I think that we have missed a great opportunity, and I hope that we will not do so again.

**Alun Ffred Jones:** I am not sure what you mean by 'missed opportunity'. The decision not to attend some of these market events has

Rydym yn ei chael yn anodd cael ar ddeall i Americanwyr beth yw Cymru a ble mae Cymru,

a wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau pellach y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cael gyda diplomyddion yr Unol Daleithiau i sicrhau y manteisir ar bob cyfle posibl i godi proffil Cymru yn yr Unol Daleithiau?

**Alun Ffred Jones:** Yn sicr, ac rwyf yn siŵr y byddai'r Prif Weinidog hefyd yn fwy na pharod i drafod y materion hyn â chi, ac i ateb cwestiynau yn eu cylch. Gan gyfeirio at dwrnamaint Cwpan Ryder a llwyddiant y digwyddiad hwnnw, a'r ffordd y cafodd Cymru ei gweld gan gynulleidfa fyd-eang, rydym yn ymwybodol iawn o'r cyfleoedd sy'n ymddangos yn awr, ac rydym yn awyddus i adeiladu ar y llwyddiant hwnnw ac ar etifeddiaeth Cwpan Ryder. Ceir gweithgor yn y Cabinet sy'n edrych ar y manteision uniongyrchol sydd wedi deillio o gynnal y digwyddiad hwnnw, ac ar yr hyn y mae angen ei wneud i adeiladu ar y cysylltiadau swyddogol ac answyddogol a wnaed yn ystod yr wythnos honno, er mwyn i Gymru allu dwyn budd hirdymor o'r achlysur chwaraeon llwyddiannus a phwysig hwnnw.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, beth yw eich barn chi am benderfyniad Croeso Cymru i beidio â mynychu digwyddiadau masnachu teithio a thwristiaeth, fel marchnad deithio'r byd yn arena ExCel yn Llundain? Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, mae grwpiau fel Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru wedi dweud bod prinder gwybodaeth am Gymru mewn marchnadoedd tramor, ond eto nid oedd cynrychiolaeth o Gymru mewn digwyddiad a fynychwyd gan bron i 27,000 o ymwelwyr a dros 2,700 o aelodau o'r wasg ryngwladol. A yw hynny'n golygu bod Cymru'n colli cyfle i hyrwyddo ei hun i farchnadoedd byd-eang ac i adeiladu ar y momentwm a gynhyrchwyd gan dwrnamaint Cwpan Ryder, fel rydym newydd sôn? Credaf ein bod wedi colli cyfle gwych, ac rwyf yn gobeithio na fydd hynny'n digwydd eto.

**Alun Ffred Jones:** Nid wyf yn siŵr beth rydych yn ei olygu drwy ddweud 'colli cyfle'. Gwnaed y penderfyniad i beidio â

been prompted partly by funding pressures, but mainly because there has been a sea change in the way that information is exchanged regarding tourism. Attending these markets can be expensive, and sometimes it is difficult to evaluate such events. In the last few years, Visit Wales has been concentrating on ensuring that travel journalists come to Wales and see what Wales has to offer. Many hundreds of such journalists have been to Wales, and what they write in newspapers and magazines when they go back to their home countries is immeasurably valuable. I say that it is immeasurable, but there is an attempt to measure it in terms of the advertising opportunities that flow from those articles. The approach of Visit Wales is the right one as we adapt to the use of new technologies by people in general. These marketing events are often not what they are cracked up to be and are not as important as they have been in the past.

2.50 p.m.

**Irene James:** The Cwmcarn mountain bike trail has brought thousands of tourists to my area. However, there are serious traffic problems when the forestry access road is closed and traffic is diverted through the village. Will you take a look at that issue and also at the problems that are caused in my constituency when satellite navigation systems try to direct people to this access trail?

**Alun Ffred Jones:** I am not sure whether I can do much about the satellite navigation problem, which is a common one throughout Wales. I am very well aware of it, having seen huge trucks stuck up mountain roads that lead to nowhere in particular.

I will have to discuss the issue about the closure of Forestry Commission roads and the subsequent effect on traffic flow with my colleagues in the Cabinet. Perhaps you could send me a note on the issue, so that we can be aware of the exact problem and where it occurs.

**Lorraine Barrett:** Following on from Val

mynychu rhai o'r digwyddiadau marchnata hyn yn rhannol oherwydd pwysau ariannol, ond yn bennaf gan y bu newid mawr yn y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei chyfnewid. Gall mynychu'r marchnadoedd hyn fod yn ddrud, ac weithiau mae'n anodd gwerthuso digwyddiadau o'r fath. Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, mae Croeso Cymru wedi bod yn canolbwytio ar sicrhau bod newyddiadurwyr teithio yn dod i Gymru i weld beth sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae cannoedd o newyddiadurwyr wedi bod yng Nghymru, ac mae'r hyn y maent yn ysgrifennu amdano mewn papurau newydd a chylchgronau ar ôl mynd yn ôl i'w gwledydd eu hunain yn anfesuradwy. Rwyf yn dweud anfesuradwy, ond ceir ymgais i'w fesur o ran y cyfleoedd hysbysebu sy'n deillio o'r erthyglau hynny. Dull gweithredu Croeso Cymru yw'r un cywir wrth inni addasu i ddefnyddio technolegau newydd gan bobl yn gyffredinol. Yn aml iawn, nid yw'r digwyddiadau marchnata hyn mor llwyddiannus â'r disgwyl, ac nid ydynt mor bwysig ag y maent wedi bod yn y gorffennol.

**Irene James:** Mae llwybr beicio mynydd Cwmcarn wedi dod â miloedd o dwristiaid i fy ardal. Fodd bynnag, ceir problemau traffig difrifol pan fydd y ffordd sy'n mynd i'r goedwig ar gau a thraffig yn cael ei ddargyfeirio drwy'r pentref. A edrychwr ar y mater hwnnw ac ar y problemau a achosir yn fy etholaeth pan fydd systemau llywio â lloeren yn ceisio cyfeirio pobl at y llwybr mynediad hwn?

**Alun Ffred Jones:** Nid wyf yn siŵr a allaf wneud rhyw lawer am y broblem llywio â lloeren, sy'n broblem gyffredin ledled Cymru. Rwyf yn ymwybodol iawn o hyn, ar ôl gweld tryciau enfawr yn sownd ar hyd ffyrdd mynydd sy'n arwain i unman.

Bydd yn rhaid imi drafod cau ffyrdd y Comisiwn Coedwigaeth ac effaith hynny ar lif traffig gyda fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet. Efallai y gallech anfon nodyn ataf ynglŷn â'r mater, er mwyn inni allu bod yn ymwybodol o'r union broblem ac ymhle mae'n digwydd.

**Lorraine Barrett:** Yn dilyn y gwahoddiad a

Lloyd's invitation to you Minister, I have another one for you, and you would not have to go too far this evening. Will you welcome the opening tonight of the photographic exhibition by James Morris, a Welsh photographer, entitled 'A Landscape of Wales', which is to be held at two sites—at the Pierhead building and in Ffotogallery at Turner House, Penarth? The invite was sent out on a postcard with a lovely photograph of Blaenau Ffestiniog. The exhibition consists of work that takes a broad look at the contemporary landscape of Wales. James Morris makes the point that tourism—and I am getting to the crux of my question now—is now one of the largest employers since the demise of the heavy industries. Therefore, will you welcome the exhibition by one of our renowned Welsh photographers and take an opportunity to visit the Pierhead building over the next few weeks to have a look at the photographs?

**Alun Ffred Jones:** I welcome the exhibition and I will see whether I can get over to the Pierhead building. I did receive the invitation, which had a rare lovely picture of Blaenau Ffestiniog on it—[*Interruption.*] I withdraw that remark. [*Laughter.*]

#### **Effaith y Cynnydd mewn TAW ar Dwrisiaeth**

**7. Trish Law:** *Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o effaith y cynnydd mewn TAW ar dwrisiaeth yng Nghymru. OAQ(3)1381(HER)*

**Alun Ffred Jones:** The Assembly Government has not made any assessment of the impact of the recent VAT increase on tourism. Clearly, there will be some impact, as there will be for many other business sectors across the UK.

**Trish Law:** The increase in VAT from 4 January is bound to hit tourism, Wales's largest industry, and those many businesses that depend on that industry. What are desperately needed are some measures to counter the harmful impact on tourism of this hike in VAT. Just under 1 million foreign tourists visited Wales last year, contributing £332 million to the industry. I was dismayed

gawsoch gan Val Lloyd, Weinidog, mae gennfyd un arall i chi, ac ni fyddai'n rhaid ichi fynd yn rhy bell heno. A wnewch groesawu noson agoriadol arddangosfa ffotograffig 'Tirlun Cymru' gan James Morris, y ffotograffydd o Gymru, a gynhelir ar ddau safle—yn adeilad y Pierhead ac yn y Ffotogallery yn Tŷ Turner, Penarth? Cafodd y gwahoddiad ei anfon ar ffurf cerdyn post gyda llun hyfryd o Flaenau Ffestiniog arno. Mae'r arddangosfa yn cynnwys gwaith sy'n edrych yn eang ar dirwedd gyfoes Cymru. Mae James Morris yn gwneud y pwynt bod twristiaeth—ac rwyf yn mynd at graidd fy nghwestiwn yn awr—bellach yn un o'r cyflogwyr mwyaf ers i'r diwydiannau trwm ddechrau diflannu. Felly, a wnewch groesawu'r arddangosfa gan un o ffotograffwyr enwocaf Cymru, a manteisio ar y cyfle i ymweld ag adeilad y Pierhead yn ystod yr wythnosau nesaf i gael golwg ar y ffotograffau?

**Alun Ffred Jones:** Rwyf yn croesawu'r arddangosfa, a byddaf yn gweld a allaf alw heibio adeilad y Pierhead. Cefais y gwahoddiad, gyda llun hyfryd o Flaenau Ffestiniog arno—rhywbeth nad ydych yn ei weld yn aml—[*Torri ar draws.*] Rwyf yn tynnu'r sylw hwnnw yn ôl. [*Chwerthin.*]

#### **Impact of the VAT Increase on Tourism**

**7. Trish Law:** *What assessment has the Welsh Assembly Government made of the impact the increase in VAT will have on tourism in Wales. OAQ(3)1381(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith y cynnydd diweddar mewn TAW ar dwrisiaeth. Yn amlwg, bydd rhywfaint o effaith, yn yr un modd ag y bydd effaith ar sectorau busnes eraill ar draws y DU.

**Trish Law:** Mae'r cynnydd mewn TAW o 4 Ionawr ymlaen yn sicr o effeithio ar dwrisiaeth, diwydiant mwyaf Cymru, a'r busnesau lawer hynny sy'n dibynnu ar y diwydiant hwnnw. Yr hyn sydd ei angen yn ddirfawr yw mesurau i leihau effaith niweidiol y cynnydd mewn TAW ar dwrisiaeth. Ymwelodd bron i 1 miliwn o dwrisiaid o wledydd tramor â Chymru y

to see in the latest Visit Wales business confidence report that only about £1 million of that was spent in Blaenau Gwent, and a similar amount in Rhondda Cynon Taf, Torfaen and Merthyr, where you will find some of the most spectacular scenery in the lush green hills and valleys. Will the Minister explore the Federation of Small Businesses' claim that Wales is being ineffectively marketed as a destination and consider a thorough review of its marketing strategy with renewed emphasis on the south Wales Valleys?

**Alun Ffred Jones:** Your initial question was about VAT, and I have already said that it is clearly not a devolved issue. However, I appreciate that the margins for many of our predominantly micro and small tourism businesses can be tight. It will ultimately be for businesses to decide whether they pass on the full increase to their customers.

With regard to the marketing of Wales, your claim as to what has been said does not seem to be borne out by the latest industry performance figures: the UK tourism survey's figures for the first nine months of 2010 show that the tourism industry in Wales has held up well despite very difficult economic conditions and outperformed practically all other countries and regions in the UK. Therefore, I would suggest that the marketing strategy is working and is effective.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Gareth Jones—yr oeddwn yn meddwl y byddai rhywun yn amddiffyn Blaenau Ffestiniog. [Chwerthin.]

**Gareth Jones:** Y cwestiwn diwethaf oedd hynny.

#### Buddsoddiad Diwylliannol yn Sir Fynwy

**8. Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad diwylliannol yn sir Fynwy. OAQ(3)1368(HER)

llynedd, gan gyfrannu £332 miliwn at y diwydiant. Yn adroddiad hyder busnes diweddaraf Croeso Cymru, roedd yn destun siom imi weld mai dim ond tua £1 miliwn o hwnnw a gafodd ei wario ym Mlaenau Gwent, a swm tebyg yn Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Merthyr, lle ceir golygfeydd gwirioneddol odidog yn y cymoedd a'r bryniau gwyrdd ysblennydd. A wnaiff y Gweinidog edrych ar honiad y Ffederasiwn Busnesau Bach nad yw Cymru'n cael ei marchnata'n effeithiol fel cyrchfan, ac ystyried cynnal adolygiad trylwyr o'r strategaeth farchnata gan roi pwyslais o'r newydd ar Gymoedd y de?

**Alun Ffred Jones:** Roedd eich cwestiwn cyntaf yn ymwneud â TAW, ac rwyf eisoes wedi dweud ei bod yn amlwg nad yw hwnnw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, rwyf yn sylweddoli y gall ffiniau cyllid llawer o'n busnesau twristiaeth micro a bach yn bennaf fod yn dynn. Yn y pen draw, bydd yn rhaid i'r busnesau benderfynu a ydynt yn pasio'r cynnydd hwnnw'n llawn i'w cwsmeriaid ai peidio.

O ran marchnata Cymru, nid yw'r ffigurau diweddaraf sy'n dangos perfformiad y diwydiant i bob golwg yn cadarnhau eich honiad yng Nghymru yr hyn a ddywedwyd: mae ffigurau arolwg twristiaeth y DU ar gyfer naw mis cyntaf 2010 yn dangos bod y diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi dal ei dir yn dda er gwaethaf amodau economaidd anodd iawn, a'i fod wedi perfformio'n well na bron holl wledydd a rhanbarthau eraill y DU. Felly, byddwn yn awgrymu bod y strategaeth farchnata yn gweithio a'i bod yn effeithiol.

**The Presiding Officer:** I call Gareth Jones—I thought that someone would defend Blaenau Ffestiniog. [Laughter.]

**Gareth Jones:** That was the previous question.

#### Cultural Investment in Monmouthshire

**8. Nick Ramsay:** Will the Minister provide an update on cultural investment in Monmouthshire. OAQ(3)1368(HER)

**Alun Ffred Jones:** I am committed to investing in cultural programmes across Wales. They make an invaluable contribution to the quality of people's lives and contribute to the Welsh Assembly Government's social, educational and economic agenda.

**Nick Ramsay:** Darren Millar made the link earlier between cultural investment and tourism, and many of the questions that you have been asked this afternoon have been about tourism. On the issue of tourism and tourist information offices specifically, and their role in promoting the culture of different areas of Wales, there are pressures on tourist information centres in my constituency, as there are on those in the constituencies of other Assembly Members, and there has been an issue regarding moving from manned offices to computer-based offices. I know that this issue is wider than just my constituency.

I know that this is an issue primarily for local authorities, but what guidance have you given local authorities on the best way in which to deliver tourist information and tourist information services? Any office in Wales is not completely separate from any other, because offices give advice and information to people who visit one area of Wales but who may travel around and move on to another. Therefore, it is not just an issue for local authorities, it is also an issue of the Assembly Government's view on how tourist information is best delivered across the board, and of whether the necessary funding is being given to local authorities to deliver that tourist information service properly.

**Alun Ffred Jones:** There are about 60 tourist information offices in Wales. Most of them are run and funded by the local authorities, and so it is up to the local authorities, and sometimes the national parks, to fund them. Occasionally, there are other models as well, and you may find local businesses running them in partnership with the local authority. Visit Wales provides training for staff at these offices and ensures that there is a consistent standard throughout Wales. We are aware that there has been a sea change in

**Alun Ffred Jones:** Rwyf wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn rhaglenni diwylliannol ledled Cymru. Maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ansawdd bywyd pobl ac yn cyfrannu at agenda gymdeithasol, addysgol ac economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Nick Ramsay:** Yn gynharach, gwnaeth Darren Millar y cyswllt rhwng buddsoddi diwylliannol a thwristiaeth, ac mae llawer o'r cwestiynau rydych wedi'u cael y prynhawn yma wedi bod yn gwestiynau am dwristiaeth. O ran twristiaeth a chanolfannau croeso yn benodol, a'u rôl yn hyrwyddo diwylliant gwahanol rannau o Gymru, mae pwysau ar ganolfannau croeso yn fy etholaeth i, yn yr un modd â'r canolfannau yn etholaethau Aelodau eraill y Cynulliad, a bu problemau yng nghyswllt symud o swyddfeydd gyda staff i swyddfeydd sy'n seiliedig ar gyfrifiaduron. Gwn nad i fy etholaeth i yn unig y mae'r mater hwn yn berthnasol.

Gwn mai mater i awdurdodau lleol yn bennaf yw hwn, ond pa ganllawiau rydych wedi'u rhoi i awdurdodau lleol ar y ffordd orau i ddarparu gwybodaeth i dwristiaid a gwasanaethau canolfannau croeso? Nid yw unrhyw ganolfan yng Nghymru yn gwbl ar wahân i unrhyw un arall, gan fod canolfannau'n rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl sy'n ymweld ag un ardal o Gymru ond a allai fod yn teithio o gwmpas ac yn symud ymlaen i ardal arall. Felly, nid mater i awdurdodau lleol yn unig ydyw, mae hefyd yn fater o farn Llywodraeth y Cynulliad ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth i dwristiaid, ac a yw'r arian angenreidiol yn cael ei roi i awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau'r canolfannau croeso yn briodol.

**Alun Ffred Jones:** Mae tua 60 o ganolfannau croeso yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu rhedeg a'u hariannu gan yr awdurdodau lleol, ac felly cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol, a'r Parciau Cenedlaethol weithiau, yw eu hariannu. O bryd i'w gilydd, ceir modelau eraill hefyd, ac effallai y gwelwch fusnesau lleol yn eu rhedeg mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol. Mae Croeso Cymru yn darparu hyfforddiant i staff y canolfannau hyn ac yn sicrhau bod safon gyson ledled Cymru. Rydym yn

how visitors get their information and there has been a steady decline in the numbers attending the offices. As I say, there has been a sea change, and the new media are the way ahead. That is why the new European digital tourism project is very important in ensuring that businesses make full use of new media in marketing their businesses.

ymwybodol y bu newid mawr yn y modd y mae ymwelwyr yn cael gafael ar wybodaeth, a bu gostyngiad cyson yn y niferoedd sy'n ymweld â'r canolfannau. Fel y dywedais, bu newid mawr, a'r cyfryngau newydd yw'r ffordd ymlaen. Dyna pam mae prosiect twristiaeth ddigidol newydd Ewrop yn bwysig iawn wrth sicrhau bod busnesau yn defnyddio'r cyfryngau newydd yn llawn wrth farchnata eu busnesau.

There are other models throughout Wales. In some areas, the tourist information point has been moved to the library, for example, or other businesses have taken on that sort of work, and some tourist information offices also have cafes so that they have an alternative source of revenue. Therefore, there are all sorts of models. The way ahead is for there to be a diverse range of offices, but, in the main, we are moving into a period when we will have fewer offices in the long term. We must ensure that all businesses are clued up and have the necessary skills in modern technology to be able to impart information, so that, as you say, when people visit an area, information on attractions and accommodation is available to them.

Ceir modelau eraill ledled Cymru. Mewn rhai ardalau, mae'r ganolfan groeso wedi cael ei symud i'r llyfrgell, er enghraifft, neu mae busnesau eraill wedi ysgwyddo'r math hwnnw o waith. Mae gan rai canolfannau gaffis fel bod ganddynt ffynhonnell arall o refeniw. Felly, ceir modelau o bob math. Y ffordd ymlaen yw cael ystod amrywiol o ganolfannau, ond, ar y cyfan, rydym yn symud i gyfnod lle bydd gennym lai o ganolfannau yn yr hirdymor. Rhaid inni sicrhau bod bob busnes yn gwybod digon a'u bod yn meddu ar y sgiliau angenreidiol mewn technoleg fodern i allu rhannu gwybodaeth, er mwyn i bobl sy'n ymweld ag ardal allu cael gwybodaeth am yr atyniadau ac am y llety sydd ar gael iddynt, fel y dywedwch.

3.00 p.m.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr am eich atebion, Weinidog.

**The Presiding Officer:** Thank you for your answers, Minister.

### **Datganiad Deddfwriaethol am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Rhoi Organau a Meinweoedd Legislative Statement on the Proposed Organ and Tissue Donation Legislative Competence Order**

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** The Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Health and Health Services) Order relating to organ and tissue donation was laid before the Assembly on Monday 10 January. The principal purpose of this LCO is to provide legislative competence to the Assembly in relation to consent or other authorisation for the transplantation of relevant material from a deceased adult to a human body. Legislative competence would allow Welsh Ministers to present a Measure to the Assembly to introduce a presumed

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Cyflwynwyd Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) ynghylch rhoi organau a meinweoedd gerbron y Cynulliad ddydd Llun 10 Ionawr. Prif bwrpas yr LCO hwn yw rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yng nghyswllt caniatâd neu awdurdoddiad arall ar gyfer trawsblannu deunydd perthnasol o oedolyn sydd wedi marw i gorff dynol. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno

consent system of organ donation in Wales. We would do that in order to increase the number of potential organs available for transplantation. That aim is supported by a number of clinical bodies, including the British Medical Association and the Royal College of Nursing, along with charities such as the British Heart Foundation and Kidney Wales Foundation.

Members will wish to be aware that we have not yet received confirmation from the Attorney General that the proposed Order is within the scope of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. I apologise to opposition spokespeople that I have just been informed that we were sent an e-mail by the Wales Office at 2.16 p.m. today, which contained details of the UK Government's concerns. It would not be sensible for me to comment further on this matter today until we have considered the issues in detail. I am sorry that that was not available when I tabled this statement.

It has, however, been agreed that the proposed Order can be referred for pre-legislative scrutiny by the Welsh Affairs Committee. I understand that the Secretary of State for Wales has now written to David Davies, Chair of the Welsh Affairs Committee, asking him to commence the pre-legislative scrutiny process.

The proposed Order and explanatory memorandum were submitted to the UK Government for clearance on 17 November. We would not normally introduce a proposed Order in advance of confirmation that, in the UK Government's view, it is within the powers of Her Majesty in Council to make such an Order and that it was otherwise content with the Order. However, if we were to wait for that confirmation, there would be no proper opportunity for Assembly Members to scrutinise the proposed Order. When we informed Members that we would be including this Order in the last legislative programme of the Assembly, we recognised that the timescales for progressing it would be tight. Undoubtedly, the questions about legislative competence will become clearer in coming days—indeed, they may be canvassed in pre-legislative scrutiny. In the

Mesur i'r Cynulliad i gyflwyno system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau yng Nghymru. Byddem yn gwneud hynny er mwyn cynyddu nifer yr organau posibl sydd ar gael i'w trawsblannu. Mae'r amcan hwnnw'n cael ei gefnogi gan nifer o gyrff clinigol, gan gynnwys Cymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol y Nyrssy, ynghyd ag elusennau fel Sefydliad Prydeinig y Galon a Sefydliad Aren Cymru.

Er gwybodaeth i'r Aelodau, nid ydym wedi cael cadarnhad gan y Twrnai Cyffredinol eto bod y Gorchymyn arfaethedig o fewn cwmpas Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rwyf yn ymddiheuro i lefarwyr y gwrthbleidiau, ond rwyf newydd gael gwybod bod Swyddfa Cymru wedi anfon neges e-bost atom am 2.16 p.m. heddiw yn cynnwys manylion am bryderon Llywodraeth y DU. Ni fyddai'n synhwyrol imi barhau i roi sylwadau am y mater hwn heddiw nes byddwn wedi ystyried y materion yn fanwl. Mae'n ddrwg gennyf nad oeddent wedi dod i law pan gyflwynais y datganiad hwn.

Fodd bynnag, cytunwyd bod modd cyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at y Pwyllgor Materion Cymreig er mwyn craffu arno cyn deddfu. Caf ar ddeall fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru erbyn hyn wedi ysgrifennu at David Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, yn gofyn iddo gychwyn y broses craffu cyn deddfu.

Cafodd y Gorchymyn arfaethedig a'r memorandwm esboniadol eu cyflwyno i Lywodraeth y DU er mwyn cael caniatâd ar 17 Tachwedd. Ni fyddem fel arfer yn cyflwyno Gorchymyn arfaethedig cyn cael cadarnhad bod Llywodraeth y DU o'r farn bod gwneud Gorchymyn o'r fath o fewn pwerau Cyngor Ei Mawrhydi a'i bod fel arall yn fodlon â'r Gorchymyn. Fodd bynnag, pe baem yn aros am y cadarnhad hwnnw, ni fyddai hynny'n rhoi'r cyfle priodol i Aelodau'r Cynulliad graffu ar y Gorchymyn arfaethedig. Pan roddwyd gwybod i'r Aelodau y byddem yn cynnwys y Gorchymyn hwn o fewn rhaglen ddeddfwriaethol ddiwethaf y Cynulliad, roeddem yn sylweddoli y byddai'r amserlen ar gyfer symud ymlaen ag ef yn dynn. Heb os, bydd y cwestiynau am gymhwysedd ddeddfwriaethol yn dod yn gliriach yn ystod y

meantime, I commend this proposed LCO to the Assembly committee for consideration.

dyddiau nesaf—yn wir, mae'n bosibl y bydd modd canfasio wrth graffu cyn deddfu. Yn y cyfamser, rwyf yn cymeradwyo'r LCO arfaethedig hwn i bwyllgor y Cynulliad i'w ystyried.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister, for that interesting statement.

**Nick Ramsay:** Bearing in mind the comments that the Minister has made, I wonder whether it would be better to discuss this issue at another time, given that the statement that the Minister has provided us with did not contain details of the original e-mail. I am not saying that the Minister should necessarily have been aware of it, but given that we have only had that information for a short amount of time, I wonder whether we can consider this adequately.

**The Presiding Officer:** I will accept that as a point of order and I will rule in this form: the proceedings of the Assembly are not governed by e-mails from departments of the UK Government.

**Nick Ramsay:** Thank you, Presiding Officer; I will, therefore, continue.

The opposition welcomes this proposed LCO and we also welcome the Welsh Government's well-intentioned reasons for bringing it forward—that is, the pressing need to do something to increase the availability of organs for donation in Wales. This is an issue that has been highlighted by the medical establishment and by many groups, including Kidney Wales Foundation and the British Heart Foundation.

As I have said, we will be supporting the Government in its desire to bring forward this proposed LCO. We believe that, as long as this is within the competence of the Assembly and the Assembly Government, it is an issue that can be discussed and determined here. However, we also believe that this is an issue of conscience, which the Government must recognise if it is to persuade people of the merits of a system of presumed consent that would differ from the previous system in Wales and from the system that is in operation across the UK. Therefore, should we reach a stage when

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog, am y datganiad diddorol hwnnw.

**Nick Ramsay:** Gan ystyried sylwadau'r Gweinidog, tybed a fyddai'n well inni drafod y mater hwn rywdro eto, o gofio nad oedd y datganiad y mae'r Gweinidog wedi'i roi inni yn cynnwys manylion y neges e-bost wreiddiol. Nid wyf yn dweud y dylai bod y Gweinidog o reidrwydd wedi bod yn ymwybodol o'r neges, ond o ystyried mai dim ond am gyfnod byr rydym wedi cael y wybodaeth honno, mae'n gwestiwn gennyf a allwn ystyried hyn yn briodol.

**Y Llywydd:** Byddaf yn derbyn hynny fel pwynt o drefn a byddaf yn dyfarnu fel hyn: nid yw trafodion y Cynulliad yn cael eu rheoli gan negeseuon e-bost gan adrannau o Lywodraeth y DU.

**Nick Ramsay:** Diolch, Lywydd; af yn fy mlaen felly.

Mae'r wrthblaid yn croesawu'r LCO arfaethedig hwn, ac rydym hefyd yn croesawu rhesymau Llywodraeth Cymru sy'n llawn bwriadau da dros ei gyflwyno—hynny yw, yr angen dybryd i wneud rhywbeth i sicrhau bod mwy o organau'n cael eu rhoi yng Nghymru. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei amlygu gan y byd meddygaeth a chan nifer o grwpiau, gan gynnwys Sefydliad Aren Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon.

Fel rwyf wedi'i ddweud, byddwn yn cefnogi dymuniad y Llywodraeth i fwrw ymlaen â'r LCO arfaethedig hwn. Cyhyd â bod hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad, credwn ei fod yn fater y gellir ei drafod yma a phenderfynu arno yma. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu bod hwn yn fater o gydwbybod, a rhaid i'r Llywodraeth gydnabod hynny os yw am argyhoeddi pobl am rinweddau system o ganiatâd tybiedig, a fyddai'n wahanol i'r system flaenorol yng Nghymru ac yn wahanol i'r system sydd ar waith ledled y DU. Felly, os byddwn yn cyrraedd pwynt lle

Measures are drafted under this legislation, the Welsh Conservatives will have a free vote on this issue. However, we believe that a discussion at this point on the process of bringing forward a proposed LCO is correct, and we support you on that.

I turn now to your comments regarding the e-mail received from the UK Government earlier this afternoon. It is clear that we do not yet have an acknowledgement that the Attorney General is convinced that this issue lies within the Assembly's competence. Without having access to that e-mail or knowing which concerns have been raised, one can only speculate on the reasons behind the UK Government's position. The Government of Wales Act 2006 refers to xenotransplantation—from one species to another—as a reserved matter, but it does not rule out the Assembly having competence over transplantation from human to human. I can only speculate, therefore, that there are wider issues relating to personal liberty and consent, aside from transplantation and other medical issues.

Minister, we are clearly in uncharted territory. As you said in your statement, we are operating within a very tight timescale, which is even tighter now in light of the UK Government's comments. As a result, pre-legislative scrutiny has been allowed by the UK Government before we have clarification on whether the UK Government believes that this procedure should be happening. We do not oppose that process; indeed, it is sensible that pre-legislative scrutiny goes ahead at this point, regardless of whether we have that confirmation. However, I am concerned, Minister, that this will make the timescale even tighter. Given the sensitivity of this issue, are you and the Assembly Government completely confident that this proposed LCO process is robust? It will ultimately need to be robust if we are to persuade the people of Wales, if that is the will of the Assembly, that changing to a system of presumed consent is acceptable.

Finally, we are once again in the territory of trying to separate the important issue of

bydd Mesurau'n cael eu llunio o dan y ddeddfwriaeth hon, bydd gan y Ceidwadwyr Cymreig bleidlais rydd ar y mater hwn. Fodd bynnag, credwn ei bod yn briodol cael trafodaeth yn ystod y cam hwn o'r broses ar gyfer cyflwyno LCO arfaethedig, ac rydym yn eich cefnogi yn hynny o beth.

Trof yn awr at eich sylwadau ynglŷn â'r neges e-bost a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU yn gynharach y prynhawn yma. Mae'n amlwg nad ydym wedi cael cydnabyddiaeth eto bod y Twrnai Cyffredinol yn argyhoedddegig bod y mater hwn yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Heb gael mynediad at y neges e-bost honno, a heb gael gwybod pa bryderon sydd wedi'u codi, ni allwn ond dyfalu beth yw'r rhesymau sydd wrth wraidd safbwyt Llywodraeth y DU. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfeirio at senotrawsblaniad—o un rhywogaeth i rywogaeth arall—fel mater neilltuedig. Fodd bynnag, nid yw'n dweud na ddylai'r Cynulliad gael cymhwysedd dros drawsblannu o berson i berson. Ni allaf ond dyfalu, felly, fod materion ehangach yn ymwneud â chaniatâd a rhyddid, ar wahân i drawsblannu a materion meddygol eraill.

Weinidog, rydym yn amlwg mewn tir newydd. Fel y dywedoch yn eich datganiad, rydym yn gweithredu o fewn amserlen dynn iawn, sydd hyd yn oed yn dynnach bellach yn wyneb sylwadau Llywodraeth y DU. O ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi caniatâu craffu cyn deddfu cyn inni gael eglurhad yngylch a yw Llywodraeth y DU yn credu y dylai hyn fod yn mynd rhagddo. Nid ydym yn gwrthwynebu'r broses honno; yn wir, mae'n synhwyrol craffu cyn deddfu yn ystod y cam hwn, p'un a yw'r cadarnhad hwnnw gennym ai peidio. Fodd bynnag, rwyf yn bryderus, Weinidog, y bydd hyn yn gwneud yr amserlen yn dynnach byth. O ystyried sensitfrwydd y mater hwn, a ydych chi a Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl hyderus bod proses yr LCO arfaethedig hwn yn gadarn? Yn y pen draw, bydd angen iddi fod yn gadarn os ydym am argyhoeddi pobl Cymru, os mai dyna ewylllys y Cynulliad, y bydd newid i system o ganiatâd tybiedig yn dderbynol.

I gloi, rydym unwaith eto mewn sefyllfa o geisio gwahanu mater pwysig a ddylem gael

whether powers should reside here from the issues of principle—in this case relating to the availability of organs—that would arise in a proposed Measure. Hopefully, this will be resolved once and for all on 3 March. We are rapidly approaching the point where Assembly Members are finding it incredibly difficult to do the job that we are charged with doing.

**Edwina Hart:** Thank you for your contribution. I thought that I should add the point about the e-mail to my statement or I would have had information as a Minister that you would not have had as Members in the Chamber. I thought that it was very important, given that we have had such excellent discussions on all of these issues, and given the committee report and the evidence that we have taken, that there should be openness and transparency on an issue that many people regard as being a very sensitive one.

I take on board the points that have been made, but I wish to address the timeline issues. All of the drafting work was undertaken before Christmas, and I am sorry that we have extended the deadline for discussions here in light of the concerns raised. The important thing is that the issues that have now emerged are part and parcel of the process. We will undertake pre-legislative scrutiny at the Assembly, and some of the issues that you have raised here today can be taken up as part of that scrutiny agenda. I appreciate that this might be a quite difficult timescale, but we have had extensive consultation on organ donation: it started in October 2008, followed by a 12-week consultation period beginning in May 2009. We have had extensive meetings, including a meeting with faith groups, which the Presiding Officer kindly chaired, to get their perspective on our proposals. In terms of the discussions that have been held generally in civic society and elsewhere in Wales, we have good foundations. However, I will certainly review the record in terms of what you have indicated to me, and I will be more than happy to share any further information that I may have on what is a very important issue with the opposition's spokespeople. I will also take this forward in the spirit that you displayed in your contribution.

y pwerau yma, a'r mater o egwyddor—yng nghyswllt yr organau sydd ar gael yn yr achos hwn—a fyddai'n codi mewn Mesur arfaethedig. Gobeithio y bydd hyn yn cael ei ddatrys unwaith ac am byth ar 3 Mawrth. Rydym yn prysur gyrraedd y pwynt lle mae Aelodau'r Cynulliad yn ei chael yn anodd iawn gwneud y gwaith rydym yn gyfrifol am ei wneud.

**Edwina Hart:** Diolch am eich cyfraniad. Roeddwn yn meddwl y dylwn ychwanegu'r pwynt am y neges e-bost at fy natganiad neu byddwn i fel Gweinidog yn meddu ar wybodaeth na fyddech chi fel Aelodau yn meddu arni yn y Siambwr. O gofio ein bod wedi cael trafodaethau mor ardderchog ar yr holl faterion hyn, ac o gofio adroddiad y pwylgor a'r dystiolaeth rydym wedi'i chael, roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig iawn bod yn agored a thryloyw ar fater sy'n cael ei ystyried gan lawer yn fater hynod sensitif.

Rwyf yn derbyn y pwyntiau sydd wedi cael eu gwneud, ond hoffwn roi sylw i'r amserlen. Gwnaed y gwaith drafftio i gyd cyn y Nadolig, ac mae'n ddrwg gennylf ein bod wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer trafodaethau yn y fan yma yn wyneb y pryderon a godwyd. Y peth pwysig yw bod y materion sydd wedi codi erbyn hyn yn rhan annatod o'r broses. Byddwn yn mynd ati i graffu cyn deddfu yn y Cynulliad, a gellir ystyried rhai o'r materion a godwyd gennych yma heddiw fel rhan o'r agenda craffu honno. Rwyf yn sylweddoli y gallai hon fod yn amserlen bur anodd, ond rydym wedi ymgynghori'n helaeth ar roi organau: dechreuodd y gwaith ym mis Hydref 2008, gyda 12 wythnos o gyfnod ymgynghori i ddilyn ym mis Mai 2009. Rydym wedi cael nifer o gyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd gyda grwpiau ffydd, dan gadeiryddiaeth y Llywydd, yn garedig iawn, er mwyn cael eu safbwytiau hwy ar ein cynigion. O ran y trafodaethau sydd wedi'u cynnal yn gyffredinol yn y gymdeithas sifil ac mewn mannau eraill yng Nghymru, mae gennym sylfeini da. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn adolygu'r cofnod yng nghyswllt yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthyf, a byddaf yn fwy na pharod i rannu unrhyw wybodaeth bellach ar y mater hollbwysig hwn â llefarwyr y gwrthbleidiau. Byddaf hefyd yn

bwrw ymlaen â hyn yn yr ysbryd a ddangoswyd gennych yn eich cyfraniad.

3.10 p.m.

**Rhodri Morgan:** May I ask the Minister to speculate on the proper meaning that she attributes to the e-mailed communication that she received this afternoon from the Secretary of State's office in Westminster saying that she had written to David Davies, chair of the Welsh Affairs Select Committee, asking him to commence pre-legislative scrutiny, while, at the same time, there are rumours swirling about, which I believe started yesterday evening, that the Attorney General took a view that this was not within the Assembly's power to legislate on? It seems to imply that one arm of the Westminster Government does not know what the other is doing. One arm wants to get on with the job as though this was a perfectly normal request, while the other is saying 'Whoa, hang on a minute here, you may be going into non-devolved territories'. It is very difficult for us. We know—we are clear in our minds—but they seem to be in two minds in Westminster. That is the only conclusion that I can draw. I would be grateful if the Minister could help us by giving her view, as far as she can have a view—I know that this is angels-fear-to-tread territory—and the whole Assembly would be grateful to know why this apparently very confused picture is coming back to us from Westminster.

**Edwina Hart:** Obviously, I regard this as a very important proposed legislative competence Order, because these are issues to do with life and death and people's life expectancy. We must take it in that spirit. It would be easy for me to make a personal comment about what I feel, but I do not think that it would necessarily be appropriate at this juncture in this discussion. However, I can tell you that I have been advised that some of the reasons why they do not regard it as being within our legislative competence are as follows: there are concerns about whether the proposed Order relates to field 9, Part 1 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006; concerns about whether any proposed Measure could, in practice, be made under the LCO, with particular consideration of the extent of any proposed Measure;

**Rhodri Morgan:** A gaf fi ofyn i'r Gweinidog roi ei sylwadau yngylch gwir ystyr y neges e-bost a ddaeth i law y prynhawn yma gan Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol yn San Steffan sy'n dweud ei bod wedi ysgrifennu at David Davies, cadeirydd y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig, yn gofyn iddo ddechrau craffu cyn deddfu, er bod sibrydion yn chwyrlio o gwmpas y lle ar yr un pryd—a ddechreuodd neithiwr rwyf yn credu—fod y Twrnai Cyffredinol o'r farn nad oedd gan y Cynulliad rym i ddeddfu ar hyn? Mae'n ymddangos nad yw un fraich o Lywodraeth San Steffan yn gwybod beth mae'r fraich arall yn ei wneud. Mae un fraich am fwrw ymlaen â'r gwaith fel pe bai hwn yn gais cwbl arferol, tra mae'r llall yn dweud 'Arhoswch am funud bach, mae'n bosibl eich bod yn troedio tir nad yw wedi'i ddatganoli'. Mae'n anodd iawn i ni. Rydym ni'n gwybod—mae ein meddyliau ni'n glir—ond i bob golwg maent hwy yn San Steffan rhwng dau feddwl. Dyna'r unig gasgliad y gallaf fi ei gyrraedd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ein helpu drwy roi ei safbwytiau inni, i'r graddau y mae hi'n gallu rhoi ei safbwytiau—gwn fod hwn yn fater na fyddai neb call yn mynd i'r afael ag ef—a byddai'r Cynulliad i gyd yn falch o gael gwybod pam mae San Steffan yn anfon y darlun hynod ddryslyd hwn atom.

**Edwina Hart:** Mae hwn yn amlwg yn Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig pwysig iawn, oherwydd mae'r rhain yn faterion sy'n ymwneud â bywyd a marwolaeth a disgwyliad oes pobl. Rhaid inni edrych ar y mater yn yr ysbryd hwnnw. Byddai'n hawdd i mi wneud sylw personol am yr hyn rwyf fi'n ei deimlo, ond nid wyf yn meddwl y byddai hynny o reidrwydd yn briodol yn awr yn y drafodaeth hon. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrthyd fy mod wedi cael gwybod mai dyma rai o'r rhesymau pam nad yw hyn o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol yn eu tyb hwy: mae pryderon yngylch a yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ymwneud â maes 9, Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; mae pryderon yngylch a allai unrhyw Fesur arfaethedig, yn ymarferol, gael ei wneud o

concerns about the practicality of having a different system in Wales with respect to organ donation to that in England; concerns about the need to ensure that there is no ambiguity with regard to jurisdiction; and concerns about article 8 and article 9 European convention on human rights implications of any such proposed Measure. I will obviously look at these issues, which have been raised with me at this juncture, but, as I indicated earlier, I do not think that it is something that I could comment on. I simply provide that as the information that we have now received.

dan yr LCO, gydag ystyriaeth benodol o hyd a lled unrhyw Fesur arfaethedig; mae pryderon ynghylch pa mor ymarferol yw cael system wahanol ar gyfer rhoi organau yng Nghymru a Lloegr; mae pryderon am yr angen i sicrhau nad oes unrhyw amwysedd o ran awdurdodaeth; a phryderon am oblygiadau unrhyw Fesur arfaethedig o'r fath yng nghyswllt erthygl 8 ac erthygl 9 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Byddaf yn amlwg yn edrych ar y materion hyn, sydd wedi cael eu codi gyda mi yn awr, ond, fel y dywedais yn gynharach, nid wyf yn credu ei fod yn rhywbeth y gallwn i roi sylwadau yn eu cylch. Yr unig beth rwyf fi'n ei wneud yw rhoi'r wybodaeth honno ichi fel y wybodaeth rydym wedi'i chael yn awr.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister, for your openness and willingness to disclose information at this stage. We will continue with the statement.

**Veronica German:** The Welsh Liberal Democrats are pleased to support this bid to seek powers to legislate in this regard. We have always been supportive of this idea, going back to the Health, Wellbeing and Local Government Committee's report on the matter. We all know how difficult it must be for all of those people who are waiting for so long in hope for organs, which, sadly, do not always come along. The strange thing is that we know that 90 per cent of people agree with the idea of organ donation, and yet only about a quarter of those people are registered as donors. Often, it is something that people just do not get around to doing. It would solve that problem if we were able to legislate in this area.

The other thing that is happening is that the number of people who need an organ is increasing. The gap between the available organs and those needed is widening every year. Drawing down these powers would, it is hoped, enable us to tackle these issues and change the lives of thousands of people. It is important that people understand what soft consent actually means. No doubt, this will all be highlighted in the press. Does the Minister agree that the ensuing debate will highlight this for people and that the media

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog, am fod mor agored a pharod i ddatgelu gwybodaeth yn ystod y cam hwn. Byddwn yn parhau â'r datganiad.

**Veronica German:** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn falch o gefnogi'r cais hwn i geisio pwerau i ddeddfu yn y maes hwn. Rydym wedi cefnogi'r syniad hwn erioed, gan fynd yn ôl at adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ynghylch y mater. Mae pob un ohonom yn gwybod pa mor anodd yw hi i'r holl bobl hynny sy'n aros mewn gobaith am organau am gyfnodau mor hir, ac yn anffodus nid ydynt yn cael yr organau hynny bob amser. Y peth rhyfedd yw, rydym yn gwybod bod 90 y cant o bobl yn cytuno â'r syniad o roi organau, ac eto dim ond tua chwarter y bobl hynny sydd wedi cofrestru fel rhoddwyr. Yn aml iawn, mae'n rhywbeth nad yw pobl yn cael cyfle i'w wneud. Byddai'r broblem honno'n cael ei datrys pe baem yn gallu deddfu yn y maes hwn.

Y peth arall sy'n digwydd yw bod nifer y bobl sydd angen organau yn cynyddu. Mae'r bwlch rhwng yr organau sydd ar gael a'r rheini y mae angen organau arnynt yn mynd yn fwy bob blwyddyn. Y gobaith yw y byddai cael gafael ar y pwerau hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r materion hyn a newid bywydau miloedd o bobl. Mae'n bwysig bod pobl yn deall beth yn union yw caniatâd tybiedig. Mae'n siŵr y bydd hyn i gyd yn cael ei amlygu yn y wasg. A yw'r Gweinidog yn cytuno y bydd y drafodaeth

will have a big part to play in this? We hope that they take this seriously and provide a sensible argument about it. Does the Minister agree that there is a need for a general comprehensive public information programme on this? The conclusions following the Government consultation were all about information. Everyone wanted more information on it. Although we are currently talking about competence, as we will have such a short time in which to consider this, we should be raising this issue now and increasing public understanding of what we are talking about.

As to whether this proposed Order is within the scope of Schedule 5, as you have mentioned today, I thank you for sharing the information that you have had with us. Presumably, you will also have had legal advice with regard to this. Since there is cross-party support for this proposed Order, could you share some of the legal advice that you have had with Members so that we can all have an understanding of what is happening and where this is coming from? We agree that we should be going ahead at this stage without waiting for further confirmation from the Attorney-General, and hope that we will be able to take this matter forward as quickly as possible.

**Edwina Hart:** Thank you for your supportive contribution. In your opening remarks you illustrated some of the issues that are of concern to the public and to us all about the level of organ donation, and what more we can do to enhance the system.

In terms of the legal position, the Welsh Assembly Government's position is quite clear. The proposed LCO is lawful. That is the position and the advice that I have had. I would not have tabled this if I did not believe that it was lawful and that we were entitled to do so. You also made some extremely valid points about what, if we are successful and the proposed LCO goes through and we can then turn to a proposed Measure, we need to do with regard to widespread public engagement on this issue and the understanding of it prior to any implementation. We have had discussions

ddilynol yn dwyn sylw pobl at hyn ac y bydd gan y cyfryngau ran fawr i'w chwarae? Rydym yn gobeithio eu bod yn cymryd hyn o ddifrif ac yn cyflwyno dadl synhwyrol am y peth. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen cael rhaglen gyffredinol er mwyn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i'r cyhoedd am y mater hwn? Roedd y casgliadau a oedd yn dilyn ymgynghoriad y Llywodraeth i gyd yn ymwneud â gwybodaeth. Roedd ar bawb eisiau rhagor o wybodaeth am y pwnc. Er ein bod yn siarad am gymhwysedd ar hyn o bryd, gan mai ychydig o amser fydd gennym i ystyried hyn, dylem fod yn sôn am y mater hwn yn awr ac yn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn rydym yn sôn amdano.

O ran a yw'r Gorchymyn arfaethedig o fewn cwmpas Atodlen 5, fel rydych wedi sôn heddiw, hoffwn ddiolch ichi am rannu'r wybodaeth rydych wedi'i chael â ni. Yn ôl pob tebyg, byddwch hefyd wedi cael cyngor cyfreithiol yngylch hyn. Gan fod cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y Gorchymyn arfaethedig hwn, a fydddech yn gallu rhannu rhywfaint o'r cyngor cyfreithiol rydych wedi'i gael gyda'r Aelodau er mwyn inni i gyd allu deall yr hyn sy'n digwydd ac o lle mae hyn yn dod? Rydym yn cytuno y dylem fod yn bwrw ymlaen â hyn heb aros am gadarnhad pellach gan y Twrnai Cyffredinol, ac yn gobeithio y byddwn yn gallu mynd â'r mater hwn rhagddo cyn gynted ag y bo modd.

**Edwina Hart:** Diolch am eich cyfraniad cefnogol. Yn eich sylwadau agoriadol gwnaethoch sôn am rai o'r materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd ac i bob un ohonom am y lefel rhoi organau, a sut arall y gallwn wella'r system.

O ran y sefyllfa gyfreithiol, mae safbwyt Llywodraeth Cynulliad Cymru yn glir iawn. Mae'r LCO arfaethedig yn gyfreithlon. Dyna'r wybodaeth a'r cyngor rwyf fi wedi'u cael. Ni fyddwn wedi cyflwyno hyn oni fyddwn yn credu ei fod yn gyfreithlon a'n bod yn gymwys i wneud hynny. Gwnaethoch hefyd godi pwyntiau diliys iawn am yr hyn y mae angen inni ei wneud i ymgysylltu â'r cyhoedd yngylch y mater hwn, ac i wneud yn siŵr bod pobl yn ei ddeall cyn ei roi ar waith, os ydym yn llwyddiannus a bod yr LCO arfaethedig yn mynd drwy'r broses ac yn datblygu'n Fesur arfaethedig. Rydym

with the British Medical Association about this issue, because it thinks that it is important that we should then have a public information campaign and some sort of a stakeholder group to take those wider issues forward. However, that discussion will be for another day.

**David Lloyd:** I welcome the Minister's statement and strongly support the aims of this proposed legislative competence Order. I also commend strongly the Minister in her determination to make progress on this all-important matter of organ donation. I am perplexed by overnight reports that such a move is potentially seen in London as being outside the scope of what can be done in this LCO. I am perplexed, and also not a little angry, as it seems that such a London misgiving could be applied to any LCO. As chair of the all-party kidney group, and as a practising GP, I will dwell on the medical aspects of this just to hammer them home. Colleagues here are well aware of the arguments, but colleagues further afield are potentially not aware of them. Kidney disease, and kidney failure, is increasing everywhere in Wales, year on year. We have more than 500 people—some reports put the figure as high as 850 people—in Wales on a waiting list for a kidney. One person waiting for a kidney dies in Wales every 11 days. On top of that there is the living hell that is dialysis, which is cured by renal transplantation. There is a disparity of 8 per cent, which is increasing, between the number of organ donors and the number of people requiring transplants in Wales. We just do not have enough organs, and that is further demonstrated by the fact that the number of live donors is increasing in Wales year on year. We had 50 live donors in Wales last year—42 per cent of the total donors. In other words, we do not have enough cadaveric organs to deal with the demand. The infrastructure can cope at present, as we had 50 live organ donations last year. We have the infrastructure, but we do not have enough cadaveric organs—in other words, enough organs from people who have died. Therefore, we must increase the supply of organs, which can be done by an opt-out system, as Veronica German and others have already alluded to. Ninety per cent of the

wedi cael trafodaethau gyda Chymdeithas Feddygol Prydain am y mater hwn, gan ei bod yn credu ei bod yn bwysig inni wedyn gael ymgyrch i roi gwybodaeth i'r cyhoedd, a rhyw fath o grŵp rhanddeiliaid, i fwrw ymlaen â'r materion ehangach hynny. Fodd bynnag, trafodaeth ar gyfer diwrnod arall fydd honno.

**David Lloyd:** Rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog ac yn cefnogi amcanion y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn yn gryf. Rwyf hefyd yn cymeradwyo'r Gweinidog yn fawr iawn, am fod mor benderfynol o fwrw ymlaen â'r mater hollbwysig hwn, sef rhoi organau. Mae'r adroddiadau a gafwyd dros nos o Lundain, sy'n dweud nad yw symudiad o'r fath o fewn cwmpas yr hyn y gellir ei wneud yn yr LCO hwn, yn peri dryswch imi. Rwyf mewn penbleth, ac yn ddig iawn hefyd, oherwydd gallai amheuaeth o'r fath yn Llundain fod yn berthnasol i unrhyw LCO. Fel cadeirydd y grŵp hollbleidiol ar arenau, ac fel meddyg teulu, rwyf am bwysleisio agweddu meddygol hyn dim ond i wneud yn siŵr bod pawb yn deall. Bydd ein cyd-Aelodau yma yn ymwybodol iawn o'r dadleuon, ond mae'n bosibl nad yw ein cyd-Aelodau ymhellach i ffwrdd yn ymwybodol ohonynt. Mae clefyd yr arenau a methiant yr arenau yn cynyddu ym mhob rhan o Gymru, o un flwyddyn i'r llall. Mae gennym fwy na 500 o bobl—mae ambell adroddiad yn dweud y gall y ffigurau fod mor uchel ag 850 o bobl—ar y rhestr aros am aren yng Nghymru. Mae un person sy'n aros am aren yn marw yng Nghymru bob 11 diwrnod. Ar ben hynny ceir dialysis, sy'n uffern ar y ddaear. Mae trawsblannu arenau yn cael gwared ar yr angen am ddialysis. Mae bwlch o 8 y cant, sy'n cynyddu, rhwng nifer y rhoddwyr organau a nifer y bobl sydd angen trawsblaniadau yng Nghymru. Yn syml iawn, nid oes gennym ddigon o organau, ac mae'r ffaith bod nifer y rhoddwyr byw yn cynyddu yng Nghymru o flwyddyn i flwyddyn yn brawf pellach o hynny. Roedd 50 o roddwyr byw yng Nghymru y llynedd—42 y cant o'r holl roddwyr. Mewn geiriau eraill, nid oes gennym ddigon o organau cyrff meirw i gwrdd â'r galw. Mae'r seilwaith yn gallu ymdopi ar hyn o bryd, gan ein bod wedi cael 50 o roddion organau byw y llynedd. Mae'r seilwaith gennym, ond nid oes gennym

general population agree with the concept of organ donation, but, according to the latest figures, only 28 per cent, despite all of the advertising campaigns, end up opting in and registering at present. That is the lowest rate in Europe.

ddigon o organau cyrff meirw—mewn geiriau eraill, dim digon o organau gan bobl sydd wedi marw. Felly, rhaid inni gynyddu'r cyflenwad o organau, a gellir gwneud hynny gyda system optio allan, fel y mae Veronica German ac eraill eisoes wedi sôn. Mae naw deg y cant o'r boblogaeth gyffredinol yn cytuno â'r syniad o roi organau, ond, yn ôl y ffigurau diweddaraf, dim ond 28 y cant sy'n cofrestru ar hyn o bryd, er gwaethaf yr holl ymgyrchoedd. Dyna'r gyfradd isaf yn Ewrop.

3.20 p.m.

Changing to opting out should present no problem; if you do not want to donate your organs, just say 'no'. Twenty two countries around the globe have an opt-out system, and we would prefer a system of soft opt-out or presumed consent. With that settled background and the legal backcloth of opt-out, when doctors and medics have that difficult conversation with newly bereaved families, only 15 per cent of families refuse organ donation. With our current system of opting in, without the legal certainty of the settled will of the nation, 40 per cent of families refuse organ donation when medics have that conversation. There is no doubt that an opt-out system increases the rates of organ donation. In Belgium, the national rate of organ donation has risen by 55 per cent in five years, with only 2 per cent opting out. Those are the potent arguments for moving to an opt-out system.

Ni ddylai newid i system optio allan fod yn broblem o gwbl; os nad ydych am roi eich organau, yr unig beth y mae angen ichi ei wneud yw dweud 'na'. Mae gan 22 o wledydd ledled y byd system optio allan, a byddai'n well gennym ni system feddal o optio allan neu ganiatâd tybiedig. Gyda'r cefndir optio allan a'r cefndir cyfreithiol wedi'i setlo, pan fydd meddygon yn cael y sgwrs anodd honno gyda theuluoedd sydd mewn profedigaeth, dim ond 15 y cant o deuluoedd sy'n gwrtihod rhoi caniatâd i roi'r organau. Gyda'n system bresennol o optio i mewn, heb sicrwydd cyfreithiol ewyllys bendant pobl Cymru, mae 40 y cant o deuluoedd yn gwrtihod rhoi organau pan fydd meddygon yn cael y sgwrs honno gyda hwy. Nid oes amheuaeth nad yw system optio i mewn yn cynyddu cyfraddau rhoi organau. Yng Ngwlad Belg, mae cyfradd genedlaethol rhoi organau wedi codi 55 y cant mewn pum mlynedd, gyda dim ond 2 y cant yn optio allan. Dyna'r dadleuon cryf dros symud i system optio allan.

With regard to the overnight reports from London, I am miffed and perplexed about what is going on. We have been consulting and reviewing in this place for years. We have taken evidence, and we have held meetings about ethics and with faith groups—we have been through the whole lot. On the face of it, there appears to be an attempt through the LCO process to stop what the Welsh Government wants to do. We have reviewed and consulted, and a recent YouGov poll puts 66 per cent of people in Wales in favour of opt-out. The people of Wales are overwhelmingly in favour of opt-out. We will doubtless review and consult again, as we go through the details of the

O ran yr adroddiadau a ddaeth dros nos o Lundain, rwyf yn siomedig ac mewn penbleth ynghylch yr hyn sy'n digwydd. Rydym wedi bod yn ymgynghori ac yn adolygu yma ers blynyddoedd. Rydym wedi derbyn tystiolaeth ac wedi cynnal cyfarfodydd am foeseg a chyda grwpiau ffydd—rydym wedi gwneud cyfan. Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos bod ymgais drwy'r broses LCO i atal yr hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei wneud. Rydym wedi adolygu ac ymgynghori, ac mae arolwg diweddar ar YouGov yn dweud bod 66 y cant o bobl Cymru o blaid y system optio allan. Mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru o blaid y system optio allan. Nid oes amheuaeth na

consequent proposed Measure, as already alluded to, after we get the powers.

On a passionate historic note, we have a proud history in Wales of involvement in renal transplantation, because it kicked off here in the 1970s with Professor Salomon. At one time, Wales was a world leader in renal transplantation and the management of complex renal disease. We have fallen behind over the years, and we have a chance to regain that proud historical heritage. We need these powers now to stop one person in Wales from dying every 11 days. Finally, therefore, does the Minister agree that voting ‘yes’ in March has never been more important?

**Edwina Hart:** I certainly concur with your final comments about voting ‘yes’ in March, and it is important to recognise that we have discussions on the further powers, which will be of enormous use to us within the Assembly, of course. Dr Lloyd’s contribution, like other contributions on this issue, which has been well discussed in the Chamber, indicate how passionately he and many others in Wales feel that it is important that we can put forward a proposed Measure on this. I did not want to be drawn when I responded to Rhodri, and I do not want to be drawn in responding to you, Dai, but I understand the natural anxiety and anger that people feel, because we have enjoyed a lot of support from across Wales in developing these particular proposals. As I indicated, I started a consultation in October 2008, and we had another 12 week consultation in May 2009. We have had public meetings and everything on this, and a majority of the consultation respondents—538 out of a total of 664—favoured a soft opt-out system within Wales. The purpose of the proposed LCO is to grant legislative competence in this area to the Assembly. This is about improving health, but also quality of life, which came across strongly in Dr Lloyd’s contribution, particularly with regard to kidney patients.

fyddwn yn adolygu ac yn ymgynghori eto, wrth fynd drwy fanylion y Mesur arfaethedig dilynol, fel y soniwyd eisoes, ar ôl inni gael y pwerau.

Ar nodyn hanesyddol angerddol, mae gennym hanes balch yng Nghymru o drawsblannu arenau, gan mai yma y dechreuodd y broses yn y 1970au gyda'r Athro Salomon. Ar un adeg, roedd Cymru'n flaenllaw iawn yng nghyswllt trawsblannu arenau a rheoli clefydau arenol cymhleth. Rydym wedi mynd ar ei hôl hi dros y blynnyddoedd, ond mae gennym gyfle i adennill y dreftadaeth hanesyddol falch honno. Mae arnom angen y pwerau hyn yn awr i atal un person yng Nghymru rhag marw bob 11 diwrnod. Yn olaf, felly, a yw'r Gweinidog yn cytuno nad yw pleidleisio ‘ie’ ym mis Mawrth erioed wedi bod mor bwysig?

**Edwina Hart:** Rwyf yn sicr yn cytuno â'ch sylwadau olaf ynghylch pleidleisio ‘ie’ ym mis Mawrth, ac mae'n bwysig cydnabod ein bod yn cael trafodaethau ar y pwerau ychwanegol, a fydd o ddefnydd mawr inni yn y Cynulliad, wrth gwrs. Mae cyfraniad Dr Lloyd, fel cyfraniadau eraill ar y mater hwn, sydd wedi cael eu trafod yn deg yn y Siambr, yn nodi pa mor angerddol ydyw ef a nifer o bobl eraill ynghylch pa mor bwysig yw gallu cyflwyno Mesur arfaethedig ar hyn. Nid oeddwn am gael fy nhemtio pan ymatebais i Rhodri, ac nid wyf am gael fy nhemtio i ymateb i chi, Dai, ond rwyf yn deall y pryder a'r dicter naturiol y mae pobl yn ei deimlo, gan ein bod wedi mwynhau llawer o gefnogaeth o bob rhan o Gymru wrth ddatblygu'r cynigion penodol hyn. Fel y dywedais, dechreuais ymgynghoriad ym mis Hydref 2008, a chawsom ymgynghoriad arall 12 wythnos o hyd ym mis Mai 2009. Rydym wedi cael cyfarfodydd cyhoeddus a phopeth ar hyn, ac roedd y mwyafrif o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad—538 o gyfanswm o 664—o blaid cael system feddal o optio allan yng Nghymru. Pwrpas yr LCO arfaethedig yw rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes hwn. Mae hyn yn ymneud â gwella iechyd, ond hefyd ansawdd bywyd—mater a oedd yn amlwg iawn yng nghyfraniad Dr Lloyd, yn enwedig o ran cleifion arenol.

**Jonathan Morgan:** Minister, we find ourselves in a rather unusual set of circumstances. This is the first proposed legislative competence Order that has been brought before the Assembly that has not received the clearance of the Attorney-General, and whatever you may feel about the arguments, there are issues that need to be resolved between you and Dominic Grieve to ensure that whatever you propose is within the scope of field 9 of Schedule 5. Assuming that we are to proceed with this, the Government must ensure that it does so as sensitively as possible, because this is a complex area. You are seeking to change the legal framework with regard to asking the family of a deceased person to express an opinion at the point at which organs could be used for donation.

We all assume that presumed consent means some sort of massive opt-out system. In most countries with soft presumed consent, it does not mean that at all; it means family consent. Spain is held up as a model of presumed consent, yet there is no register for opt-out there, and it is up to the family to come to a decision. Different countries operate different legal systems, as Dai Lloyd has pointed out: there are those that operate a hard system of consent and there are those that operate a softer system of presumed consent. However, one thing that is clear, and one of the concerns that is being expressed by the Attorney-General in the e-mail that you read from earlier, is that there is a question as to whether an EU member state should operate different legal systems on this matter within its boundaries. Spain, as the example that is used, has one legal system for organ donation, although it has 17 separate health systems. The point that is often made by the Spanish is that you need that level of commonality in order for the system to work effectively, whatever system you opt for.

We need to achieve big cultural changes. One great disadvantage of holding a donor card, and I have one, is that if I were to die today and my wife objected to my organs being used, there is not a doctor in the University Hospital of Wales who would disagree with her. My rights and wishes could be

**Jonathan Morgan:** Weinidog, rydym mewn amgylchiadau anarferol braidd. Dyma'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig cyntaf i gael ei ddwyn gerbron y Cynulliad heb gael caniatâd y Twrnai Cyffredinol, a beth bynnag yw eich barn chi am y dadleuon, mae materion sydd angen eu datrys rhyngoch chi a Dominic Grieve i sicrhau bod beth bynnag rydych yn ei gynnig o fewn cwmpas maes 9 i Atodlen 5. Gan dybio ein bod yn bwrw ymlaen â hyn, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau ei bod yn gwneud hynny mor sensitif ag y bo modd, gan fod hwn yn faes cymhleth. Rydych yn ceisio newid y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofyn i deulu person sydd wedi marw fynegi barn ar yr adeg y byddai modd i'w organau gael eu rhoi.

Rydym i gyd yn tybio bod caniatâd tybiedig yn golygu rhyw fath o system optio allan enfawr. Yn y rhan fwyaf o wledydd sydd â system caniatâd tybiedig meddal, nid yw'n golygu hynny o gwbl; mae'n golygu caniatâd y teulu. Mae Sbaen yn cael ei defnyddio fel model o ganiatâd tybiedig, ond nid oes cofrestr ar gyfer optio allan yno, a'r teulu sy'n gwneud y penderfyniad. Ceir gwahanol systemau cyfreithiol mewn gwahanol wledydd, fel y dywedodd Dai Lloyd: mae gan rai system caniatâd caled ac mae gan rai eraill system caniatâd tybiedig meddal. Fodd bynnag, mae un peth yn amlwg, ac un o'r pryderon sy'n cael eu mynegi gan y Twrnai Cyffredinol yn y neges e-bost rydych wedi'i darllen yn gynharach, yw bod cwestiwn yngylch a ddylai aelod-wladwriaeth o'r UE weithredu systemau cyfreithiol gwahanol ar y mater hwn o fewn ei ffiniau. Mae gan Sbaen, fel yr enghraift a ddefnyddir, un system gyfreithiol ar gyfer rhoi organau, er bod ganddi 17 o systemau iechyd ar wahân. Y pwyt a godir yn aml gan bobl Sbaen yw bod angen y sefyllfa gyffredin honno er mwyn i'r system weithio'n effeithiol, pa system bynnag rydych yn ei dewis.

Mae angen inni sicrhau newidiadau diwylliadol mawr. Un anfantais fawr o gardiau rhoddwyr—ac mae gen i un—yw pe bawn i'n marw heddiw, a'm gwraig yn gwrthwynebu i'm horganau gael eu defnyddio, nid oes meddyg yn Ysbyty Athrofaol Cymru a fyddai'n anghytuno â hi.

overridden by my family, although I have positively signed up to my organs being used. Thousands of people in this country today may believe that their organs will be used at the point at which they die, but, if their family objects, there is nothing in law that can ensure that those organs are used. Therefore, even a positive system of signing up to something does not mean the right result for the person concerned.

There are significant differences of opinion in the Chamber on this, Minister, and you will know that I am not a supporter of presumed consent. That is not because I have a strong libertarian opinion about whether the state should own the body at the point of death. My objection to presumed consent is on a practical basis. I simply do not think that it is the answer. There is a lot that you can do now that would make some significant and enormous differences to an increase in the rate of organ donation in Wales. In October last year, there was a compelling article in the *British Medical Journal* by Dr Rafael Matesanz, who heads up the Spanish transplantation organisation, Professor John Fabre and Dr Paul Murphy, two eminent British clinicians, who argued that presumed consent was not necessary. In the article, they said that:

‘Spain’s outstanding deceased organ donor rate cannot be reasonably attributed to its presumed consent laws.’

What they were referring to was the fact that when the law changed in 1979, there was no comparable improvement in the rate of organ donation until 1989, when the Spanish introduced the co-ordinated system that led to a rapid increase in the number of intensive care beds, a massive increase in the capacity of intensive care theatres and staff, and training for transplantation co-ordinators to enable them to have that very difficult conversation with a bereaved family. Essentially, it comes down to that: whether you have staff with the confidence to be able to talk to the family of someone who is

Er fy mod wedi llofnodi fy mod yn caniatáu i'm horganau gael eu defnyddio, byddai dymuniadau fy nheulu yn cael blaenoriaeth dros fy hawliau a'm dymuniadau i. Efallai fod miloedd o bobl yn y wlad hon heddiw yn credu y bydd eu horganau'n cael eu defnyddio pan maent yn marw, ond, os yw eu teulu'n gwirthwynebu, nid oes unrhyw beth yn y gyfraith sy'n gallu sicrhau bod yr organau hynny'n cael eu defnyddio. Felly, nid yw hyd yn oed system gadarnhaol o gofrestru yn golygu'r canlyniad cywir ar gyfer y person dan sylw.

Mae gwahaniaeth barn sylweddol yn y Siambr ar y mater hwn, Weinidog, a byddwch yn gwybod nad wyf fi'n cefnogi caniatâd tybiedig, ac nid am fod gennyf farm ryddfrydol gref ynghylch a ddylai'r wladwriaeth fod yn berchen ar y corff ar adeg y farwolaeth. Mae fy ngwrthwynebiad i i ganiatâd tybiedig yn seiliedig ar ymarferoldeb. Yn syml iawn nid wyf yn credu mai dyna'r ateb. Gallwch wneud llawer o bethau yn awr a fyddai'n gwneud gwahaniaeth arwyddocaol ac enfawr i roi hwb i'r gyfradd rhoi organau yng Nghymru. Ym mis Hydref y llynedd, ymddangosodd erthygl rymus yn y *British Medical Journal* gan Dr Rafael Matesanz, sy'n arwain Sefydliad Trawsblaniadau Sbaen, yr Athro John Fabre a Dr Paul Murphy, dau o glinigwyr blaenllaw Prydain, a oedd yn dadlau nad oedd caniatâd tybiedig yn angenrheidiol. Yn yr erthygl, roeddent yn dweud:

Ni ellir priodoli'r gyfradd ragorol o roi organau ar ôl marwolaeth yn Sbaen i'w chyfraith caniatâd tybiedig.

Roeddent yn cyfeirio at y ffaith pan newidiodd y gyfraith ym 1979, nid oedd unrhyw welliant cymharol yn y gyfradd rhoi organau tan 1989, pan gyflwynodd y Sbaenwyr y system gydlynol a arweiniodd at gynnydd cyflym yn nifer y gwelyau gofal dwys, cynnydd enfawr yng nghapasiti staff a theatrau gofal dwys, a hyfforddiant ar gyfer cydlynwyr trawsblannu er mwyn eu galluogi i gael y sgwrs anodd honno gyda theuluoedd mewn profedigaeth. Yn y bôn, mae'n dod i lawr i hynny: a oes gennych staff gyda'r hyder i allu siarad â theulu rhywun sydd newydd farw er mwyn gweld a yw'r teulu

recently deceased to see whether or not that family is comfortable with the organs of that person being used. They said clearly in the article that the rate of organ donation and the refusal rate in Spain from 1979 to 1989 did not change remarkably in comparison with other European countries, including the United Kingdom.

There is an interesting reference in the article to intensive care beds. In comparison with Spain, we have a low number of intensive care beds. The United Kingdom has 27 intensive care beds per 1 million of population, compared with 87.5 beds per 1 million of population in Spain. That tells us that, at the point at which someone has become critically ill, the point at which their condition could be fatal, that person is already in a hospital environment. That allows them to be in a position to act if that person dies. The arguments in this article are compelling. The two other authors who worked with Dr Matesanz in producing this article are Professor Fabre, who was the president of the British Transplantation Society in the 1990s, and Dr Paul Murphy, who is the NHS clinical lead for organ donation. These are eminent clinicians.

3.30 p.m.

It is worth considering whether a change in the legal system is the answer. I believe—and if we look back at what has happened in the last three or four years—that one of the biggest step changes that could be achieved by you as Minister, and by this Government, would be to address the issues of capacity, the number of intensive care beds, and training for those clinicians who have to have that awkward, nasty and difficult conversation with grieving relatives. We all think that having that conversation is easy, but it is not. Addressing those issues would be the single biggest step change, because these people—and they are the experts—do not believe that a change in the law would make the difference. I therefore ask the Government to consider that one request. You are going to proceed with this if we have the competence, and if we are within the confines of field 9 of Schedule 5—that is clear. You obviously want a Measure, and what we say will not persuade you otherwise.

hwnnw'n fodlon i'r organau gael eu defnyddio ai peidio. Roeddent yn dweud yn glir yn yr erthygl nad oedd y gyfradd rhoi organau na'r gyfradd gwrtod yn Sbaen wedi newid yn sylweddol rhwng 1979 ac 1989 o'i gymharu â gwledydd eraill yn Ewrop, gan gynnwys y Deyrnas Unedig.

Ceir cyfeiriad diddorol at welyau gofal dwys yn yr erthygl. Wrth gymharu'r sefyllfa yn Sbaen, mae gennym nifer isel o welyau gofal dwys. Mae gan y Deyrnas Unedig 27 o welyau gofal dwys i bob 1 miliwn o'r boblogaeth, o'i gymharu â 87.5 o welyau i bob 1 miliwn o'r boblogaeth yn Sbaen. Mae hynny'n dweud wrthym, pan fydd rhywun yn ddifrifol wael, ac y gallai eu cyflwr fod yn angheuol, fod y person hwnnw mewn ysbty yn barod. Mae hynny'n eu galluogi i fod mewn sefyllfa i weithredu os yw'r person hwnnw'n marw. Mae'r dadleuon yn yr erthygl hon yn rymus. Y ddau awdur arall a fu'n gweithio gyda Dr Matesanz i gynhyrchu'r erthygl hon oedd yr Athro Fabre, a oedd yn llywydd Cymdeithas Trawsblannu Prydain yn y 1990au, a Dr Paul Murphy, sef arweinydd clinigol y GIG ar gyfer rhoi organau. Mae'r rhain yn glinigwyr blaenllaw.

Mae'n werth ystyried ai newid y system gyfreithiol yw'r ateb. Rwyf yn credu—ac os edrychwn ar yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y tair neu bedair blynedd diwethaf—mai un o'r camau mwyaf y gallech chi fel Gweinidog, a'r Llywodraeth hon, ei gymryd yw mynd i'r afael â chapasiti, nifer y gwelyau gofal dwys, a hyfforddiant ar gyfer y clinigwyr hynny sy'n gorfol cael y sgwrs letchwith, annifyr ac anodd honno gyda pherthnasau sy'n galaru. Mae pob un ohonom yn meddwl bod cael y sgwrs honno'n hawdd, ond nid yw hynny'n wir. Mynd i'r afael â'r materion hynny fyddai'r newid mwyaf, oherwydd nid yw'r bobl hyn—a hwy yw'r arbenigwyr—yn credu y byddai newid yn y gyfraith yn gwneud y gwahaniaeth. Gofynnaf felly i'r Llywodraeth ystyried y cais hwnnw. Mae'n amlwg eich bod yn mynd i fwrr ymlaen â hyn os ydyw o fewn ein cymhwysedd, ac os ydym o fewn cyfyngiadau maes 9 Atodlen 5. Mae'n amlwg bod arnoch eisiau Mesur, ac ni fydd yr hyn a

However, what should fall alongside this is a strategy from the Government that does all of those things that Spain did in 1989, because, frankly, without them, this simply will not work.

ddywedwn wrthych yn eich perswadio i wneud yn wahanol. Fodd bynnag, dylid cael strategaeth gan y Llywodraeth ochr yn ochr â hyn sy'n gwneud yr holl bethau hynny a wnaeth Sbaen ym 1989, oherwydd, a dweud yn blaen, hebddynt, ni fydd hyn yn gweithio.

**Edwina Hart:** Thank you for your contribution, Jonathan. I am well aware of your views on this issue. However, some of the things that you mention are already in hand in terms of proposals as to how we will deal with issues in the future in Wales, and across the UK. You are right to say that we need to increase people's understanding of these issues, and we also need to have the facilities in place if we are to see more transplants performed. We have put a large-scale investment into UHW in terms of the new transplant unit, and there is further work to be done in terms of co-ordinators who speak to people. A lot of work is being done in that area, which is continuing in parallel with this.

**Edwina Hart:** Diolch am eich cyfraniad, Jonathan. Rwyf yn ymwybodol iawn o'ch barn am y mater hwn. Fodd bynnag, mae rhai o'r pethau rydych wedi sôn amdanynt eisoes ar y gweill o ran cynigion ynghylch sut y byddwn yn ymdrin â materion yn y dyfodol yng Nghymru, a ledled y DU. Rydych yn llygad eich lle i ddweud bod angen inni gynyddu dealltwriaeth pobl o'r materion hyn, ac mae angen inni hefyd sicrhau bod yr adnoddau gennym os ydym am weld rhagor o drawsblaniadau. Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn yr uned drawsblannu newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac mae angen gwneud rhagor o waith gyda'r cydlynwyr sy'n siarad â phobl. Mae llawer o waith yn cael ei wneud yn y maes hwnnw, sy'n parhau'n gyfochrog â hyn.

The important thing is that the Assembly is now discussing drawing down the powers on this issue, and having proper scrutiny of the issues. All the other issues that you raise are for the eventual Measure, and, as I indicated to Veronica German when she made her valid points about how we need to engage with the public, we need to consider those issues at that juncture. However, I appreciate that this can be a difficult issue to discuss. I have read the article that you mentioned, and I have had the opportunity to meet patients who have been awaiting a transplant. When I look into their eyes, they do not ask me about intensive care beds, or about co-ordinators; they ask me whether I can do something about legislation, which is what I am trying to do today.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Cynulliad yn awr yn trafod cael gafael ar y pwerau ar y mater hwn, a chraffu'n briodol arnynt. Mae pob un o'r materion eraill a godwyd gennych ar gyfer y Mesur yn y pen draw ac, fel y dywedais wrth Veronica German pan wnaeth hithau ei phwyntiau dilys ynghylch yr angen inni ymgysylltu â'r cyhoedd, mae angen inni ystyried y materion hynny bryd hynny. Fodd bynnag, rwyf yn sylweddoli y gall hwn fod yn fater anodd ei drafod. Rwyf wedi darllen yr erthygl roeddch yn sôn amdani, ac rwyf wedi cael y cyfle i gwrdd â chleifion sydd wedi bod yn aros am drawsblaniad. Pan fyddaf yn edrych i fyw eu llygaid, nid ydynt yn gofyn imi am welyau gofal dwys, nac am gydlynwyr; maent yn gofyn imi a allaf wneud rhywbeth am ddeddfwriaeth, sef yr hyn rwyf yn ceisio ei wneud heddiw.

**Jenny Randerson:** I wish to express my strong support for the path that the Minister is pursuing. Like many other Members who have spoken this afternoon, I was a member of the Health, Wellbeing and Local Government Committee when we undertook our long and, I believe, influential review of this issue. I was disappointed that members of that committee did not, at the time, decide

**Jenny Randerson:** Hoffwn fynegi fy nghefnogaeth gref ar gyfer y llwybr y mae'r Gweinidog yn ei ddilyn. Fel nifer o Aelodau eraill sydd wedi siarad y prynhawn yma, roeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol pan aethom ati i gynnal ein hadolygiad hir, ond dylanwadol yn fy marn i, o'r mater hwn. Roeddwn yn siomedig na wnaeth aelodau'r pwyllgor hwnnw, ar y pryd,

to pursue the issue of an LCO to take these powers here for Wales alone. I was disappointed because there was strong support for presumed consent in that committee, but there was an unwillingness to challenge London on this issue, as it was seen at the time. I raise this point with some care in the context of the legal advice that is at issue this afternoon. However, Dai Lloyd, Helen Mary Jones and I put our names to what could be called a minority view in that report, and I was delighted, Minister, when you decided to support that minority view to go out to public consultation on this issue and consequently to pursue this LCO.

Regarding legal advice on this issue, we discussed this in committee. It is true to say that this may not be an issue where our powers are as clear as they have been in the many other issues on which we have wanted to legislate. However, I believe, as did other members of the committee, that we could make a very strong argument—and the legal advice that we had supported this—for saying that this was within our powers. I very much hope that we are able to make that argument successfully. However, when we had evidence from some involved UK organisations, there was a view that the practicalities of having a separate system were a problem. I strongly believe that that is a complete misunderstanding of the situation. I do not believe that there are any problems, and if you look at other countries, such as Spain, and various states in America, clearly it is possible for different systems to exist side by side. As long as you accept and recognise the differences between one area and another, then they can operate very successfully.

Minister, the legal opinion that you have received, and the doubts that have been raised this afternoon, clearly make an already very tight timescale extremely difficult. I would suggest to you this afternoon that although we cannot possibly bind our successor Assembly—and as someone who will not be in that Assembly, it would be totally inappropriate of me to suggest that we could—it would be extremely helpful if we

benderfynu mynd ar drywydd LCO i gymryd y pwerau hyn ar gyfer Cymru yn unig. Roeddwn yn siomedig gan fod cefnogaeth gref ar gyfer caniatâd tybiedig yn y pwylgor hwnnw, ond roedd amharodrwydd i herio Llundain ar y mater hwn, fel y gwelwyd ar y pryd. Rwyf yn codi'r pwyt hwn yn ofalus yng nghyd-destun y cyngor cyfreithiol sydd dan sylw y prynhawn yma. Fodd bynnag, rhoddodd Dai Lloyd, Helen Mary Jones a minnau ein henwau ar yr hyn y gellid ei alw'n farn leiafrifol yn yr adroddiad hwnnw, ac roeddwn yn falch iawn, Weinidog, pan wnaethoch benderfynu cefnogi'r farn leiafrifol honno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn ac o ganlyniad mynd ar drywydd yr LCO hwn.

O ran cyngor cyfreithiol ar y mater hwn, gwnaethom drafod hyn yn y pwylgor. Mae'n wir dweud nad yw hyn o bosibl yn fater lle mae ein pwerau mor glir ag y maent wedi bod yn y nifer o faterion eraill rydym wedi bod yn awyddus i ddeddfu yn eu cylch. Fodd bynnag, rwyf yn credu, yn yr un modd ag aelodau eraill y pwylgor, y gallem gyflwyno dadl gref iawn—ac roedd y cyngor cyfreithiol a gawsom yn cefnogi hyn—dros ddweud bod hyn o fewn ein pwerau. Rwyf yn mawr obeithio y gallwn gyflwyno'r ddadl honno'n llwyddiannus. Fodd bynnag, pan gawsom dystiolaeth gan rai sefydliadau yn y DU sy'n ymwneud â hyn, roedd rhai o'r farn bod yr agweddau ymarferol o gael system ar wahân yn broblem. Credaf mai camddeall y sefyllfa'n llwyr yw hynny. Nid wyf yn credu bod unrhyw broblemau, ac os ydych yn edrych ar wledydd eraill, fel Sbaen, a gwahanol daleithiau yn America, mae'n amlwg ei bod yn bosibl cael systemau gwahanol ochr yn ochr â'i gilydd. Cyn belled â'ch bod yn derbyn ac yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng un ardal ac un arall, gallant weithredu'n llwyddiannus iawn.

Weinidog, mae'r farn gyfreithiol rydych wedi ei derbyn, a'r amheuon a godwyd y prynhawn yma, yn amlwg yn gwneud amserlen sydd eisoes yn dynn iawn yn amserlen hynod o anodd. Byddwn yn awgrymu wrthych y prynhawn yma, er na allwn ymrwymo'r Cynulliad a fydd yn dilyn hwn—ac fel rhywun na fydd yn y Cynulliad hwnnw, byddai'n gwbl amhriodol imi awgrymu y gallem wneud hynny—byddai'n hynod o

could maintain cross-party agreement on this issue so that, in our successor Assembly, we have a good chance of being able to pursue this issue if the powers cannot be achieved by the end of the current Assembly.

Finally, I raise the issue of the article in the *British Medical Journal*, to which Jonathan referred. I take a different view to Jonathan on this issue, but the article certainly made the points that Jonathan accurately represented here this afternoon. It is absolutely clear from all the work that we have done that improving the rate of organ donation is at least 50 per cent down to having good systems and health services; having trained personnel and the intensive care beds and so on necessary for a high rate of donation. Can we have your assurance this afternoon that we will continue to prepare for this system in Wales, so that when we get these powers, as I fervently hope we will, we will be able to implement them as effectively as possible, and even if we do not get the powers, we would be able to improve the current rate of donation?

**Edwina Hart:** I thank Jenny Randerson very much for her contribution. She has been consistent in her approach to this issue all the way through, and I was grateful for her support when I decided to proceed on this particular issue.

I concur with your final comments, Jenny. You are quite correct that we must continue to prepare and undertake this work. I firmly believe that we will have the powers in this area, that we will proceed successfully through scrutiny here, and that the legislative competence Order will be dealt with. It is important to recognise that our Government's position is clear that this LCO is lawful, and we intend to proceed with it. It is a very important piece of legislation for the future.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister, for your response to that statement. There are broader issues here that I will not deal with immediately, but I will not miss any opportunity to protect the right of this

ddefnyddiol pe gallem gael cytundeb trawsbleidiol ar y mater hwn. Byddai hynny'n sicrhau bod gennym, yn y Cynulliad nesaf, siawns dda o allu mynd ar drywydd y mater hwn os na ellir cael y pwerau cyn i'r Cynulliad presennol ddod i ben.

Yn olaf, hoffwn sôn am yr erthygl yn y *British Medical Journal*, y cyfeiriodd Jonathan ati. Mae fy safbwyt i yngylch hyn yn wahanol i safbwyt Jonathan, ond roedd yr erthygl yn sicr yn gwneud y pwyntiau a gyflwynodd Jonathan mor gywir y prynhawn yma. Mae'n gwbl amlwg o'r holl waith rydym wedi ei wneud mai cael systemau a gwasanaethau iechyd da sy'n gyfrifol am o leiaf 50 y cant o'r gwaith o wella'r gyfradd rhoi organau; mae cael personel hyfforddedig a gwelyau gofal dwys ac yn y blaen yn angenrheidiol er mwyn cael cyfradd uchel o roi organau. A allwch ein sicrhau y prynhawn yma y byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer y system hon yng Nghymru, fel y byddwn, ar ôl cael y pwerau hyn—fel yr wyf yn gobeithio'n fawr y byddwn—yn gallu eu rhoi ar waith mor effeithiol â phosibl, a hyd yn oed os nad ydym yn cael y pwerau, y byddem yn gallu gwella'r gyfradd bresennol o roi?

**Edwina Hart:** Diolch yn fawr iawn i Jenny Randerson am ei chyfraniad. Mae hi wedi bod yn gyson yn ei hymagwedd at y mater hwn o'r dechrau, ac roeddwn yn ddiolchgar am ei chefnogaeth pan benderfynais fwrw ymlaen â'r mater penodol hwn.

Cytunaf â'ch sylwadau terfynol, Jenny. Rydych yn llygad eich lle ei bod yn rhaid inni barhau i baratoi ac ymgymryd â'r gwaith hwn. Rwyf yn credu'n gryf y byddwn yn cael y pwerau yn y maes hwn, y byddwn yn symud ymlaen yn llwyddiannus drwy'r broses graffu yma, ac yr ymdrinnir yn briodol â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'n bwysig cydnabod bod ein Llywodraeth ni yn bendant o'r farn bod yr LCO hwn yn gyfreithlon, ac rydym yn bwriadu bwrw ymlaen ag ef. Mae hwn yn ddarn pwysig iawn o ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol.

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog, am eich ymateb i'r datganiad hwnnw. Ceir materion ehangach yma na fyddaf yn ymdrin â hwy ar unwaith, ond ni fyddaf yn colli unrhyw gyfle i amddiffyn hawl y sefydliad hwn i arfer ei

institution to exercise its legal powers within the constitution of the United Kingdom. I will say no more.

3.40 p.m.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission

**The Presiding Officer:** Commissioner Lorraine Barrett is answering questions, perhaps for the last time. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']}

Mae'r cwestiwn cyntaf gan Gareth Jones.

**Gareth Jones:** For the last time? [*Laughter.*]

### Y Refferendwm ar Bwerau i'r Dyfodol

**1. Gareth Jones:** *Pa swyddogaeth a fydd gan Gomisiwn y Cynulliad yn y refferendwm ar bwerau i'r dyfodol.* OAQ(3)0048(AC)

**The Commissioner for the Sustainable Assembly (Lorraine Barrett):** Thank you for your question, Gareth. We have statutory powers to promote public awareness of elections and the current or any pending system of devolved government in Wales. We have devised a communications campaign entitled Vote 2011 to give accurate, impartial and authoritative information about the Assembly's work, the referendum and the Assembly elections. The campaign incorporates traditional means of communication, as well as the perhaps not-so-new social media of Facebook and so on. We have an outreach bus, which has been touring around Wales, and there are leaflets and various events. You may be interested to know that the chief counting officer for the 3 March referendum will be based at the Senedd, where the final result will be announced.

**Gareth Jones:** Diolch am yr ateb hwnnw. Fel y gwyddom, mae eleni yn flwyddyn pan welwn dair pleidlais bwysig. Felly, sut y bydd y Comisiwn yn codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc am bwysigrwydd pleidleisio—nid yn unig yn y refferendwm ar bwerau ychwanegol ym mis Mawrth, ond yn

bwerau cyfreithiol yng nghyfansoddiad y Deyrnas Unedig. Nid wyf am ddweud rhagor.

**Y Llywydd:** Mae'r Comisiynydd Lorraine Barrett yn ateb cwestiynau, am y tro olaf efallai. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']}

The first question is from Gareth Jones

**Gareth Jones:** Am y tro olaf? [*Chwerthin.*]

### The Referendum on Future Powers

**1. Gareth Jones:** *What role will the Assembly Commission have in the forthcoming referendum on future powers.* OAQ(3)0048(AC)

**Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy (Lorraine Barrett):** Diolch am eich cwestiwn, Gareth. Mae gennym bwerau statudol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch etholiadau ar system bresennol, neu unrhyw system arfaethedig, llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Rydym wedi dyfeisio ymgrych gyfathrebu o'r enw Pleidleisiwch 2011 i roi gwybodaeth gywir, diduedd ac awdurdodol am waith y Cynulliad, y refferendwm ac etholiadau'r Cynulliad. Mae'r ymgrych yn cynnwys dulliau traddodiadol o gyfathrebu, yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasu nad ydynt mor newydd efallai, sef Facebook ac ati. Mae gennym fws sydd wedi bod yn teithio o amgylch Cymru, a cheir taflenni a digwyddiadau amrywiol. Efallai y bydd gennych ddiddordeb clywed y bydd y prif swyddog cyfrif ar gyfer y refferendwm ar 3 Mawrth wedi'i leoli yn y Senedd, lle bydd y canlyniad terfynol yn cael ei gyhoeddi.

**Gareth Jones:** Thank you for that reply. As we know, this is a year in which we will have three important votes to cast. How is the Commission raising awareness among young people of the importance of voting—not only in the referendum on additional powers in March, but in the Assembly election in May

etholiad y Cynulliad ym mis Mai ac mewn etholiadau eraill?

**Lorraine Barrett:** You raise an important point there, Gareth. Generally, the Assembly as a whole has been very innovative and has led the way throughout the UK, if not throughout Europe and the wider world, in engaging with young people in the Senedd with our education programme. I know that there are other parliaments that are quite jealous of the work that we do and have been looking at our model. We are already a step ahead in raising interest and giving information to young people with our work in relation to civic society, the importance of democracy and what it means to them.

This week sees the launch of the innovative Vote 2011 online advertising campaign and microsite, which is part of our e-democracy programme. The campaign has been specifically designed to target the 18 to 35 age group. People in this age group are often the most interested in what is going on around them, but may not necessarily go out to vote. The campaign will be featured on sites such as Facebook and is designed to give young people the push that they might need to get out and vote. I think it is also our responsibility as individual Assembly Members to engage with young people in our communities wherever we can. There is also the fact that we have some younger faces in the Assembly—I may include myself in that group; I am not sure. It is important that we represent our communities and get the message across to younger people that voting is important. It is all right to shout from the sidelines and demonstrate—that is fine, but you can make a difference by voting. Regardless of which way you vote, the important thing is to vote and to take an interest in what goes on. I hope that that gives you some assurance that the Commission is working hard. The Presiding Officer has been out with the bus and has held several meetings around Wales. The bus is also touring local authorities. You could contact your local authorities and encourage them to encourage schools to go along to the tour bus and to see what it has to offer, and spread the information in that way.

and other elections?

**Lorraine Barrett:** Mae'r pwynt rydych yn ei godi yn bwynt pwysig, Gareth. Yn gyffredinol, mae'r Cynulliad i gyd wedi bod yn flaengar iawn ac wedi arwain y ffordd drwy'r DU i gyd, os nad drwy Ewrop a'r byd, wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn y Senedd gyda'r rhaglen addysg sydd gennym. Gwn fod seneddau eraill yn eithaf eiddigeddus o'r gwaith rydym yn ei wneud, a'u bod wedi bod yn edrych ar ein model. Rydym eisoes gam ar y blaen o ran hybu diddordeb a rhoi gwybodaeth i bobl ifanc fel rhan o'n gwaith yng nghyswilt y gymdeithas ddinesig, pwysigrwydd democratiaeth a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt hwy.

Yr wythnos hon, fel rhan o'n rhaglen e-ddemocratiaeth, bydd microwefan ac ymgyrch hysbysebu ar-lein arloesol Pleidleisio 2011 yn cael eu lansio. Mae'r ymgyrch wedi cael ei chynllunio'n benodol i dargedu'r grŵp oedran 18-35. Yn aml iawn, pobl yn y grŵp oedran hwn yw'r rhai sydd â'r mwyaf o ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas, ond nid ydynt o reidrwydd yn mynd i bleidleisio. Bydd yr ymgyrch yn cael sylw ar safleoedd fel Facebook, ac mae wedi'i chynllunio i roi i bobl ifanc yr hwb y mae ei angen arnynt o bosibl i fynd i bleidleisio. Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn gyfrifoldeb arnom ni fel Aelodau Cynulliad unigol i ymgysylltu â phobl ifanc yn ein cymunedau lle bynnag y gallwn. Rhaid cofio bod gennym hefyd wynebau iau yn y Cynulliad—efallai y byddwn yn fy nghynnwys fy hun yn y grŵp hwnnw; nid wyf yn siŵr. Mae'n bwysig ein bod yn cynrychioli ein cymunedau ac yn cyfleu'r neges i bobl iau bod pleidleisio yn bwysig. Mae'n ddigon hawdd gweiddi a gwrthdystio ar y cyrion—mae hynny'n iawn, ond gallwch wneud gwahaniaeth drwy bleidleisio. Ni waeth dros beth y byddwch yn pleidleisio, y peth pwysig yw eich bod yn pleidleisio ac yn cymryd diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd. Gobeithio bod hynny'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ichi fod y Comisiwn yn gweithio'n galed. Mae'r Llywydd wedi bod yn mynd o gwmpas ar y bws ac wedi cynnal sawl cyfarfod o amgylch Cymru. Mae'r bws hefyd yn teithio o amgylch awdurdodau lleol. Gallech gysylltu â'ch awdurdodau lleol a'i

annog i hybu ysgolion i fynd draw at y bws a gweld beth sydd ganddo i'w gynnig, a lledaenu'r wybodaeth yn y ffordd honno.

## Arbedion Gweinyddol

**2. Bethan Jenkins:** A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am gyflawni arbedion gweinyddol wrth redeg y Cynulliad. OAQ(3)0049(AC)

**Lorraine Barrett:** The Commission's 2011-12 budget was approved by the Assembly on 8 December 2010. It sets out how we will achieve a 5 per cent reduction in this financial year and our strategy for savings over the following three financial years. Reductions of approximately 12 per cent or nearly £4 million are planned by 2015. Achieving these savings presents a significant challenge and requires a clear focus on Assembly priorities—particularly its core business of legislation.

**Bethan Jenkins:** Thank you for that answer. I want to ask about the fact that the Assembly Commission has started to send out documents via electronic mail, as opposed to printing them. As Assembly Members, we receive a lot of hefty documents from different organisations, and I wondered what kinds of savings you had made by not sending Commission documents to Assembly Members in hard copy. Are you extending this to the public sector in general, and to third sector organisations, as best practice in the use of resources?

**Lorraine Barrett:** E-mails are a hindrance as well as a help, in many ways. We all appreciate how difficult it can be to manage them, and for the next Assembly, that should be a priority for training. You can have a pile of papers on the desk and flick through them, but it is easy to miss an e-mail when you have 200 of them on the screen. However, it is the way that we all have to go. The Welsh Assembly Government is now sending out many more reports by e-mail, and I have written personally over the last year or two to various public bodies and voluntary organisations to ask why they do not issue their annual reports on e-mail. You can

## Administration Savings

**2. Bethan Jenkins:** Will the Commissioner make a statement on making administration savings in the running of the Assembly. OAQ(3)0049(AC)

**Lorraine Barrett:** Cymeradwywyd cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2011-12 gan y Cynulliad ar 8 Rhagfyr 2010. Mae'n nodi sut y byddwn yn sicrhau 5 y cant o ostyngiad yn ystod y flwyddyn ariannol hon, yn ogystal â'n strategaeth ar gyfer arbedion dros y tair blynedd ariannol nesaf. Y gobaith yw y bydd gostyngiadau o tua 12 y cant neu bron £4 miliwn yn cael eu gwneud erbyn 2015. Mae cyflawni'r arbedion hyn yn dipyn oher ac yn gofyn am ffocws clir ar flaenoriaethau'r Cynulliad—yn enwedig ei fusnes craidd, sef deddfwriaeth.

**Bethan Jenkins:** Diolch am yr ateb hwnnw. Rwyf am holi am y ffaith bod Comisiwn y Cynulliad wedi dechrau anfon dogfennau drwy'r post electronig, yn hytrach na'u hargraffu. Fel Aelodau Cynulliad, rydym yn cael llawer o ddogfennau swmpus gan wahanol sefydliadau, ac roeddwn yn meddwl tybed faint o arbedion roeddech wedi'u gwneud drwy beidio ag anfon copi papur o ddogfennau'r Comisiwn at Aelodau'r Cynulliad. A ydych yn ymestyn hyn i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, ac i sefydliadau trydydd sector, fel arfer gorau wrth ddefnyddio adnoddau?

**Lorraine Barrett:** Er eu bod yn gallu bod yn help, mae negeseuon e-bost yn gallu bod yn faich mewn nifer o ffyrdd. Rydym i gyd yn sylweddoli pa mor anodd yw eu rheoli ar brydiau, ac ar gyfer y Cynulliad nesaf, dylai hynny fod yn flaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant. Gallwch gael pentwr o bapurau ar y ddesg a tharo golwg sydyn arnynt, ond mae'n hawdd peidio â dal sylw ar neges e-bost pan mae gennych 200 ohonynt ar y sgrin. Fodd bynnag, dyna'r trywydd y mae pawb yn gorfol ei ddilyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn anfon llawer mwy o adroddiadau dros yr e-bost, ac rwyf fi'n bersonol wedi ysgrifennu at amryw o

always request a hard copy, or print one off, if you prefer—or you can decide to print off just a few pages. That is the way to go, to move towards that kind of paperless society. In the Assembly, as long as committee Chairs agree, Members are allowed to take their laptops with them to access the reports that are sent out. It will reduce carbon consumption as well as cutting costs, and that is a priority.

gyrff cyhoeddus a mudiadau gwirfoddol dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf i ofyn pam nad ydynt yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynnyddol dros yr e-bost. Gallwch bob amser ofyn am gopi papur, neu argraffu copi os yw'n well gennych—neu galleg argraffu dim ond ychydig dudalennau. Dyna'r ffordd ymlaen—symud at y math hwnnw o gymdeithas ddi-bapur. Yn y Cynulliad, ar yr amod bod Cadeiryddion pwylgorau'n cytuno, mae Aelodau'n cael mynd â'u gliniaduron gyda hwy i allu gweld yr adroddiadau sy'n cael eu hanfon. Bydd yn defnyddio llai o garbon yn ogystal â lleihau costau, ac mae hynny'n flaenoriaeth.

In 2009-10, energy consumption across the Commission estate fell by 14.6 per cent, which meant a 5 per cent saving in the energy budget. I do not have the financial figures for that, but I will certainly get them for you, because that will be of interest to everyone, and encourage us all to use e-mail. As I said, there are challenges in working that way as well. Thank you for the question.

Yn 2009-10, bu 14.6 y cant o ostyngiad yn y defnydd o ynni ar draws ystâd y Comisiwn. Roedd hynny'n golygu 5 y cant o arbediad yn y gyllideb ynni. Nid oes gennyf y ffigurau ariannol ar gyfer hynny, ond byddaf yn sicr yn eu cael ichi, gan y bydd hynny o ddiddordeb i bawb, ac yn annog pob un ohonom i ddefnyddio'r e-bost. Fel y dywedais, ceir heriau wrth weithio yn y ffordd honno hefyd. Diolch am eich cwestiwn.

### **Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant The Enterprise and Learning Committee's Report on Young People not in Education, Employment or Training**

*Cynnig NDM4626 Gareth Jones*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2010.*

*Motion NDM4626 Gareth Jones*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Notes the Enterprise and Learning Committee's report on Young People Not in Employment, Education or Training which was laid in the Table Office on 15 October 2010.*

**Gareth Jones:** Cynigiaf y cynnig.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, nid wyf yn cael unrhyw fodhad o agor y ddadl hon ar ein hadroddiad drwy ddweud bod bron i 70,000 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant—sef, un o bob pum person ifanc.

**Gareth Jones:** I move the motion.

As Chair of the Enterprise and Learning Committee it gives me no pleasure to open this debate on our report by saying that nearly 70,000 young people aged 16 to 24 in Wales are not in education, employment or training—namely, one young person in every five.

Cawsom dystiolaeth rymus iawn yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys ymweliad â chanolfan Info-Nation yn Abertawe—cefais innau gyfle hefyd i ymweld â Youth Gateway, sef canolfan gyffelyb yn Llandudno—i siarad â phobl ifanc am eu safbwytiau a'u profiadau yn uniongyrchol. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r holl bobl a roddodd o'u hamser ac a wnaeth yr ymdrech i roi dystiolaeth i ni.

Yr oedd ein hymchwiliad yn amserol gan fod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cynnal ymchwiliad i ddarpariaeth ei adran ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yr ydym wedi derbyn datganiad y Gweinidog ar y mater hwn y bore yma. Hoffwn groesawu'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog hyd yma a'r ffordd gadarnhaol yr aeth i'r afael â'n hymchwiliad ac argymhellion ein hadroddiad. Yr wyf yn siŵr bod ein gwaith o gymorth wrth arwain at y datganiad y bore yma oherwydd y mae rhai o'r pwyntiau y rhoddasom sylw iddynt yn ein hargymhellion wedi'u hymgorffori yn y datganiad, ac yr wyf yn falch o ddeall hynny.

Felly, hoffwn droi at rai o'r 18 argymhelliaid. Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn 12 ohonynt fel y maent a chwech ohonynt mewn egwyddor. Yr oedd yn amlwg i ni yn fuan fod angen gwella'r ffordd y caiff data eu casglu a'u defnyddio yn y maes hwn—nid yn unig i ddarparu ystadegau mwy cynhwysfawr a diweddar ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ond er mwyn dod o hyd i gyfleoedd hyfforddi a swyddi sy'n gweddud i'r bobl ifanc hynny.

3.50 p.m.

Daeth hefyd i'r amlwg, oherwydd bod y pwnc hwn yn pontio ystod eang o feysydd polisi ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig, fod y system bresennol o ddarpariaeth ar gyfer y bobl ifanc hyn yn rhy gymhleth, ac nad yw'r nifer fawr o asiantaethau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny wedi eu cydgylltu'n dda iawn. Er enghraifft, nid oes un strategaeth gyffredinol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, er fy mod ar ddeall y bydd cynllun gweithredu newydd y

We heard some very powerful evidence during this inquiry, including a visit to the Info-Nation centre in Swansea—I also had an opportunity to visit Youth Gateway, which is a similar centre in Llandudno—where we spoke to young people about their views and experiences directly. I am most grateful to all those who gave of their time and who made the effort to provide us with evidence.

Our inquiry was timely as the Minister for Children, Education and Lifelong Learning was carrying out a review of his department's provision for young people who are not in education, employment or training. We have received the Minister's statement on this matter this morning. I would like to welcome the action taken by the Minister to date and the constructive way in which he approached both our inquiry and the recommendations of our report. I am certain that our work has been of assistance in informing this morning's statement because some of the points that we highlighted in our recommendations are incorporated in that statement, and I am very pleased to understand that that is the case.

I would like therefore to turn to some of the 18 recommendations. I am pleased that the Government has accepted 12 outright and six in principle. It soon became apparent to us that data collection and utilisation in this area must be improved—not only to provide more comprehensive and up-to-date statistics on young people who are not in education, employment or training, but also in matching those young people with job and training opportunities.

It also became apparent that because this subject cuts across a wide range of policy areas at both the Welsh and United Kingdom levels, the current system of provision for these young people is overly complicated, and the very many agencies involved in providing those services are not well co-ordinated. There is currently, for example, no overall strategy for young people aged 16 to 24, although I am given to understand that the Minister's new youth engagement and

Gweinidog ar gyfer ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn cywiro'r sefyllfa honno. Eto, yr oedd cyfeiriad at hynny yn ei ddatganiad y bore yma. Mae hefyd fyrrd o strategaethau mwy lleol a sawl haen o ragleni a phrosiectau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gwnaed argraff dda arnom gan y dulliau wedi'u targedu, amlasiantaethol ac ymyraethol a fabwysiadwyd yn Abertawe, lle mae'n ymddangos bod yr awdurdod lleol yn dod â'r holl feisydd gwahanol ynghyd ac yn canolbwytio ar anghenion unigol pobl ifanc. Felly, yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad i werthuso'r dulliau presennol o weithio ledled Cymru er mwyn datblygu model o arfer gorau a chyfarwyddyd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a hefyd i fonitro'r gwasanaethau hynny.

Yr wyf hefyd yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr angen i ddatblygu continwwm hirach o gefnogaeth. Os deallais yn iawn o'r rhagymadrodd i'r datganiad y bore yma, bydd continwwm hir o gefnogaeth, nid yn unig i gysylltu polisiau ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, ond hefyd i fynd i'r afael â'r ffaith, fel yr ydym wedi clywed mewn sgyrsiau â phobl ifanc yn Abertawe a Llandudno, y gall pobl ifanc ymddieithrio o ddysgu lawer yn gynharach na hynny—yn yr ysgol gynradd, hyd yn oed. Mae'r gost o ymyrryd yn gynnar yn gymharol isel o'i chymharu â'r gost hirdymor i gymdeithas o beidio â mynd i'r afael â'r materion hynny.

O ran ein hargymhelliad i Lywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o ehangu arfer da rhagleni a ddarperir gan sefydliadau trydydd sector ledled Cymru, dywedodd y Gweinidog fod adolygiad ar waith i fesur y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o fod felly. Edrychaf ymlaen at glywed y Gweinidog yn dweud mwy wrthym am yr adolygiadau a sut y byddant yn arwain at system fwy cydgysylltiol a sym, fel y dywed y bydd yn digwydd.

Yr oedd y pwylgor yn pryderu o glywed am

employment action plan will redress that situation. Again, that was referred to in this morning's statement. There are also a myriad of more local strategies and several layers of programmes and projects for tackling the issue.

We were impressed with the targeted, multi-agency and interventionist approach that has been adopted in Swansea, where the local authority seems to be bringing together all the different strands and is focusing on the individual needs of young people. I am therefore glad that the Minister accepted our recommendation to evaluate existing approaches across Wales in order to develop a model of best practice and guidance to deliver and monitor effective services for young people not in education, employment or training.

I am also pleased that the Minister accepted the need to develop a longer continuum of support. If I understood the preamble to this morning's statement, there will be a long continuum of support, not only to join up policies for 16 to 24 year-olds who are not in education, employment or training, but to address the fact that, as we heard from our conversations with young people in Swansea and Llandudno, disengagement can set in much earlier than that—even in primary school. The cost of early intervention is relatively modest compared with the long-term costs to society of not addressing those issues.

Regarding our recommendation for the Welsh Government to consider how best to extend the good practice of programmes run by third sector organisations across the whole of Wales, the Minister replied that a review is currently under way to map the provision available to young people who are, or are at risk of becoming, not in education, employment or training. I look forward to the Minister telling us more about that review and how exactly it will result in greater co-ordination and streamlining of the system, as he says it will.

My committee was concerned to hear about

y syndrom ‘drysau troi’, pan gaiff pobl ifanc eu gwthio o un darparwr i’r llall heb symud ymlaen. Felly, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio â’i phartneriaid yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector i gynnwys cyflogwyr yn gynnar yn y broses, wrth weithio gyda dysgwyr, hyfforddwyr dysgu ac eraill. Dylid gwneud hynny er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiol o helpu pobl ifanc i symud ymlaen i sicrhau cyflogaeth neu gyfleoedd am brentisiaeth, ac yn enwedig wrth ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Derbyniodd y Gweinidog ein hargymhelliad, ond byddem yn croesawu mwy o wybodaeth ganddo ar sut y bydd yn ymateb yn benodol i’r pwyslais a roddwyd gennym ar y ddarpariaeth o ddysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

ffurf, gan gynnwys goddefol, gweithredol, a foltäig. Rhaid inni ystyried cynnrych microgynhyrchu a'r un mawr ar gyfer ein gwlad ni, sef ynni adnewyddadwy morol. Maent i gyd yn ffynonellau ynni adnewyddadwy posibl. Mae bron bob un ohonynt yn ymddangos rhywle mewn dogfen gan y Llywodraeth, ond nid yw'r mwyafrif ohonynt yn cael unrhyw gymorth i'w rhoi ar waith. Mae angen ein cymorth a'n hadnoddau ar y diwydiannau ifanc hynny. Mae'r Alban wedi ymrwymo i godi ei tharged ar gyfer ynni adnewyddadwy fel y bydd 80 y cant o'i hynni yn cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae'n werth gweld beth mae'r wlad honno, sydd ond ychydig yn fwy na'n gwlad ni, ac sydd â phroblemau tebyg, wedi ei wneud i ddod o hyd i arian ar gyfer targed uchelgeisiol ac i flaenoriaethu ei hymrwymiad fel rhan o waith cynllunio ymlaen llaw.

Mae ffigurau a gafwyd gan Darren Millar yn dangos bod ffermydd gwynt ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad wedi gwneud dros £8 miliwn o arian yn 2010, a disgwylir iddynt gynhyrchu £20 miliwn arall erbyn 2013. Nid yw'n anodd gweld, felly, pam mae ynni gwynt yn atyniadol. Fodd bynnag, lle mae'r arian hwnnw'n cael ei wario? A fyddai modd ei ddefnyddio i ariannu a datblygu canolfan ynni morol? Edrychwch ar Ynysoedd Orkney, sydd eisoes yn cael eu hystyried yn brif ganolfan ynni adnewyddadwy y DU. Mae Cernyw a'i chyfleusterau ymchwil a datblygu morol uchelgeisiol yn enghraifft arall.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn hoffi gweld gwaith ymchwil pellach yn cael ei gynnwl i addasrwydd adnoddau eraill yng Nghymru. Fel rwyf wedi crybwyl o'r blaen yn y Siambr, credaf yn gryf fod Ynys Môn a sir Benfro yn cynnig cyfleoedd cryf i sefydlu canolfannau ynni morol, lle byddai modd defnyddio ynni adnewyddadwy naturiol y llanw a'r trai o amgylch ein glannau. Byddai'r Ceidwadwyr yn rhoi cyfle i ddatblygwyr brofi prototeipiau maint llawn o'u dyfeisiau, a fyddai'n cael eu cysylltu â'r grid cenedlaethol, mewn amodau tonnau a llanw. Byddem yn rhoi cyfle i feithrin gwaith ymchwil a datblygu, ac yn cynnig cefnogaeth gan y Llywodraeth i alluogi'r busnesau hynny i dyfu, drwy sicrhau bod adnoddau eraill

facilities are available, such as substations for hook-up, two-way data feeds for the safe interrogation and collection of data, and sub-sea cables to enable such connections.

I note that the Department of Energy and Climate Change is funding the development of nursery berths in Scotland for small-scale prototypes of wave and tidal devices that need to be tested in far gentler waters than the roar of the Ramsey sound or the Menai straits. Did we approach DECC? Did it approach us? Does it know of our ambitions? Who are we telling? What fight are we putting up, Minister, in our bid for Wales to become the renewable capital of the UK, Europe and the world? I am aware of some investment in marine energy by the Assembly Government. However, I believe that these areas offer exceptional environments for further developing and deploying renewable energy technologies, while having the potential to create employment opportunities.

I realise that I am running out of time, and so I will touch briefly on ‘A Low Carbon Revolution’. We welcome the principle behind the Government’s low-carbon revolution policy; however, we believe that the approach is idealistic and does not grasp the reality of the situation. Furthermore, it was published in March 2010, which was far too late to meet any of the aspirations and targets that have already been stated. We needed the document ages ago to enable us to get there.

I want to leave my colleagues time to wind up, so I will touch only briefly on the Government’s amendment 1. I will end my contribution today with a few points on that amendment and the wording of the Welsh Conservatives’ motion. We are disappointed by the Government’s failure to meet the target. The Government is not able to welcome progress, but has noted it. We are all aware that not enough progress was made to meet WAG’s 2010 target. We, too, could welcome the Government’s ambition, if we felt that it was realistic and deliverable. There is nothing wrong with setting ambitious

angenrheidiol ar gael, fel is-orsafoedd ar gyfer cysylltu cyflenwadau, offer bwydo data ddwy-ffordd ar gyfer casglu a dadansoddi data’n ddiogel, a cheblau ar waelod y môr i wneud cysylltiadau o’r fath yn bosibl.

Nodaf fod yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd yn ariannu’r gwaith o ddatblygu angorfeydd bach yn yr Alban ar gyfer prototeipiau bach o ddyfeisiau tonnau a llanw sydd angen eu profi mewn dyfroedd dipyn tawelach na’r Ramsey neu’r Fenai. A wnaethom holi’r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd? A wnaeth yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ddod atom ni? A yw’n gwybod am ein dyheadau? Wrth bwy rydym yn sôn? Sut siâp sydd ar ein brwydr, Weinidog, wrth inni geisio gwneud Cymru’n brif wlad gynaliadwy y DU, Ewrop a’r byd? Rwyf yn gwybod bod Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi rhywfaint mewn ynni morol. Fodd bynnag, credaf fod yr ardaloedd hyn yn cynnig amgylchiadau eithriadol ar gyfer rhagor o ddatblygu a defnyddio technolegau ynni adnewyddadwy, ac mae'r gallu ganddynt ar yr un pryd i greu cyfleoedd gwaith.

Rwyf yn sylweddoli bod amser yn brin, felly soniaf yn gryno am ‘Chwydro Carbon Isel’. Rydym yn croesawu’r egwyddor sydd wrth wraidd polisi chwydro carbon isel y Llywodraeth; fodd bynnag, credwn fod yr agwedd yn ddelfrydyddol ac nad yw'n deall realiti'r sefyllfa. Ar ben hynny, cafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2010, a oedd yn rhy hwyr o lawer i fodloni unrhyw un o'r dyheadau a'r targedau a nodwyd eisoes. Roedd arnom angen y ddogfen oes yn ôl er mwyn ein galluogi i gyrraedd y nod.

Rwyf am roi cyfle i'm cyd-Aelodau barhau â'r mater, felly soniaf yn gyflym am welliant 1 y Llywodraeth. Rwyf am ddod â'm cyfraniad i ben heddiw gydag ychydig o bwyntiau am y gwelliant hwnnw ac am y modd y mae cynnig y Ceidwadwyr Cymreig wedi'i eirio. Rydym yn siomedig nad yw'r Llywodraeth wedi llwyddo i gyrraedd y targed. Nid yw'r Llywodraeth yn gallu croesawu cynnydd, ond mae wedi ei nodi. Rydym i gyd yn ymwybodol nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i gyrraedd targed 2010 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddem ninnau hefyd yn gallu croesawu dyhead y Llywodraeth, pe

targets if you are able to plan and deliver on them. This Government has proved that it can do neither.

baem yn teimlo ei fod yn realistig a bod modd ei gyflawni. Nid oes dim o'i le ar osod targedau uchelgeisiol os ydych yn gallu cynllunio ar eu cyfer a'u cyflwyno. Mae'r Llywodraeth hon wedi profi nad yw'n gallu gwneud y naill na'r llall.

4.50 p.m.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Dileu'r cyfan ac yn ei le rhoi:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth ddefnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru ac yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella targedau ynni adnewyddadwy drwy 'Chwyldro Carbon Isel—Datganiad Polisi Ynni i Gymru'.*

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** I move amendment 1.

**Darren Millar:** I welcome the opportunity to speak in this important debate this afternoon. There is no doubt that climate change, as Angela Burns has quite rightly said, is one of the biggest challenges that we face, not only as a nation but globally, and we expect there to be massive environmental consequences even in Wales. In particular, we are seeing wetter weather as a consequence of climate change as well as rising sea levels. We know that the Environment Agency has today issued severe flood warnings across large parts of the country. In my constituency, places like Towyn, Kinmel Bay and other coastal areas have experienced devastating flooding in the past. We all agree that we must take some action to minimise these risks. That is why we have tabled this debate on renewable energy.

As Angela has said, the Assembly Government has already missed its target to produce 4 TWh from renewable sources by 2010 by over 1 TWh, which is in stark contrast to countries such as Sweden, which

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Delete all and replace with:*

*The National Assembly for Wales:*

*Notes the progress made so far in the deployment of renewables in Wales and welcomes the Welsh Assembly Government's ambition in increasing renewable energy targets through the 'A Low Carbon Revolution—the Energy Policy Statement for Wales'.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Cynigiaf welliant 1.

**Darren Millar:** Rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Nid oes amheuaeth nad yw newid yn yr hinsawdd, fel y dywedodd Angela Burns yn briodol iawn, yn un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu, nid yn unig fel gwlad, ond yn fydeang, ac rydym yn disgwyl canlyniadau amgylcheddol enfawr hyd yn oed yng Nghymru. Yn benodol, rydym yn gweld tywydd gwlypach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, ac mae lefel y môr yn codi hefyd. Rydym yn gwybod bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi rhybuddion llifogydd difrifol heddiw mewn rhannau helaeth o'r wlad. Yn fy etholaeth i, mae lleoedd fel Towyn, Bae Cinmel ac ardaloedd arfordirol eraill wedi dioddef llifogydd dinistriol yn y gorffennol. Rydym i gyd yn cytuno ei bod yn rhaid inni weithredu er mwyn lleihau'r risgau hyn. Dyna pam rydym wedi cyflwyno'r ddadl hon ar ynni adnewyddadwy.

Fel y dywedodd Angela, mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes dros 1 TWh yn brin o gyrraedd ei tharged i gynhyrchu 4 TWh o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Mae hynny'n wrthgyferbyniad llwyr i

is already producing more than 44 per cent of its energy needs from renewable sources. The real reason that the target was missed was the overemphasis on wind technology to achieve that target. Unsurprisingly, there is very often significant resistance from communities to wind projects. The planning process, which lends itself to huge windfarms located around specific, and very often small, rural communities really does significant damage to the quest of the Assembly Government, which is the right quest, to make sure that we are less dependent on oil and technologies that are based on fossil fuels in order to deliver sufficient energy to meet our needs.

We already have 33 onshore windfarms in Wales, a significant number of which are in my constituency or which are planned for my constituency, where we have a TAN 8 strategic search area. Given the fierce local opposition, Minister, the planning policy needs to be looked at. The fact that we have strategic search areas that are very often in the wrong place means that other opportunities to develop windfarms with communities that want them developed alongside them—and that is the case in some places—do not get a look in and developers are not encouraged to make applications in those particular areas.

In my constituency, the Clocaenog forest is a strategic search area and many windfarms have been planned for that locality. However, this is having a detrimental impact on the communities that are located in and around the Clocaenog forest. It is having an impact on tourism. There is a fantastically successful tourism project in and around the Llandegla forest, which is just a little further down the road in my constituency, but the Clocaenog forest is suffering as a result of the windfarms that are being developed. I want to stress, Minister, that I am trying to take an objective view. I am trying to look after the interests of my constituents while recognising that we have to achieve these renewable energy targets. However, we cannot put all of our eggs in this one windfarm basket; we have to have a broad range of renewable technologies that we can rely on in the future.

wledydd fel Sweden, sydd eisoes yn cynhyrchu mwy na 44 y cant o'i hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Y rheswm go iawn dros fethu â chyrraedd y targed yw bod gormod o bwyslais wedi cael ei roi ar dechnoleg gwynt. Nid yw'n syndod bod cymunedau mor barod i wrthwynebu prosiectau gwynt yn aml iawn. Mae'r broses gynllunio, sy'n cynnig ei hun i ffermydd gwynt enfawr o amgylch cymunedau penodol sy'n aml yn fach ac yn wledig, yn gwneud llawer o niwed i ymgyrch Llywodraeth y Cynulliad—sef yr ymgyrch briodol—i wneud yn siŵr ein bod yn llai dibynnol ar olew a thechnolegau sy'n seiliedig ar danwyddau ffosil er mwyn darparu digon o ynni i ddiwallu ein hanghenion.

Mae gennym eisoes 33 o ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru, ac mae cryn dipyn ohonynt wedi'u lleoli yn fy etholaeth i, neu wedi'u cynllunio ar gyfer fy etholaeth i, gan fod gennym ardal chwilio strategol TAN 8. O ystyried y gwrthwynebiad chwyrn yn lleol, Weinidog, mae angen edrych ar y polisi cynllunio. Mae'r ffaith bod gennym ardaloedd chwilio strategol sydd yn aml iawn yn y lle anghywir yn golygu bod cyfleoedd eraill i ddatblygu ffermydd gwynt gyda chymunedau sydd am eu gweld yn cael eu datblygu—ac mae hynny'n wir mewn rhai mannau—yn cael eu hepgor, ac nid yw datblygwyr yn cael eu hannog i wneud ceisiadau yn yr ardaloedd penodol hynny.

Yn fy etholaeth i, mae coedwig Clocaenog yn ardal chwilio strategol, a bwriedir codi sawl fferm wynt yn yr ardal honno. Fodd bynnag, mae hyn yn cael effaith niweidiol ar y cymunedau sydd wedi'u lleoli yng nghoedwig Clocaenog ac o'i hamgylch. Mae'n effeithio ar dwristiaeth. Ceir prosiect twristiaeth anhygoel o lwyddiannus yng nghoedwig Llandegla ac yn yr ardal gyfagos, sydd ond ychydig i lawr y lôn yn fy etholaeth i, ond mae coedwig Clocaenog yn dioddef o ganlyniad i'r ffermydd gwynt sy'n cael eu datblygu. Rwyf am bwysleisio, Weinidog, fy mod yn ceisio edrych ar hyn mewn ffordd wrthrychol. Rwyf yn ceisio gwarchod buddiannau fy etholwyr a chyd nabod ar yr un pryd ei bod yn rhaid inni gyrraedd y targedau ynni adnewyddadwy hyn. Fodd bynnag, ni allwn roi ein wyau i gyd yn yr un fasged fferm wynt hon; rhaid inni gael ystod eang o

dechnolegau adnewyddadwy y gallwn ddibynnu arnynt yn y dyfodol.

As Angela has quite rightly said, Wales can be the global leader in some of these technologies, particularly when you look at the tidal ranges around our country and the opportunities to generate energy from the significant tides that we have. We also have the opportunity to combine energy projects with flood-defence projects. I am thinking specifically of Towyn and Kinmel Bay in my constituency. I asked you to visit the constituency to look at opportunities to generate energy from flood defences. Unfortunately, you declined my invitation and I hope that you will reconsider that. It is important to look for opportunities to combine flood defence infrastructure with energy regeneration projects, where possible, to reduce costs and to make energy generation far more viable in the future. I hope, Minister, that you will take on board the comments that we have made in the Chamber today, that you will broaden the base of the renewable technologies that you will look at, and that we will not have this focus on only wind technologies in the future.

**Brian Gibbons:** When I saw the title of this debate in the name of the Welsh Conservatives, I was very much reminded of the schoolteacher who said, ‘Must do better,’ but who took away the pupil’s pen, pencil and textbook before sending the pupil away with a flea behind the ear. If you look at what the Conservatives and their Liberal Democrat allies in Westminster are doing, you will see that most of what we have heard so far is pretty hollow rhetoric. It was the Westminster Government that pulled the plug on the Severn barrage, which would go a long way to meeting many of the targets that we heard outlined in Angela Burns’s contribution. [Interruption.]

**The Deputy Presiding Officer:** I do not think that he is taking interventions at the moment.

**Brian Gibbons:** Equally, the Westminster Government has seriously underprovided for the Green Investment Bank: £1 billion as

Fel y dywedodd Angela yn briodol iawn, gall Cymru fod yn arweinydd byd-eang yn rhai o'r technolegau hyn, yn enwedig pan edrychwr ar amrediadau llanw o amgylch ein gwlaid a'r cyfleoedd i gynhyrchu ynni o'r llanwau sylweddol sydd gennym. Mae gennym hefyd gyfleoedd i gyfleoedd i gynhyrchu ynni o amddiffyn rhag llifogydd. Rwyf yn meddwl yn benodol am Tywyn a Bae Cinmel yn fy etholaeth. Gofynnais ichi ymweld â'r etholaeth i edrych ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Yn anffodus, ni dderbynioch fy ngwahoddiad ac rwyf yn gobeithio y byddwch yn alystyried hynny. Mae'n bwysig chwilio am gyfleoedd i gyfleoedd i seilweithiau amddiffyn rhag llifogydd gyda phrosiectau adfywio ynni, lle bo modd, i leihau costau ac i wneud cynhyrchu ynni yn fwy ymarferol o lawer yn y dyfodol. Rwyf yn gobeithio, Weinidog, y byddwch yn ystyried y sylwadau a wnaed gennym yn y Siambra heddiw, y byddwch yn ehangu sylfaen y technolegau adnewyddadwy y byddwch yn edrych arnynt, ac y bydd gennym fwy o ffocws na dim ond technolegau gwyt yn y dyfodol.

**Brian Gibbons:** Pan welais deitl y ddadl hon yn enw'r Ceidwadwyr Cymreig, cefais fy atgoffa o'r athro ysgol a ddywedodd ‘Rhaid gwneud yn well,’ cyn cymryd beiro, pensil a gwerslyfr y disgybl a'i anfon ymaith yn benisel. Os ydych yn edrych ar yr hyn y mae'r Ceidwadwyr a'u cynghreiriaid ym mhlaid y Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn ei wneud, byddwch yn gweld mai rhethreg eithaf disylwedd yw'r rhan fwyaf o'r hyn rydym wedi ei glywed hyd yn hyn. Llywodraeth San Steffan a roddodd ddiwedd ar gynllun Morglawdd Hafren, a fyddai'n cyfrannu llawer iawn at y gwaith o gyrraedd y targedau y clywsm Angela Burns yn eu hamlinellu yn ei chyfraniad. [Torri ar draws.]

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid wyf yn credu ei fod yn derbyn ymyriadau ar hyn o bryd.

**Brian Gibbons:** Yn yr un modd, nid yw Llywodraeth San Steffan wedi darparu digon o bell ffordd ar gyfer y Banc Buddsoddi

compared to the £2 billion offered by Alistair Darling. Indeed, Alistair Darling was himself criticised for underproviding in relation to the Green Investment Bank.

Equally, we have a UK Government that is still sitting on its position in relation to the renewables obligation, community heat projects and carbon pricing. There has been no action. How is the use of renewable energy ever going to happen in the United Kingdom if there is no clear Government steer on that? One of the key things that would contribute to a reduction in carbon emissions in the transport field is the electrification scheme for the London to Swansea railway line, which is still on red. We wait, somewhat pessimistically, to get another ‘Nyet’ from the Westminster Government in relation to that.

If we look at what is outlined in the UK Government’s proposals on renewable energy, what do we see? We see a reference to anaerobic digestion. I do not see that making a massive contribution. We see a reference to marine energy, which we know has not really reached the prototype stage and is certainly not going to come on stream in anything like the near future—no pun intended. We see a reference to community wind generation. This may make a modest contribution, but it is certainly not going to lead us to achieve the type of targets that are necessary. I welcome the reference to nuclear energy and to progress in clean coal carbon sequestration. They are good sources of energy when trying to reduce carbon emissions, but they certainly do not constitute renewable energy by anyone’s definition. Therefore, virtually all of what we have heard from the opposition has to be seen as political posturing that is of no substance.

We need to acknowledge that moving renewable energy projects forward is not easy. A number of the opposition’s contributions bear that out. In Port Talbot yesterday, the council planning committee decided not to lodge an objection to the 79 turbines proposed as part of the Penycymoedd windfarm proposal. This proposal has met with a lot of resistance from

Gwyrdd: £1 biliwn o'i gymharu â'r £2 biliwn a gynigiwyd gan Alistair Darling. Yn wir, cafodd Alistair Darling ei hun ei feirniadu am beidio â darparu digon ar gyfer y Banc Buddsoddi Gwyrdd.

Yn yr un modd, mae Llywodraeth y DU yn dal yn ddisymud yng nghyswllt ei hymrwymiad i ynni adnewyddadwy, prosiectau gwres cymunedol a phrisio carbon. Nid oes dim camau wedi cael eu cymryd. Sut mae'r Deyrnas Unedig byth am ddefnyddio ynni adnewyddadwy os nad oes gan y Llywodraeth gyfeiriad clir ar gyfer hynny? Un o'r pethau allweddol a fyddai'n cyfrannu at leihau allyriadau carbon ym maes trafnidiaeth yw cynllun trydaneiddio'r rheilffordd rhwng Llundain ac Abertawe, sydd yn dal ar olau coch. Rydym yn aros, yn besimistaidd braidd, am gael 'Na' arall gan Lywodraeth San Steffan mewn perthynas â hynny.

Os edrychwn ar yr hyn a amlinellir yng nghynigion Llywodraeth y DU ar ynni adnewyddadwy, beth welwn ni? Gwelwn gyfeiriad at dreuliad anaerobig. Nid wyf yn gweld hynny'n gwneud cyfraniad aruthrol. Gwelwn gyfeiriad at ynni morol, y gwyddom nad yw wir wedi cyrraedd y cam prototeip eto, ac nad yw'n mynd i ddechrau llifo yn y dyfodol agos—heb fwriad o chwarae ar eiriau. Gwelwn gyfeiriad at brosiectau gwynt cymunedol. Efallai fod hwn yn gyfraniad syml, ond yn bendant nid yw'n mynd i'n harwain at y targedau sy'n angenrheidiol. Croesawaf y cyfeiriad at ynni niwclear ac at ddatblygiadau o ran cipio carbon glo glân. Maent yn ffynhonnell dda o ynni wrth geisio lleihau allyriadau carbon, ond yn sicr ni ellir dweud eu bod yn ynni adnewyddadwy. Felly, rhaid edrych ar bron bopeth rydym wedi'i glywed gan yr wrthblaid fel ymhonni gwleidyddol nad yw o unrhyw sylwedd.

Mae angen inni gydnabod nad yw mynd â phrosiectau ynni adnewyddadwy rhagddynt yn hawdd. Mae amryw o gyfraniadau'r wrthblaid yn cadarnhau hynny. Ym Mhort Talbot ddoe, penderfynodd pwylgor cynllunio'r cyngor beidio â chyflwyno gwrthwynebiad i'r 79 tyrbin arfaethedig sy'n rhan o'r cynnig ar gyfer fferm wynt Penycymoedd. Mae'r cynnig hwn wedi bod

local communities, not least because the turbines—which are three times the size of Nelson's Column—would be within 2 metres of local communities. Equally, the biomass proposals from the Prenergy company—and I wish that someone would tell me who exactly runs that company—has met with strong resistance in the community of Port Talbot, invoking mass demonstrations, because biomass produces emissions. The notion of placing a biomass project in the centre of a built-up community that is already struggling to meet international air quality standards has not been welcomed. Many of these project developers, while wearing a green mantle, are more interested in profit maximisation and often take local communities for granted or treat them with scant respect. Often, that is the reason why communities resist them. In my constituency, a proposal from Gamesa was initially treated with hostility. However, in its latest form, it brings forward proposals that would remove the windfarms from the area of Glyncorwg and the immediate area including Abergwynfi and Blaengwynfi villages. So, these companies have shown a willingness to respect and listen to local communities, and those proposals are more likely to be accepted in the near future.

yn destun llawer o wrthwynebiad gan gymunedau lleol, yn bennaf gan y byddai'r tyrbinau—sydd yn dair gwaith maint Colofn Nelson—yn dod o fewn 2 fetr i gymunedau lleol. Yn yr un modd, mae'r cynigion biomas gan gwmni Prenergy—a hoffwn pe bai rhywun yn gallu dweud wrthyf pwy yn union sy'n rhedeg y cwmni hwnnw—wedi bod yn destun gwrthwynebiad cryf yng nghymuned Port Talbot, ac wedi arwain at arddangosiadau ar raddfa fawr gan fod biomas yn cynhyrchu allyriadau. Nid oes llawer o groeso wedi cael ei roi i brosiect biomas yng nghanol cymuned adeileledig sydd eisoes yn ei chael yn anodd cwrdd â safonau ansawdd aer rhyngwladol. Gan gymryd arnynt eu bod yn wyrdd, mae gan nifer o'r rheini sy'n datblygu'r prosiectau fwy o ddiddordeb mewn sicrhau'r elw mwyaf posibl, a byddant yn aml yn cymryd cymunedau lleol yn ganiataol neu ddim yn dangos llawer o barch tuag atynt. Yn aml, dyna'r rheswm pam mae'r cymunedau'n eu gwrthwynebu. Yn fy etholaeth i, roedd pobl yn ddig gyda chynnig gan Gamesa ar y dechrau. Fodd bynnag, ar ei ffurf ddiweddaraf, mae'n cyflwyno cynigion a fyddai'n symud y ffermydd gwynt o ardal Glyncorwg a'r dalgylch, gan gynnwys pentrefi Abergwynfi a Blaengwynfi. Felly, mae'r cwmnïau hyn wedi dangos parodrwydd i barchu a gwrando ar gymunedau lleol, ac mae'r cynigion hynny'n fwy tebygol o gael eu derbyn yn y dyfodol agos.

5.00 p.m.

**Mark Isherwood:** Is climate change a reality? Yes, it is. Is global warming a reality? Geological records tell us that there have been periods of global warming and cooling throughout time. Is climate change caused by carbon dioxide? Geological data tell us that global warming causes an increase in atmospheric carbon dioxide, not the reverse. Do the overwhelming majority of scientists agree that human behaviour is responsible for climate change? No, they do not. However, does this mean that we do not need to invest in and support a variety of renewable energy forms? Absolutely not. Whatever the realities of climate change, renewable energy is essential for two reasons: increasing levels of fuel poverty and the increasing threat to energy security. Although

**Mark Isherwood:** A yw newid yn yr hinsawdd yn realiti? Ydy. A yw cynhesu byd eang yn realiti? Mae cofnodion daearegol yn dweud wrthym y bu cyfnodau o gynhesu ac oeri byd-eang ers dechrau amser. Ai carbon deuocsid sy'n achosi newid yn yr hinsawdd? Mae data daearegol yn dweud wrthym fod cynhesu byd-eang yn achosi cynnydd yn y carbon deuocsid atmosfferig, nid i'r gwrthwyneb. A yw'r mwyaf llethol o wyddonwyr yn cytuno mai ymddygiad pobl sy'n gyfrifol am newid yn yr hinsawdd? Nac ydynt. Fodd bynnag, a yw hyn yn golygu nad oes angen inni gefnogi a buddsoddi mewn gwahanol ffurfiâu o ynni adnewyddadwy? Yn bendant ddim. Beth bynnag yw realiti newid yn yr hinsawdd, mae ynni adnewyddadwy yn hanfodol am ddua reswm:

fuel poverty has many contributory factors, paramount among these are price, income and energy inefficiency.

Supplies of fossil fuels are under increasing pressure, resulting in higher energy prices and concerns about the security of energy supply. Planned power station decommissioning will remove 37 per cent of UK energy generating capacity. The International Energy Agency says that production of conventional crude oil peaked in 2006, and, last November, the EU energy chief stated that the amount of oil available globally has already peaked. In fact, pessimistic predictions forecast that falling reserves and supply have threatening political, economic and social implications.

The UK must, therefore, end its reliance on foreign energy imports, and Wales, with an abundance of natural resources, is well placed to become a renewable energy hub. The Welsh Government's failure to achieve its renewable energy target is consequently deeply concerning. Its approach to renewable energy has been unsustainable. Too much emphasis has been placed on wind energy, and the planning process has been deeply flawed. The Welsh Government's technical advice note 8 on renewable energy has made it even more difficult to develop projects, discouraging investment. Perhaps we should not be surprised that an analysis of more than 1,200 responses to the Welsh Government's consultation on TAN 8 revealed that only two supported the location of the strategic search areas. However, the Welsh Government told council chief planning officers and chairs of planning at a 2007 seminar that

'saying no to most wind farms in SSAs is not an option.'

As temperatures plunged below zero and demand for electricity soared during the coldest spells in December, most of the UK's

y cynnydd mewn lefelau tlodi tanwydd a'r bygythiad cynyddol i sicrwydd ynni. Er bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at dodzi tanwydd, mae pris, incwm ac aneffeithlonrwydd ynni yn amlwg ymhlih y rhain.

Mae cyflenwyr tanwydd ffosil o dan bwysau cynyddol, ac mae hynny'n arwain at brisiau ynni uwch a phryderon yngylch sicrwydd cyflenwadau ynni. Bydd y bwriad i ddatgomisiynu gorsafoedd pŵer yn dileu 37 y cant o gapasiti cynhyrchu ynni'r DU. Yn ôl yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol, roedd cynhyrchu olew crai confensiynol yn ei anterth yn 2006, a fis Tachwedd diwethaf, dywedodd prif swyddog ynni'r UE fod cyfanswm yr olew sydd ar gael drwy'r byd wedi cyrraedd ei uchafbwynt yn barod. Yn wir, mae rhagfynegiadau pesimistaidd yn rhagweld y bydd goblygiadau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol wrth i'r cyflenwad a'r cronfeydd wrth gefn ostwng.

Felly, rhaid i'r DU roi diwedd ar ei dibyniaeth ar fewnforio ynni o dramor ac mae Cymru, gyda'i holl adnoddau naturiol, mewn sefyllfa dda i ddod yn ganolfan ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd ei tharged ynni adnewyddadwy yn destun pryder go iawn o ganlyniad. Mae ei hymagwedd at ynni adnewyddadwy wedi bod yn anghynaliadwy. Mae gormod o bwyslais wedi cael ei roi ar ynni gwynt, ac mae'r broses gynllunio wedi bod yn ddiffygol iawn. Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru ar ynni adnewyddadwy wedi ei gwneud yn anoddach byth i ddatblygu prosiectau, gan annog pobl i beidio â buddsoddi. Efallai nad yw'n syndod bod dadansoddiad o fwy na 1,200 o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar TAN 8 yn dangos mai dim ond dau oedd yn cefnogi lleoliad yr ardaloedd chwilio strategol. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth brif swyddogion cynllunio'r cyngor a chadeiryddion pwylgorau cynllunio mewn seminar yn 2007:

nid yw'n opsiwn dweud na wrth ffermydd gwynt mewn ardaloedd chwilio strategol.

Wrth i'r tymheredd ddisgyn o dan sero ac wrth i'r galw am drydan gynyddu'n ddychrynllyd yn ystod cyfnodau oeraf mis

wind turbines were virtually still, forcing the national grid to crank up conventional coal-fired power stations and gas-fired power stations. Regardless of how much wind power is installed, you have to have the same amount of conventional stations ready to switch on if the wind fails. Some in the wind industry have said that, if the wind drops, we can import energy from overseas. However, what they did not say is that, when freezing weather conditions left windfarms unable to cope, we are forced to rely on power imported from French nuclear plants. Therefore, in this context, I welcome the establishment of the Wylfa new build project liaison group by Horizon Nuclear Power for discussion between community representatives and the company. I was pleased to join local community representatives at a workshop to discuss the setting up of this group in Anglesey last month.

It is vital that the environmental impact is minimised and that the safety, health and security of the public and employees are prioritised. A balanced approach must be taken to renewable energy, with investment in and support for a variety of renewable energy forms, as we heard, including biomass, hydro, wave, tidal, heat pumps and microgeneration. We must exploit the true potential of anaerobic digestion, moving from industrial-scale plants to on-farm and community schemes. It is ridiculous that a large-scale anaerobic digestion plant in Anglesey should receive planning permission despite objections by local residents when an on-farm anaerobic digester only had the go-ahead after being challenged in the High Court by the Brecon Beacons National Park planning authority, and when an on-farm anaerobic digester in Wrexham failed to overcome local planning authority objections and was forced to engage specialist solicitors—what a waste of time and money for the developer, the council and the planet. We must also ensure that wood biomass energy production does not displace existing users of wood, such as Kronospan in Chirk, which employs 600 people. We must make renewable energy work for Wales.

Rhagfyr, roedd y rhan fwyaf o dyrbiniau gwynt y DU yn llonydd fwy na heb. Yn sgîl hyn, bu'n rhaid i'r grid cenedlaethol ddefnyddio mwy o ynni o orsafoedd pŵer confensiynol sy'n cael eu tanio gan nwy neu lo. Ni waeth faint o ynni gwynt sy'n cael ei roi ar waith, rhaid ichi gael yr un faint o orsafoedd confensiynol yn barod i'w defnyddio os yw'r gwynt yn methu. Mae ambell un yn y diwydiant gwynt wedi dweud, os bydd lefel y gwynt yn gostwng, gellir mewnforio ynni o dramor. Fodd bynnag, ni wnaethant ddweud, pan nad yw ffermydd gwynt yn gallu ymdopi â'r tywydd rhewllyd, ein bod yn gorfod dibynnau ar bŵer wedi'i fewnforio o orsafoedd niwclear yn Ffrainc. Felly, yn y cyd-destun hwn, rwyf yn croesawu'rffaith bod Horizon Nuclear Power wedi sefydlu Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd er mwyn cynnal trafodaethau rhwng cynrychiolwyr o'r gymuned a'r cwmni. Roeddwn yn falch o ymuno â chynrychiolwyr y gymuned leol mewn gweithdy i drafod sefydlu'r grŵp hwn yn Ynys Môn y mis diwethaf.

Mae'n hanfodol bod yr effaith ar yr amgylchedd mor fach â phosibl, a bod diogelwch, iechyd a diogelwch y cyhoedd a'r gweithwyr yn cael eu blaenoriaethu. Rhaid cael ymagwedd gytbwys at ynni adnewyddadwy, a chefnogi a buddsoddi mewn gwahanol ffurflau o ynni adnewyddadwy, fel y clywsom, gan gynnwys biomas, ynni dŵr, ynni tonnau, ynni llanw, pympiau gwres a microgynhyrchu. Rhaid inni fanteisio ar wir botensial treuliad anaerobic, gan symud o orsafoedd ar raddfa ddiwydiannol at gynlluniau ar ffermydd ac yn y gymuned. Mae'n chwerthinllyd fod Gorsaf Treulio anaerobic fawr ar Ynys Môn yn cael caniatâd cynllunio er gwaethaf gwrthwynebiad gan drigolion lleol, pan mae system treulio anaerobic ar fferm yn gorfod cael ei herio yn yr Uchel Lys gan awdurdod cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cyn cael yr hawl i fwrw ymlaen, a phan mae system dreulio anaerobic ar fferm yn Wrecsam yn methu â goresgyn gwrthwynebiadau'r awdurdod cynllunio lleol ac yn gorfod mynd at gyfreithwyr arbenigol—sôn am wastraff amser ac arian i'r datblygwr, i'r cyngor ac i'r blaned. Rhaid inni hefyd sicrhau nad yw gwaith cynhyrchu ynni biomas pren yn cymryd lle'r rheini sy'n

defnyddio pren, fel Kronospan yn y Waun, sy'n cyflogi 600 o bobl. Raid inni sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn gweithio i Gymru.

**Kirsty Williams:** I welcome the opportunity to look very carefully at this issue today. I am sure that it is disappointing for all of us that the targets that were set in 2005 have been missed. It is equally disappointing that the Minister will tell us, I suspect—that is certainly what is outlined in the Government's amendment this afternoon—that the answer to missing these targets is simply to say, 'We will set ourselves even more ambitious targets in the future'. It is hardly credible to take that approach without stopping to look at why we have not made the progress that we all said we wanted to make. It is scarcely credible that Brian Gibbons has this afternoon blamed it all on the new Government. These targets were set in 2005—five years ago; for all but seven months of that time there has been a Labour Government in Westminster. If the barrage was that important to the Labour Party—here or at Westminster—it would have done something about it when it had the capital to do so. It is scarcely credible for Labour Assembly Members to blame it all on a Government that has been in place for just seven months. It would be much more useful to recognise that Wales is blessed with a variety of natural resources that can be harnessed, to acknowledge that there is a political will here, across parties, to harness those resources and to tackle this issue, that there are community groups and individuals who want to be a part of that solution, and that we need to look carefully at why we have failed to make progress to date, and to learn the lessons. By simply saying that we will set ourselves more ambitious targets for the future, we ensure that we will be having a similar debate in years to come, when those targets are also missed.

Much has been made by the Conservatives today of one of the reasons for missing these targets being an over-emphasis on wind energy. It is hardly surprising that there has been an emphasis on wind energy over the

**Kirsty Williams:** Rwyf yn croesawu'r cyfle i edrych yn fanwl iawn ar y mater hwn heddiw. Rwyf yn siŵr mai testun siom i bob un ohonom yw'r ffaith nad yw'r targedau a osodwyd yn 2005 wedi cael eu cyrraedd. Mae'r un mor siomedig ei bod yn bur debyg y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym—dyna'n sicr beth sydd wedi'i amlinellu yng ngwelliant y Llywodraeth y prynhawn yma—mai'r ateb i fethu â chyrraedd y targedau hyn yw dweud yn syml, 'Byddwn yn gosod targedau sydd hyn yn oed yn fwy uchelgeisiol yn y dyfodol'. Prin y gellir cymryd yr agwedd honno heb aros i edrych pam nad ydym wedi gwneud y cynnydd y dywedodd pob un ohonom ein bod am ei wneud. Mae'n anodd credu bod Brian Gibbons y prynhawn yma wedi rhoi'r bai i gyd ar y Llywodraeth newydd. Gosodwyd y targedau hyn yn 2005, bum mlynedd yn ôl; Llywodraeth Lafur sydd wedi bod yn San Steffan am y cyfnod hwnnw i gyd ac eithrio saith mis. Os oedd y morglawdd mor bwysig i'r Blaid Lafur—yma neu yn San Steffan—byddai wedi gwneud rhywbeth am y peth pan oedd ganddi'r cyfalaf i wneud hynny. Prin y gall Aelodau Llafur y Cynulliad roi'r bai i gyd ar Lywodraeth sydd wedi bod mewn grym ers dim ond saith mis. Byddai'n fwy defnyddiol o lawer cydnabod bod Cymru wedi'i bendithio ag amrywiaeth o adnoddau naturiol y gellir eu defnyddio, cydnabod bod ewyllys wleidyddol yma, ar draws y pleidiau, i ddefnyddio'r adnoddau hynny ac i fynd i'r afael â'r mater hwn, fod yna grwpiau cymunedol ac unigolion sydd am fod yn rhan o'r ateb hwnnw, a bod angen inni ystyried yn ofalus pam ein bod wedi methu â gwneud cynnydd hyd yn hyn, ac i ddysgu gwersi. Drwy ddweud y byddwn yn gosod targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, rydym yn sicrhau y byddwn yn cael dadl debyg yn ystod y blynyddoedd nesaf, pan na fydd y targedau hynny wedi cael eu cyrraedd chwaith.

Mae'r Ceidwadwyr wedi sôn llawer iawn heddiw mai un o'r rhesymau dros beidio â chyrraedd y targedau hyn yw'r gor-bwyslais ar ynni gwynt. Nid yw'n syndod y bu bwyslais ar ynni gwynt dros y pum mlynedd

last five years—at the beginning of this process, it was our most easily exploitable technology. I acknowledge that, in the last five years, technology developments have moved on, and we now have at our disposal a much broader range of resources and technologies that we can exploit. It is not good enough to simply say that we failed because of an over-emphasis and reliance on wind. Darren said that that is because people object to wind. In my 11 years in the Chamber, Darren, I have failed to come across any energy proposal—wind, anaerobic digestion, biomass or anything else—that has not been objected to by someone within a community. The fact is that whatever is proposed, there will be some element of the community that does not want it and will find very credible reasons for not having that technology or particular project on its doorstep. We are looking at a much deeper fundamental issue than simply saying that it is because people object to it.

In terms of TAN 8, I agree—

**Darren Millar:** You are quite right. With any significant proposal of an industrial scale on someone's doorstep, you are bound to get objections. My point is that, in terms of the planning process, delivering significant numbers of industrial-sized developments on the doorstep of individual communities is not really acceptable. It does not share the burden of those sorts of developments around Wales, and it does not necessarily ensure that they are delivered in the best places.

**Kirsty Williams:** I agree. We need to take a fundamental look at the planning process, which the Sustainability Committee has spent a great deal of time doing over the last month. Within a couple of weeks, we will hopefully produce a report that we will be able to debate in the Assembly that points to some of the limitations of the planning process that have got us to this stage.

5.10 p.m.

The Conservatives spent a long time talking about TAN 8, and there are issues about

diwethaf—ar ddechrau'r broses hon, hon oedd y dechnoleg hawddaf manteisio arni. Rwyf yn cydnabod, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, fod datblygiadau technoleg wedi symud yn eu blaen, ac erbyn hyn mae ystod ehangach o lawer o adnoddau a thechnolegau ar gael inni fanteisio arnynt. Nid yw'n ddigon da dweud ein bod wedi methu oherwydd ein bod yn rhoi gormod o bwyslais ar wynt. Dywedodd Darren fod hynny am fod pobl yn gwrthwynebu gwynt. A minnau wedi bod yn y Siambra hon ers 11 mlynedd Darren, nid wyf wedi gweld unrhyw gynnig am ynni-gwynt, treulio anaerobig, biomas nac unrhyw beth arall—nad yw wedi cael ei wrthwynebu gan rywun o fewn cymuned. Y ffaith amdani yw, beth bynnag sy'n cael ei gynnig, bydd rhan o'r gymuned a fydd yn anghydweld ac a fydd yn dod o hyd i resymau credadwy iawn dros beidio â chael y dechnoleg honno neu'r prosiect hwennw ar garreg ei drws. Rydym yn edrych ar fater sylfaenol dyfnach o lawer na dim ond dweud mai'r ffaith bod pobl yn gwrthwynebu yw'r rheswm.

O ran TAN 8, rwyf yn cytuno—

**Darren Millar:** Rydych yn llygad eich lle. Rydych yn sicr o gael gwrthwynebiadau gydag unrhyw gynnig sylweddol o faint diwydiannol ar garreg drws rhywun. O ran y broses gynllunio, fy mhwyt i yw, nid yw cyflwyno nifer sylweddol o ddatblygiadau diwydiannol eu maint ar garreg drws cymunedau unigol yn dderbyniol mewn gwirionedd. Nid yw'n rhannu baich y mathau hynny o ddatblygiadau o amgylch Cymru, ac nid yw o reidrwydd yn sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn y mannau gorau.

**Kirsty Williams:** Rwyf yn cytuno. Mae angen inni gymryd golwg sylfaenol ar y broses gynllunio, ac mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi treulio llawer o amser yn gwneud hynny yn ystod y mis diwethaf. O fewn ychydig wythnosau, gobeithio y byddwn yn cynhyrchu adroddiad y byddwn yn gallu ei drafod yn y Cynulliad sy'n dangos rhai o gyfyngiadau'r broses gynllunio sydd wedi ein harwain at y sefyllfa hon.

Mae'r Ceidwadwyr wedi treulio llawer o amser yn sôn am TAN 8, a cheir problemau o

community involvement in relation to it. However, the biggest failure of TAN 8 and the strategic search areas is that, in trying to find areas where developments would have minimal impact on houses and individuals—trying to put those developments in the most remote parts of Wales—they failed to acknowledge that we would have huge problems with distribution and transport in getting the stuff built in the first place. Therefore, we need to take a fundamental look at our planning system and the ability of local planning authorities to deliver. Many of the projects that people want to develop are being caught up in the processes of local planning authorities, which do not seem to be equipped with the skills or knowledge to deal with them in an appropriate and timely fashion.

The Government also needs to look at co-operation across departments. It is all very well for the Minister for environment to say that she wants windfarms to be built in mid Wales, but if no-one tells the trunk road agency and the Minister for transport that they will have to use the roads to get those turbines in, and if the Department for the Economy and Transport then objects to the routes proposed by the developers, we will never get anywhere. We know that there are people out there who see this not only as a way of regenerating communities but also as a way of providing job opportunities and a better future, as well as of allowing Wales to play its part in carbon reduction. However, unless the Government tells us why it has failed, we will not reach the new targets of which the Government says that it is so proud.

**Mohammad Asghar:** As Members will appreciate, climate change has the potential to have significant and devastating consequences for Wales. The possible impacts—linked notably to the environment, the economy and public health—are vast and pose considerable challenges for the future. Additionally, supplies of fossil fuels are increasingly under pressure. For these reasons, all necessary steps must be taken to limit our impact for global warming. Fulfilling the potential of renewable energy

ran cynnwys y gymuned mewn perthynas ag ef. Fodd bynnag, methiant mwyaf TAN 8 a'r ardaloedd chwilio strategol yw, wrth geisio dod o hyd i ardaloedd lle byddai datblygiadau'n cael yr effaith leiaf bosibl ar dai ac unigolion—gan geisio rho'i'r datblygiadau hynny yn y rhannau mwyaf anghysbell o Gymru—nid ydynt wedi cydnabod y byddem yn cael problemau mawr o ran dosbarthu a chludo i adeiladu'r pethau yn y lle cyntaf. Felly, mae angen inni gymryd golwg sylfaenol ar ein system gynllunio ac ar allu awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno. Mae llawer o'r prosiectau y mae pobl am eu datblygu yn cael eu dal ym mhrosesau awdurdodau cynllunio lleol, nad ydynt i bob golwg yn meddu ar y sgiliau na'r wybodaeth i ymdrin â hwy mewn ffordd briodol ac amserol.

Mae angen i'r Llywodraeth edrych ar gydwethredu ar draws adrannau hefyd. Mae'n ddigon hawdd i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ddweud ei bod am i ffermydd gwynt gael eu codi yn y canolbarth, ond os nad oes neb yn dweud wrth yr Asiantaeth Cefnffyrrdd a'r Gweinidog dros Drafnidiaeth y bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio'r ffyrdd i gludo'r tyrbinau, ac os bydd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn gwrthwynebu'r llwybrau sy'n cael eu cynnig gan y datblygwyr, ni fyddwn yn cyrraedd unman. Rydym yn gwybod y ceir pobl sy'n gweld hyn fel ffordd o adfywio cymunedau ac fel ffordd o ddarparu cyfleoedd gwaith a gwell dyfodol hefyd, heb sôn am ffordd o ganiatáu i Gymru chwarae ei rhan yn y gwaith o leihau carbon. Fodd bynnag, oni bai fod y Llywodraeth yn dweud wrthym pam ei bod wedi methu, ni fyddwn yn cyrraedd y targedau newydd y mae'r Llywodraeth yn dweud ei bod mor falch ohonynt.

**Mohammad Asghar:** Fel y bydd yr Aelodau'n sylweddoli, gallai Cymru ddioddef canlyniadau mawr a difrifol yn sgîl newid yn yr hinsawdd. Mae'r effeithiau posibl—sy'n gysylltiedig yn benodol â'r amgylchedd, yr economi ac iechyd y cyhoedd—yn enfawr ac yn gosod heriau sylweddol ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, mae cyflenwadau tanwydd ffosil o dan fwy a mwy o bwysau. Am y rhesymau hyn, rhaid i'r holl gamau angenreheidiol gael eu cymryd i gyfyngu ar ein heffaith ar gynhesu byd-eang. Mae'n

sources in Wales is vital. This is hugely important in the battle against climate change. The recent floods in Pakistan caused damage worth \$100 billion and, while I am speaking, our friends in Australia are suffering hugely due to the direct effect of climate change.

Utilising a wide range of natural resources effectively should be a priority for this Assembly Government. Given the importance of combating climate change, it is concerning to note that the Assembly Government has missed a key target in producing 4 TWh of energy from renewable sources by 2010. This missed target should act as a wake-up call. In Wales, we have great opportunities for embracing a variety of renewable energy sources. We have vast natural resources that could be developed for renewable energy. It is troubling, therefore, that the Assembly Government has placed too great an emphasis on wind energy, neglecting other forms. Warnings have come from numerous industry experts. A representative from the Centre for Alternative Technology has previously called on the Assembly Government to show more commitment to the development of solar and hydro technologies. The all-Wales energy group has also expressed concerns that the wrong technology is being taken into account.

This approach should be centred upon investment and support for an array of renewable energy forms. Embracing such technologies is particularly important given the big climate change objectives that lie ahead in Wales. The Assembly Government, for example, has set a target to produce 7 TWh of power from renewable sources by 2020. Investment and support for a variety of renewable energy forms will be essential to avoid missing important future climate change targets.

A green economy is a must for our areas. By failing to utilise the sheer abundance of natural resources that we have in Wales for

hanfodol ein bod yn cyflawni potensial ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae hyn yn hollbwysig yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Mae'r llifogydd diweddar ym Mhacistan wedi achosi gwerth \$100 biliwn o ddifrod, a'r eiliad hon mae ein cyfeillion yn Awstralia yn dioddef yn enbyd oherwydd effaith uniongyrchol newid yn yr hinsawdd.

Dylai defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau naturiol yn effeithiol fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth bresennol y Cynulliad. O ystyried pwysigrwydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae'n destun pryder nodi bod Llywodraeth y Cynulliad wedi methu â chyrraedd targed allweddol i gynhyrchu 4 TWh o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Dylai'r ffaith ein bod wedi methu â chyrraedd y targed agor ein llygaid. Yng Nghymru, mae gennym gyfle gwych i goleddu amrywiaeth o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae gennym adnoddau naturiol helaeth y gellid eu datblygu ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'n destun gofid, felly, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi gormod o bwyslais ar ynni gwynt, gan esgeuluso ffurfiâu eraill. Cafwyd rhybuddion gan nifer o arbenigwyr yn y diwydiant. Yn y gorffennol, mae cynrychiolydd o Ganolfan y Dechnoleg Amgen wedi galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddangos mwy o ymrwymiad i ddatblygu technolegau solar a dŵr. Mae'r grŵp ynni Cymru gyfan wedi mynegi pryderon hefyd bod y dechnoleg anghywir yn cael ei hystyried.

Dylai'r dull hwn ganolbwyntio ar fuddsoddiad a chefnogaeth ar gyfer sawl ffurf o ynni adnewyddadwy. Mae manteisio ar dechnolegau o'r fath yn arbennig o bwysig o ystyried yr amcanion newid yn yr hinsawdd mawr rydym yn eu hwynebu yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad, er enghraift, wedi gosod targed i gynhyrchu 7 TWh o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Bydd buddsoddiad a chymorth ar gyfer gwahanol ffurfiâu o ynni adnewyddadwy yn hanfodol er mwyn sicrhau nad ydym yn methu â chyrraedd targedau newid yn yr hinsawdd pwysig yn y dyfodol.

Mae economi werdd yn hanfodol ar gyfer ein hardaloedd. Drwy beidio â defnyddio'r adnoddau naturiol lu sydd gennym yng

renewable energy, the Assembly Government risks significantly failing to meet the demands of an increasingly greener economy. The green economy is emerging quickly and Wales must not let opportunities to become a major player pass it by. Eco2 has highlighted that there will be little opportunity for Wales to become a leader in the manufacture of wind turbines. However, it emphasises the significant opportunities for manufacturing in other new technologies, notably wave and tidal technologies. Developing and focusing upon a wide range of renewable energy sources is essential if Wales is to fulfil its potential as a major player in the global green economy.

A recent report in Monmouthshire in my region highlighted that up to 45 per cent of electricity in the area could be generated from renewable sources by 2020, but that was dependent on schemes involving biomass and hydro technologies being developed. Such forms of renewable energy can play a pivotal role in helping the Assembly Government to reach climate change objectives and ensure that we meet the demand for a greener economy. While the Assembly Government's policy statement 'A Low Carbon Revolution' recognises the importance of alternative technologies, rhetoric must be followed by action. The latest missed targets should act as a warning that the Assembly Government must take significant action to invest in and support a variety of renewable energy forms. A fresh and ambitious approach is needed.

**Leanne Wood:** There has been remarkable cross-party agreement and concern in the National Assembly about climate change and there has been united recognition that we need to reduce our carbon footprint. We have all signed up to tough targets on that. A shift away from fossil-fuel-based energy, which can only come about by a massive expansion in renewable energy, is vital. To date, and many people have said this, our greatest source of renewable energy has been wind power, which has been controversial, unpopular in some cases, and, as the letters page in the *Western Mail* shows on a fairly frequent basis, is contested as an efficient

Nghymru ar gyfer ynni adnewyddadwy, mae Llywodraeth y Cynulliad mewn cryn berygl o fethu ag ateb gofynion economi sy'n mynd yn fwy a mwy gwyrdd. Mae'r economi werdd yn datblygu'n gyflym ac ni all Cymru golli'r cyfle i ddod yn flaenllaw yn hyn o beth. Mae Eco2 wedi dweud mai prin fydd y cyfle i Gymru ddod yn arweinydd ym maes cynhyrchu tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio'r cyfleoedd sylweddol ar gyfer gweithgynhyrchu technolegau newydd eraill, yn enwedig technolegau tonnau a llanw. Mae datblygu a chanolbwytio ar ystod eang o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn hanfodol os yw Cymru am gyflawni ei photensial fel cyflenwr allweddol yn yr economi werdd fyd-eang.

Roedd adroddiad diweddar yn sir Fynwy yn fy rhanbarth yn dangos y byddai modd cynhyrchu hyd at 45 y cant o drydan yn yr ardal o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020, ond roedd hynny'n ddibynnol ar ddatblygu technolegau biomas a dŵr. Gall y ffurfiau hyn o ynni adnewyddadwy chwarae rhan allweddol i helpu Llywodraeth y Cynulliad i gyrraedd amcanion newid yn yr hinsawdd a sicrhau ein bod yn cwrdd â'r galw am economi fwy gwyrdd. Er bod datganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad, 'Chwyldro Carbon Isel' yn cydnabod pwysigrwydd technolegau amgen, rhaid i rethreg gael ei dilyn gan gamau. Dylai'r targedau diweddaraf na lwyddwyd i'w cyrraedd fod yn rhybudd ei bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gymryd camau sylweddol i fuddsoddi mewn gwahanol ffurfiau o ynni adnewyddadwy a chefnogi'r rheini. Mae angen dull gweithredu newydd ac uchelgeisiol.

**Leanne Wood:** Bu cytundeb a phryder trawsbleidiol rhyfeddol yn y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch newid yn yr hinsawdd, ac mae pawb wedi bod yn unedig bod angen inni leihau ein hôl troed carbon. Rydym i gyd wedi cytuno i dargedau llym ar hynny. Mae'n hanfodol ein bod yn symud oddi wrth ynni sy'n dod o danwydd ffosil, a'r unig ffordd o wneud hynny yw sicrhau cynnydd aruthrol mewn ynni adnewyddadwy. Hyd yn hyn—ac mae llawer o bobl wedi dweud hyn—ynn ni gwynt fu ein ffynhonnell ynni adnewyddadwy fwyaf, sydd wedi bod yn ddadleuol ac yn amhoblogaidd mewn rhai achosion ac, fel y gwelir ar dudalen

means of creating renewable energy. I therefore have some sympathy with those who argue that a variety of renewable energy sources should be supported and promoted, but I do not think that it is accurate to say that the Welsh Assembly Government is doing nothing on non-wind sources. That said, I would like to see much more done to make use of Welsh rivers and mountain water run-off to generate hydro power. The award-winning Green Valleys project in the Brecon Beacons is showing us what can be done with hydro power. We should continue to do everything that we can to maximise the energy generation potential from the Severn estuary, as long as it can be done in a way that does not harm the fragile ecosystem in that area.

I am confident that we will get much more of our energy from water and tides in the future, but wind is where we are now. I am aware that many windfarms have been delayed for various reasons, and Members have raised those reasons today. One of those reasons has been local objections. Plaid Cymru has consistently maintained that TAN 8 should offer more positive encouragement for developments that offer community benefits. In the UK Government coalition agreement, there is a commitment that communities that host energy projects should keep the business rates that they generate. Current business rates for the proposed Mardy windfarm in the Rhondda are estimated to be £190,000 per year. Under the current system, that money will go straight to London and the people of Mardy will not see the benefit of it. The people of Mardy could do an awful lot with £190,000.

I am of the view that local communities would be much more positive towards windfarm developments if they were able to see directly the financial benefits of hosting a windfarm.

5.20 p.m.

llythyrau'r *Western Mail* yn bur aml, ceir lle i amau a yw'n ffordd effeithlon o greu ynni adnewyddadwy. Felly mae gennyl rywfaint o gydymdeimlad â'r rheini sy'n dadlau y dylai amrywiaeth o ffynonellau ynni adnewyddadwy gael eu cefnogi a'u hyrwyddo, ond nid wyf yn meddwl ei bod yn gywir dweud bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud dim byd yng nghyswllt ffynonellau nad ydynt yn wynt. Wedi dweud hynny, hoffwn weld llawer mwy yn cael ei wneud i ddefnyddio afonydd Cymru a dŵr sy'n lloilo o fynyddoedd i gynhyrchu ynni dŵr. Mae prosiect y Cymoedd Gwyrdd ym Mannau Brycheiniog wedi ennill gwobrau, ac yn dangos beth y gellir ei wneud gydag ynni dŵr. Dylem barhau i wneud popeth yn ein gallu i fanteisio i'r eithaf ar botensial cynhyrchu ynni Aber Afon Hafren, ar yr amod y gellir gwneud hynny mewn ffordd nad yw'n amharu ar yr ecosystem fregus yn y fan honno.

Rwyf yn ffyddio y byddwn yn cael llawer mwy o'n hynni o ddŵr ac o'r llanw yn y dyfodol, ond ar wynt rydym yn canolbwytio'n awr. Rwyf yn ymwybodol bod llawer o ffermydd gwynt wedi cael eu gohirio am wahanol resymau, ac mae Aelodau wedi codi'r rhesymau hynny heddiw. Un o'r rhesymau hynny yw gwrthwynebiadau lleol. Mae Plaid Cymru wedi mynnu'n gyson y dylai TAN 8 gynnig mwy o anogaeth gadarnhaol ar gyfer datblygiadau sy'n cynnig manteision cymunedol. Yng nghytundeb clymbleidiol Llywodraeth y DU, ceir ymrwymiad y dylai cymunedau sy'n cynnal prosiectau ynni gadw'r ardrethi busnes sy'n cael eu cynhyrchu ganddynt. Amcangyfrifir bod yr ardrethi busnes presennol ar gyfer fferm wynt arfaethedig Maerdy yn y Rhondda yn £190,000 y flwyddyn. O dan y system bresennol, bydd yr arian hwnnw'n mynd yn syth i Lundain ac ni fydd pobl Maerdy yn cael budd ohono. Byddai trigolion Maerdy yn gallu gwneud llawer iawn gyda £190,000.

Rwyf o'r farn y byddai cymunedau lleol yn edrych ar ddatblygiadau ffermydd gwynt mewn ffordd fwy cadarnhaol o lawer pe baent yn gallu gweld manteision ariannol cynnal fferm wynt.

**Kirsty Williams:** I would like to take this opportunity to agree with you wholeheartedly. There is a positive example of that in my own constituency. There have been high levels of objections to windfarm developments in Brecon and Radnorshire in cases where an outside company is coming in to run the windfarms. However, a project that is owned solely by local landowners and offers a way of keeping those families in their communities by diversifying their income is the only project that has not received a single objection to it, because the local community sees the benefit to them and their neighbours of letting that project go ahead.

**Leanne Wood:** Thank you for that example. It brings me on to the question of ownership, which does concern me. I would like to see much more community or worker ownership projects going ahead—such as the Green Valley project, which is the example that I gave earlier. That would give a community a stake in the project, and a cash incentive would really help windfarms to become more popular. There are two additional points that I would like to make on this, and I will make them briefly. First, some commentators argue that some forms of energy generation are renewable when they are not. Nuclear power cannot be renewable energy when we have no idea how we are going to manage the extremely dangerous waste that nuclear energy produces. It may not produce carbon dioxide, but it is not renewable energy. The resources that go into it—

**Jonathan Morgan:** Will you give way?

**Leanne Wood:** I do not have enough time, sorry. The resources that go into expanding the nuclear industry will be diverted away from genuine renewable energy. It may be worth the Tories mentioning that point to their governing colleagues in London.

Secondly, waste incineration is being expanded and promoted in Wales on the basis

**Kirsty Williams:** Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gytuno'n llwyr â chi. Ceir enghraifft gadarnhaol o hynny yn fy etholaeth i. Bu cryn dipyn o wrthwynebiadau i ddatblygiadau ffermydd gwynt ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed mewn achosion lle mae cwmni allanol yn dod i redeg y ffermydd gwynt. Fodd bynnag, yr unig brosiect nad yw wedi cael gwrtwynebiad o gwbl yw prosiect sy'n eiddo'n llwyr i dirfeddianwyr lleol ac sy'n cynnig ffordd o gadw'r teuluoedd hynny yn eu cymunedau drwy arallgyfeirio eu hincwm, a hynny gan fod y gymuned leol yn gweld fod caniatáu i'r prosiect hwnnw fynd rhagddo yn dwyn budd iddynt hwy a'u cymdogion.

**Leanne Wood:** Diolch am yr enghraifft honno. Mae'n dod â mi at y cwestiwn o berchnogaeth, sy'n peri pryer imi. Hoffwn weld llawer mwy o brosiectau sy'n eiddo i'r gweithwyr neu i'r gymuned yn mynd rhagddynt—fel prosiect y Cwm Gwyrdd, yr enghraifft a roddais yn gynharach. Byddai hynny'n golygu bod y gymuned yn rhan o'r prosiect, a byddai cymhelliad ariannol yn sicr yn helpu ffermydd gwynt i ddod yn fwy poblogaidd. Mae dau bwynt ychwanegol yr hoffwn eu gwneud ar hyn, a byddaf yn eu cadw'n gryno. Yn gyntaf, mae rhai sylwebyddion yn dadlau bod ambell ddull o gynhyrchu ynni yn adnewyddadwy a hwythau ddim. Ni all ynni niwclear fod yn ynni adnewyddadwy, a ninnau heb syniad o gwbl sut rydym yn mynd i reoli'r gwastraff peryglus tu hwnt sy'n cael ei gynhyrchu gan ynni niwclear. Efallai nad yw'n cynhyrchu carbon deuocsid, ond nid yw'n ynni adnewyddadwy. Mae'r adnoddau sy'n mynd i—

**Jonathan Morgan:** A wnewch chi ildio?

**Leanne Wood:** Nid oes gennyf ddigon o amser, mae'n ddrwg gennyf. Bydd yr adnoddau sy'n mynd i ehangu'r diwydiant niwclear yn cael eu dargyfeirio oddi wrth ynni adnewyddadwy go iawn. Efallai y byddai'n werth i'r Toriaid sôn am y pwynt hwnnw wrth eu cyd-Aelodau sy'n llywodraethu yn Llundain.

Yn ail, mae dulliau llosgi gwastraff yn cael eu hymestyn a'u hyrwyddo yng Nghymru ar y

that the incineration process can produce renewable energy. I share the views of Friends of the Earth on this matter, which has shown that an electricity-only incinerator—such as the one planned by Viridor in Splott—emits more carbon dioxide than the worst coal-fired power station, with the landfill methane saved estimated to be only around 1 per cent. Therefore, I would urge all Members in this Chamber not to be fooled. Not everything labelled as renewable is renewable.

**The Minister for the Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):**

I am delighted that this subject was chosen for today's debate and that so many Members have a great interest in issues around renewable energy. It is probably worth saying at the outset that this Government—as is made clear in 'A Low Carbon Revolution', which was published in March 2010—is looking for Wales to be able to develop all forms of renewable energy in all appropriate locations. We want to do that on an individual basis, in individual households. Feed-in tariffs were not mentioned today, but we are absolutely delighted that we have the feed-in tariffs. I hope that all of us will encourage individual householders to use feed-in tariffs for the most appropriate use of electricity in their area. Clearly, in terms of solar panels, there is no point in fitting them to a non-south-facing roof, so we do have to look at location.

The arguments about community energy are also important. We are very keen on hydro power. We have been undertaking extra work with the Environment Agency, as some people have mentioned in relation to making the consenting process easier and looking at location. In the context of issues around climate change, it is important to reaffirm the science. While I was in Cancun, representing the Welsh Assembly Government in the important talks that were taking place there, NASA—which operates a slightly different year to the Met Office—released statistical evidence that showed that last year was the hottest year on record, according to its statistical year. The Met Office also says that,

sail y gall y broses losgi gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rwyf o'r un farn â Chyfeillion y Ddaeear ynghylch y mater hwn, sydd wedi dangos bod llosgydd trydan yn unig—fel yr un sydd wedi'i gynllunio gan Viridor yn Sblob—yn allyru mwy o garbon deuocsid na'r orsaf bŵer fwyaf un sy'n cael ei thanio â glo, a bod lefel y methan a arbedir mewn safleoedd tirlenwi yn ddim ond oddeutu 1 y cant. Felly, byddwn yn annog pob Aelod yn y Siambra hon i beidio â chael eich twyllo. Nid yw popeth sy'n cael ei labelu fel adnewyddadwy yn adnewyddadwy.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):**

Rwyf yn falch iawn bod y pwnc hwn wedi cael ei ddewis ar gyfer y ddadl heddiw, a bod gan gynifer o Aelodau ddiddordeb mawr mewn materion yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Mae'n debyg ei bod yn werth sôn ar y dechrau bod y Llywodraeth hon—fel yr eglurir yn 'Chwyldro Carbon Isel', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010—yn awyddus i Gymru allu datblygu pob ffurf o ynni adnewyddadwy ym mhob lleoliad priodol. Rydym am wneud hynny ar sail unigol, mewn cartrefi unigol. Ni fu sôn am dariffau cyflenwi trydan heddiw, ond rydym yn falch iawn fod gennym dariffau cyflenwi trydan. Rwyf yn gobeithio y bydd pob un ohonom yn annog deiliaid cartrefi unigol i ddefnyddio tariffau cyflenwi trydan i ddefnyddio trydan yn y ffordd fwyaf priodol yn eu hardal hwy. Yn amlwg, o ran paneli solar, nid oes pwrrpas eu gosod ar do nad yw'n wynebu'r de, felly mae gofyn edrych ar leoliad.

Mae'r dadleuon am ynni cymunedol hefyd yn bwysig. Rydym yn frwd iawn o blaid ynni dŵr. Rydym wedi bod yn ymgymryd â gwaith ychwanegol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y mae ambell un wedi'i grybwyll, yng nghyswllt gwneud y broses ganiatâd yn haws ac edrych ar leoliad. Yng nghyd-destun materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, mae'n bwysig ailldatgan y wyddoniaeth. Pan oeddwn yn Cancun, yn cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y trafodaethau pwysig a oedd yn cael eu cynnal yno, rhyddhaodd NASA—sydd â blwyddyn ychydig yn wahanol i'r Swyddfa Dywydd—dystiolaeth ystadegol a oedd yn dangos mai'r llynedd

based on its statistical year, 2010 is one of the hottest years on record. Across the Assembly and the Climate Change Commission, we have always accepted the status of the science in making decisions for the future.

It is also worth saying a bit about powers and money. I know that you will want to come back on this at the end, but a number of Members have made great claims for what the Assembly Government could do, and one of our biggest constraints is that—as we all know, because every party in Wales has fought for this—the powers are not devolved. On several occasions that has meant that we have had real difficulty in taking this agenda forward. To take some points that have been mentioned both in the debate and very recently, the next review around Severn tidal power will not be until 2015, but this Assembly Government has put money into the embryonic technologies to find the best environmental outcomes. I have not yet got a guarantee from the UK Government that those embryonic technologies will continue to be supported, although I remain in regular contact with the Department of Energy and Climate Change on this and other issues. I am sure that all Members of this Assembly would want to see that in the context of the comprehensive spending review.

With regard to ports, people will know that that has been a live debate in these last few days. Previously, the UK Government was going to have a competitive port stream of £60 million. We would have looked to bid for that, and might have bid for that for Milford Haven, given its energy focus, or for Holyhead, given what we want to do for Anglesey as an energy island, or for Neath Port Talbot in the context of any work in the Severn. However, all we had, following the change of Government, was £700,000. Anyone who knows the Barnett formula will know that £700,000 does not represent the normal Welsh share, because energy is not devolved. So, I am afraid that we have a double whammy on these issues at the

oedd y flwyddyn boethaf ar gofnod, yn ôl ei flwyddyn ystadegol. Mae'r Swyddfa Dywydd hefyd yn dweud, yn seiliedig ar ei blwyddyn ystadegol, mai 2010 oedd un o'r blynnyddoedd poethaf ar gofnod. Ar draws y Cynulliad a'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd, rydym bob amser wedi derbyn statws y wyddoniaeth wrth wneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

Mae hefyd yn werth sôn ychydig am bwerau ac arian. Gwn y byddwch am ddod yn ôl at hyn ar y diwedd, ond mae nifer o Aelodau wedi gwneud datganiadau mawr am yr hyn y gallai Llywodraeth y Cynulliad ei wneud, ac un o'n cyfyngiadau mwyaf—fel y mae pawb yn ei wybod, gan fod pob plaid yng Nghymru wedi brwydro dros hyn—yw nad yw'r pwerau wedi'u datganoli. Ar sawl achlysur, mae hynny wedi golygu ein bod wedi cael anhawster gwirioneddol wrth fynd â'r agenda hon rhagddi. I roi sylw i ambell bwynt a grybwyllywyd yn y ddadl ac yn ddiweddar iawn, ni fydd yr adolygiad nesaf o ynni llanw Afon Hafren yn cael ei gynnwl tan 2015, ond mae Llywodraeth bresennol y Cynulliad wedi buddsoddi mewn technolegau embryonig i ddod o hyd i'r canlyniadau amgylcheddol gorau. Nid wyf wedi cael sicrwydd eto gan Lywodraeth y DU y bydd y technolegau embryonig hynny'n parhau i gael eu cefnogi, er fy mod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ynghylch y mater hwn a materion eraill. Rwyf yn siŵr y bydd holl Aelodau'r Cynulliad hwn am weld hynny yng nghyd-destun yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

O ran porthladdoedd, bydd pobl yn gwybod bod hynny wedi bod yn ddadl fyw yn ystod y dyddiau diwethaf hyn. Yn flaenorol, roedd Llywodraeth y DU yn mynd i gael £60 miliwn o ffrwd porthladdoedd gystadleuol. Byddem wedi ystyried gwneud bid am hynny, ac efallai y byddem wedi gwneud bid ar gyfer Aberdaugleddau, o ystyried ei ffocws ynni, neu ar gyfer Caergybi, o ystyried yr hyn rydym am ei wneud i Ynys Môn fel ynys ynni, neu ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yng nghyd-destun unrhyw waith yn Afon Hafren. Fodd bynnag, yr unig beth a gawsom, ar ôl i'r Llywodraeth newid, oedd £700,000. Bydd unrhyw un sy'n gwybod am fformiwlâu Barnett yn gwybod nad yw £700,000 yn cynrychioli cyfran arferol

moment—energy is not devolved, so we are offered less money, which means that we cannot support the incentives that everyone in this Chamber would like to support with regard to the development of renewable energy. I am not sure when the lack of the devolution of energy to Wales turned all these funds into English initiatives. The UK Government is operating as an English Government with regard to energy. Scotland has powers over energy and we have seen it do some dramatic things with them. If the UK Government is determined to cut off Wales, in not giving us the money and not making initiatives available to us, then let us have the consents. I will continue to fight for those, and I hope that others will, too.

On the substance of this debate, it is probably helpful to bring Members up to date on exactly where we are in terms of performance. We had a target of producing 4 TWh a year from renewable energy by 2010, and as Members have said, that is not being delivered on the ground. For people who have not come across the concept of a terawatt hour before, it is 1 trillion watts of energy being produced over an hour. We now have 3 TWh of electricity from wholly renewable sources. There has been a doubling of renewable energy operating capacity in Wales since 2007, and we have another 0.5 TWh for which primary consent has been given, so we are not very far away from our target. It is worth pointing out to those who have been trying to say that the targets are too ambitious for delivery that we have a further 5 TWh that are either consented, under construction, or in the planning system at the moment. That came through this year, and we could have all of that consented within two years. The Arup report suggests that they will be built between 2015 and 2017, when the grid connections are also available, so we would have more than doubled our 2010 target, and be well ahead of the 7 TWh target for 2020.

Cymru, oherwydd nid yw ynni wedi'i ddatganoli. Felly, mae arnaf ofn ein bod yn wynebu ergyd ddwbl ar y materion hyn ar hyn o bryd—nid yw ynni wedi'i ddatganoli, felly rydym yn cael llai o arian, sy'n golygu na allwn gefnogi'r cymhellion y byddai pawb yn y Siambra hon yn hoffi eu cefnogi o ran datblygu ynni adnewyddadwy. Nid wyf yn siŵr pryd gwnaeth peidio â datganoli ynni i Gymru droi yr holl arian hwnnw'n fentrau yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU yn gweithredu fel Llywodraeth ar gyfer Lloegr o ran ynni. Mae gan yr Alban bwerau dros ynni ac rydym wedi ei gweld yn gwneud rhai pethau dramatig gyda nhw. Os yw Llywodraeth y DU yn benderfynol o beidio â chynnwys Cymru, drwy beidio â rhoi arian inni a pheidio â sicrhau bod mentrau ar gael inni, yna gadewch inni gael yr hawliau caniatâd. Byddaf yn parhau i ymladd dros y rheini, a gobeithiaf y bydd pobl eraill yn gwneud yr un fath.

O ran sylwedd y ddadl hon, mae'n debyg y byddai'n fuddiol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch ein hunion sefyllfa o ran perfformiad. Roedd gennym darged o gynhyrchu 4 TWh y flwyddyn o ynni adnewyddadwy erbyn 2010, ac fel y mae'r Aelodau wedi'i ddweud, nid ydynt yn cael eu darparu ar lawr gwlad. I bobl nad ydynt wedi dod ar draws y cysyniad o awr terawat o'r blaen, mae'n golygu cynhyrchu 1 triliwn watt o ynni mewn awr. Erbyn hyn, mae gennym 3 TWh o drydan o ffynonellau sy'n gwbl adnewyddadwy. Mae'r capaciti gweithredu ynni adnewyddadwy wedi dyblu yng Nghymru er 2007, ac rydym wedi cael caniatâd sylfaenol ar gyfer 0.5 TWh arall, felly nid ydym yn bell iawn o gyrraedd ein taged. Mae'n werth sôn wrth y rheini sydd wedi bod yn ceisio dweud bod y targedau'n rhy uchelgeisiol i'w cyflawni bod gennym 5 TWh arall sydd naill ai wedi cael caniatâd, yn cael ei roi ar waith, neu yn y system gynllunio ar hyn o bryd. Digwyddodd hynny eleni, ac mae'n bosibl y byddwn wedi cael caniatâd ar gyfer hynny i gyd o fewn dwy flynedd. Mae adroddiad Arup yn awgrymu y byddant yn cael eu hadeiladu rhwng 2015 a 2017, pan fydd y cysylltiadau â'r grid ar gael hefyd, felly byddem wedi mwy na dyblu targed 2010, ac ymhell ar y blaen o'r targed 7 TWh ar gyfer 2020.

Therefore, although we had a slow start, we have dramatically improved our performance, and, had we had the powers, I have no doubt that we would have achieved that target, because so many areas have been held up because we have not been able to take those decisions and ally the electricity consent powers with the planning powers here in Wales.

The revision of the targets upwards, which Members have referred to in the context of 'A Low Carbon Revolution', is based on what we know we can achieve from the resources available. Wales has the potential to produce up to 40 TWh of electricity annually from renewable sources by 2025, with 25 per cent of this from marine, 50 per cent from wind, both offshore and onshore, and the rest from sustainable biomass power or smaller local sources, including micro, heat and electricity generation projects that use wind, solar, hydro or indigenous biomass. Back in March last year, we were absolutely clear that we wanted to look at all forms of renewable energy. That would actually mean that we would produce almost twice in renewable electricity what we consume as a nation annually by 2025, which goes significantly beyond our share of the UK targets, and, of course, both the EU and the UK targets are looking at specific contributions by 2020.

5.30 p.m.

Angela, as you said, Carwyn has said on a number of occasions, as have I, that the business estimate of the total investment potential in Wales is some £50 billion, and we all want to go and get that money over the next 10 to 15 years. However, we do not build the energy installations themselves. Their delivery is down to individual and private companies, and I hope that you will all continue to work closely with the companies—as I do as Minister, and as this Government does in regular meetings with them—which fully support the devolution of the energy consents to ensure that we get the best possible outcomes here.

Felly, er inni gael cychwyn araf, rydym wedi gwella ein perfformiad yn sylweddol, a phe bai'r bwerau gennym, nid os gennyf ddim amheuaeth na fyddem wedi cyrraedd y targed hwnnw, oherwydd mae llawer iawn o ardaloedd wedi wynebu oedi gan nad ydym ni wedi gallu gwneud y penderfyniadau hynny a chydgyssylltu'r pwerau caniatâd ar drydan â'r pwerau cynllunio yma yng Nghymru.

Mae'r ffaith bod y targedau wedi cael codi, fel y mae'r Aelodau wedi sôn yng nghyddestun 'Chwyldro Carbon Isel', yn seiliedig ar yr hyn rydym yn gwybod y gallwn ei gyflawni o'r adnoddau sydd ar gael. Mae gan Gymru'r potensial i gynhyrchu hyd at 40 TWh o drydan bob blwyddyn o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025, gyda 25 y cant o'r ffigur hwn yn ynni morol, 50 y cant yn ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, a'r gweddill yn ffynonellau biomas cynaliadwy neu'n ffynonellau bach lleol, gan gynnwys prosiectau cynhyrchu micro, gwres a thrydan sy'n defnyddio gwynt, solar, dŵr neu fiomas cynhenid. Yn ôl ym mis Mawrth y llynedd, roeddem yn gwbl glir ein bod am edrych ar bob math o ynni adnewyddadwy. Byddai hynny mewn gwirionedd yn golygu y byddem yn cynhyrchu bron i ddwywaith yr hyn rydym ni fel gwlad yn ei ddefnyddio bob blwyddyn erbyn 2025, sy'n mynd cryn dipyn y tu hwnt i'n cyfran o dargedau'r DU, ac, wrth gwrs, mae targedau'r UE a'r DU yn edrych ar gyfraniadau penodol erbyn 2020.

Angela, fel y dywedoch, mae Carwyn wedi dweud ar sawl achlysur, fel finnau, fod yr amcangyfrif busnes o gyfanswm y potensial buddsoddi yng Nghymru yn oddeutu £50 biliwn, ac mae arnom i gyd eisiau mynd i gael yr arian hwnnw dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, nid ydym yn adeiladu'r gosodiadau ynni eu hunain. Cwmniâu unigol a phreifat sy'n gyfrifol am eu darparu, a gobeithio y byddwch i gyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r cwmniâu—fel rwyf fi'n ei wneud fel Gweinidog, ac fel mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda hwy—sy'n llwyr gefnogi datganoli pwerau caniatâd ynni i sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau posibl yma.

**Nick Bourne:** This debate has been a very good and important one, as the Minister just indicated, with a measure of agreement across the Chamber. Angela, as the shadow Minister, opened with a passion and saw Wales as a potential global leader in this field, which is absolutely right. The other contributions from our benches came from Darren, who spoke about his constituency experience and support of the targets, and Mark, who spoke about the need for a renewable energy hub in Wales, as did Oscar.

Of the speakers from other parties, Kirsty Williams rightly drew attention to Labour's record in Government at Westminster, picking up on something that Brian Gibbons had been referring to. Brian is a mate, but I have to say that he was not at his sunny best today. His contribution reminded me of that chap who walks down Oxford Street—he has been doing it since I was a kid—saying that the end of the world is nigh. He can say that anaerobic digestion, tidal or marine energy are not the answer, but the Government is committed to them. We really need to set our sights higher and look at these matters with ambition.

Leanne Wood quite fairly said that she had some sympathy with the use of diverse resources. We did not speak about nuclear energy—I am happy to do so, although, strictly speaking, while it may be green, it is not really renewable. I am filled with horror about her view on that subject, as, quite clearly, was Alun Davies on the Labour backbenchers, but not as much, I suspect, as her leader, who has a nuclear power station in his constituency. I hope that you will be there campaigning alongside him outside Wylfa, Leanne—if it is within the rules, we will pay the transport to take you there, I promise you. I would love for you to be up there setting out your views.

The Minister, fairly, said that there have been efforts to get these powers—from the Labour Government previously and now from the coalition Government—and that is absolutely right. I am not totally sympathetic to Jane when she says that we will just be short of the target. We will be 25 per cent short of the

**Nick Bourne:** Mae'r ddadl hon wedi bod yn un dda a phwysig iawn, fel y mae'r Gweinidog newydd ei nodi, gyda lefel o gytundeb ar draws y Siambra. Cychwynnodd Angela, fel Gweinidog yr Wrthblaidd, gydag angerdd, gan weld Cymru fel arweinydd byd-eang posibl yn y maes hwn, sydd yn holol gywir. Daeth y cyfraniadau eraill o'n meinciau ni gan Darren, a siaradodd am ei brofiad yn ei etholaeth ac am gefnogi'r targedau, a chan Mark, a soniodd am yr angen i gael canolfan ynni adnewyddadwy yng Nghymru, fel y gwnaeth Oscar.

O ran siaradwyr o bleidiau eraill, yn briodol iawn tynnodd Kirsty Williams sylw at hanes y Blaid Lafur yn y Llywodraeth yn San Steffan, gan godi rhywbeth yr oedd Brian Gibbons wedi bod yn cyfeirio ato. Mae Brian yn ffrind, ond rhaid imi ddweud nad oedd ar ei orau heddiw. Roedd ei gyfraniad yn fy atgoffa o ddyn sy'n cerdded i lawr Oxford Street—mae'n gwneud hynny ers dyddiau fy mhlentyndod—yn dweud bod diwedd y byd ar droed. Gall ddweud nad treulio anaerobic, neu ynni'r môr neu ynni'r llanw yw'r ateb, ond mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddynt. Mae gwir angen inni anelu'n uwch ac edrych ar y materion hyn yn llawn uchelgais.

Dyweddodd Leanne Wood, yn eithaf teg, fod ganddi gydymdeimlad â defnyddio adnoddau amrywiol. Ni wnaethom sôn am ynni niwclear—rwyf yn fodlon gwneud hynny, er, yn fanwl gywir, er ei fod yn wyrdd, nid yw'n adnewyddadwy yng ngwir ystyr y gair. Mae ei barn am y pwnc hwnnw yn fy llenwi ag arswyd, yn yr un modd ag Alun Davies ar feinciau cefn Llafur, ond nid i'r un graddau â'i harweinydd, fe dybiaf, sydd â Gorsaf ynni niwclear yn ei etholaeth. Gobeithio y byddwch yno'n ymgyrchu wrth ei ochr y tu allan i Wylfa, Leanne—os yw o fewn y rheolau, byddwn yn talu'r cludiant i fynd â chi yno, rwyf yn addo chi. Byddwn wrth fy modd pe baech yn mynd yno i leisio'ch barn.

Yn deg iawn, dywedodd y Gweinidog y bu ymdrechion i gael y pwerau hyn—gan y Llywodraeth Lafur yn flaenorol ac yn awr gan y Llywodraeth glymblaid—ac mae hynny'n holol gywir. Nid wyf yn cydymdeimlo'n llwyr â Jane pan ddywed y byddwn ychydig yn brin o gyrraedd y targed.

target, unless you start to rewrite the rules as to what the target is. That is quite a significant shortfall. We need to be looking with ambition at a diversity of sources, because, currently, we have a menu with, effectively, just one dish available—if we ask for any of the other dishes, we are told that they are not on the menu today. We must be looking at developing tidal and marine resources, as they have been doing with great ambition in Scotland in the Pentland Firth. We really do need to do that here—not just with regard to tidal lagoons, but also solar panels and so on. It has been fantastic in creating jobs in Scotland, and that, too, is something that we have not been really effective in doing here. I wrote to the Minister for economic development on this issue fairly recently, about how we need to capture some of the jobs that will, over time, be created through this great development of diverse energy resources. So, we need the ambition, as set out by Angela Burns at the outset, to create more jobs, and to create a diversity of renewable energy in Wales. We need to take this forward with ambition so that we are the world leader. I do not doubt the commitment of those here, but we need to get on with it and not just focus on wind energy. Kirsty Williams is right; historically, it was the only significant renewable resource—there was hydroelectric energy and so on, but it was not significant. However, things have now moved on, and we need to move the agenda on. If the Government brings forward proposals to do that, they will have Angela's support, the support of this party, and, I am sure, the support of the whole Chamber. This has been a good and important debate. Let us now get out there with the ambition that is needed and make it a reality.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without

Byddwn 25 y cant yn brin o gyrraedd y targed, oni bai eich bod yn dechrau ailysgrifennu'r rheolau ynghylch beth yw'r targed. Mae hynny'n ddiffyg eithaf sylweddol. Mae angen inni fod yn edrych ag uchelgais ar amrywiaeth o ffynonellau, oherwydd, ar hyn o bryd, mae gennym fwydlen gyda dim ond un opsiwn arni i bob pwrrpas—os byddwn yn gofyn am unrhyw un o'r opsiynau eraill sydd ar y fwydlen, dywedir wrthym nad ydynt ar y fwydlen heddiw. Rhaid inni fod yn edrych ar ddatblygu adnoddau llanw a morol, yn yr un modd â'r Alban, sydd wedi bod yn gwneud hynny gyda llawer o uchelgais yn Pentland Firth. Mae gwir angen inni wneud hynny yma—nid o ran morlynnoedd llanw yn unig, ond o ran paneli solar ac yn y blaen hefyd. Bu'n llwyddiannus iawn wrth greu swyddi yn yr Alban, ac mae hynny hefyd yn rhywbeth nad ydym wedi llwyddo i'w wneud yn effeithiol iawn yma. Ysgrifennais at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ynghylch y mater hwn yn gymharol ddiweddar, gan ddweud sut mae angen inni gael gafael ar rai o'r swyddi a fydd, dros amser, yn cael eu creu drwy'r datblygiad mawr hwn o adnoddau ynni amrywiol. Felly, fel y dywedodd Angela Burns ar y cychwyn, mae arnom angen uchelgais i greu mwy o swyddi, ac i greu gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae angen inni fwrw ymlaen â hyn gydag uchelgais fel ein bod yn arweinydd yn y byd. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ynghylch ymrwymiad y rheini sydd yma, ond mae angen inni fwrw ymlaen â'r gwaith ac nid dim ond canolbwytio ar ynni gwynt. Mae Kirsty Williams yn llygad ei lle; yn y gorffennol, hwn oedd yr unig adnodd adnewyddadwy o bwys—roedd ynni trydan dŵr ac yn y blaen, ond nid oedd yn arwyddocaol. Fodd bynnag, mae pethau wedi symud ymlaen erbyn hyn, ac mae angen inni symud yr agenda ymlaen. Os bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynigion i wneud hynny, bydd yn cael cefnogaeth Angela, cefnogaeth y blaid hon, a chefnogaeth y Siambwr gyfan rwyf yn siŵr. Mae hon wedi bod yn ddadl bwysig a gwerth chweil. Gadewch inni fynd ati'n awr i fwrw ymlaen â'r uchelgais sydd ei hangen i wireddu hyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes

amendment. Does any Member object? I see that there are objections. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, rwyf yn gohirio'r bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

## **Dadl Democraidaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate**

### **Canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr Programme for International Student Assessment Results**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

*Cynnig NDM4628 Peter Black*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi cyhoeddi Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ddiweddar;*

*2. Yn gresynu, ar gyfer darllen a mathemateg, fod Cymru wedi disgyn y tu ôl i gyfartaledd gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac ar gyfer darllen, mathemateg a gwyddoniaeth, fod gan Gymru sgôr rhwngwladol is nag yn 2006;*

*3. Yn nodi effaith blynnyddoedd olynol o dangyllido ar ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr.*

**Jenny Randerson:** I move the motion.

Last month, the results of the Programme for International Student Assessment were published. Of the 67 countries that were included, Wales was ranked in thirty-eighth place for reading, fortieth for maths and thirtieth for science. In each subject, Wales's score was below the average for the advanced countries in the Organisation for Economic Co-operation and Development. More alarmingly, Wales's score was also below the international average, which includes the scores of some of the world's least developed countries. Of course, PISA tables, like any

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Motion NDM4628 Peter Black*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes the recent publication of the OECD's Programme for International Student Assessment;*

*2. Regrets that, for reading and mathematics, Wales has fallen behind the average for the OECD countries, and that for reading, mathematics and science, Wales has a lower international ranking than in 2006;*

*3. Notes the effect that successive years of underfunding has had on the PISA results.*

**Jenny Randerson:** Cynigiaf y cynnig.

Y mis diwethaf, cyhoeddwyd canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA). O blith y 67 o wledydd a oedd yn cael eu cynnwys, roedd Cymru yn safle 38 ar gyfer darllen, yn safle 40 ar gyfer mathemateg ac yn safle 30 ar gyfer gwyddoniaeth. Ym mhob pwnc, roedd sgôr Cymru yn is na sgôr cyfartalog y gwledydd datblygedig yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Yn fwy dychrynllyd byth, roedd sgôr Cymru hefyd yn is na'r sgôr cyfartalog yn rhwngwladol, sy'n cynnwys sgôr rhai o

other league tables, should be treated with caution. No two countries are identical; each country has its own priorities, and the results may well reflect that. For example, if a country values science more than other subjects, it may well outperform others in science, but fall behind in language and maths. However, the direction of travel that was shown by the publication of the PISA tables is clear; it shows that there is a real cause for concern. I would remind Members that we were disappointed by the results in 2006, and that the results have become relatively worse since then.

The PISA results are the latest in a long line of damning evidence against the Welsh Assembly Government's record on education. The funding gap between England and Wales has long been allowed to grow, and we have discussed it here on many occasions. Logic dictates that it is likely to have some impact on students' results. In August, the publication of A-level results showed that Wales was slipping further behind England. Pass rates in Wales dropped slightly, while England managed a 0.5 per cent improvement.

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):** Michael Davidson of the OECD, who was one of the programme officers for PISA, said to the BBC on this point that

'There are only six countries in the OECD that spend more per students than in the UK...We know there isn't a particularly strong relationship between levels of expenditure and performance.'

Do you accept those points, or are you going to continue to claim that the level of spending has an alibi for poor performance?

**Jenny Randerson:** I will make two points in response to that. First of all, had you carried on with your quotation, you would have seen

wledydd lleiaf datblygedig y byd. Wrth gwrs, dylai tablau PISA, fel unrhyw dablau cynghrair eraill, gael eu trin yn ofalus. Nid oes unrhyw ddwy wlad yr un fath; mae gan bob gwlad ei blaenoriaethau ei hun, ac mae'n bur bosibl y bydd y canlyniadau'n adlewyrchu hynny. Er enghraifft, os yw gwlad yn rhoi mwy o bwyslais ar wyddoniaeth na phynciau eraill, mae'n gwbl bosibl y bydd yn perfformio'n well na gwledydd eraill mewn gwyddoniaeth, ond y bydd ar ei hôl hi o ran iaith a mathemateg. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad yn glir wrth edrych ar y tablau sydd wedi'u cyhoeddi gan PISA; mae'n dangos bod rheswm go iawn dros bryderu. Hoffwn atgoffa'r Aelodau inni gael ein siomi gan ganlyniadau 2006, a bod y canlyniadau wedi gwaethgu ers hynny.

Canlyniadau PISA yw'r diweddaraf mewn rhestr hir o dystiolaeth ddamniol yn erbyn record Llywodraeth Cynulliad Cymru ar addysg. Mae'r bwlch ariannu rhwng Cymru a Lloegr wedi cael rhwydd hynt i ledu ers tro, ac rydym wedi ei draffod yma ar sawl achlysur. Mae rheswm yn dweud bod hyn yn debygol o effeithio rhywfaint ar ganlyniadau myfyrwyr. Ym mis Awst, dangosodd y canlyniadau Safon Uwch fod Cymru'n llithro ymhellach y tu ôl i Loegr. Bu rhywfaint o ostyngiad yn y cyfraddau pasio yng Nghymru, ond llwyddodd Lloegr i wella ei pherfformiad 0.5 cant.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Wrth sôn wrth y BBC am y pwynt hwn, dywedodd Michael Davidson o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a oedd yn un o swyddogion rhaglen PISA:

Dim ond chwe gwlad yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd sy'n gwario mwy ar bob myfyriwr na'r DU... Rydym yn gwybod nad oes perthynas arbennig o gryf rhwng lefelau gwariant a pherfformiad.

A ydych yn derbyn y pwyntiau hynny, neu a ydych yn mynd i barhau i honni bod gan lefel y gwariant alibi am berfformiad gwael?

**Jenny Randerson:** Gwnaf ddau bwynt i ymateb i hynny. Yn gyntaf oll, pe baech wedi darllen rhagor o'r dyfyniad, byddech wedi

it pointed out that there is a relationship. My recollection is that it is in the order of about 9 per cent. Secondly, international comparisons rely on various things. For example, a country that pays its teachers relatively low wages compared with the UK, where teachers are relatively well paid, will come out badly in such international comparisons with regard to how much they spend. However, you can compare within the UK, and we can compare ourselves with England and Scotland, because the terms and conditions for teachers, who account for some 85 per cent of spending on education, are the same throughout the UK. I have thought about this point in some detail, Minister, and I am absolutely sure that one can say that it is reasonable to suggest that a spending gap of £500 or more per pupil per year has some kind of impact on our results.

5.40 p.m.

Before I gave way to the Minister, I referred to the drop in the pass rates in Wales at A-level, whereas England managed a 0.5 per cent improvement. Even in areas where standards have improved, they have improved faster elsewhere. For example, this year, there was a 0.9 per cent improvement in GCSE passes at grades A\* to C in Wales, but a 2 per cent improvement in England. At key stage 3, Welsh pupils performed less well in English and mathematics than pupils in every region of England. The difference in results in English is now 8 per cent, which is the greatest since devolution.

To return to the PISA results, it is worth pointing out that the Welsh Government decided not to participate in the comparative measurement of foreign language skills, which is a great pity because, as a country that is bilingual and which hopes to become fully bilingual, we should have better language skills than other parts of the UK.

The Welsh Liberal Democrats have warned for years that the spending gap of over £500 per pupil between England and Wales should not be allowed to grow and that it would ultimately have disastrous consequences for

gweld ei fod yn dweud bod perthynas yn bodoli. O'r hyn rwyf fi'n ei gofio, mae hynny'n oddeutu 9 y cant. Yn ail, mae cymriaethau rhyngwladol yn dibynnu ar amrywiol bethau. Er enghraifft, bydd gwlad sy'n talu cyflog cymharol isel i'w hathrawon o'i chymharu â'r DU, lle mae athrawon yn cael eu talu'n eithaf da, yn dod allan yn wael yn y cymriaethau rhyngwladol o ran faint maent yn ei wario. Fodd bynnag, gallwch gymharu o fewn y DU, a gallwn ein cymharu ein hunain â Lloegr a'r Alban, gan fod telerau ac amodau'r athrawon, sy'n cyfrif am oddeutu 85 y cant o wariant ar addysg, yr un fath ledled y DU. Rwyf wedi meddwl am y pwynt hwn yn fanwl, Weinidog, ac rwyf yn gwbl sicr y gellir dweud ei bod yn rhesymol awgrymu bod bwlch gwariant o £500 neu fwy y disgylb y flwyddyn yn cael rhyw fath o effaith ar ein canlyniadau.

Cyn imi ildio i'r Gweinidog, cyfeiriais at y gostyngiad yn y cyfraddau pasio yng Nghymru ar gyfer Safon Uwch, tra mae'r cyfraddau wedi gwella 0.5 y cant yn Lloegr. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae safonau wedi gwella, maent wedi gwella'n gyflymach mewn mannau eraill. Er enghraifft, eleni roedd 0.9 y cant o welliant mewn cyfraddau pasio TGAU rhwng A\* ac C yng Nghymru, ond roedd 2 y cant o welliant yn Lloegr. Yng nghyfnod allweddol 3, nid oedd perfformiad disgylion Cymru cystal â disgylion ym mhob rhanbarth o Loegr mewn Saesneg a mathemateg. O ystyried Saesneg fel pwnc, mae'r gwahaniaeth yn y canlyniadau yn 8 y cant erbyn hyn—y mwyaf ers datganoli.

I ddychwelyd at ganlyniadau PISA, mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn y cynllun i fesur sgiliau iaith dramor. Mae hynny'n drueni mawr oherwydd, fel gwlad sy'n ddwyieithog ac sy'n gobeithio bod yn gwbl ddwyieithog yn y dyfodol, dylai ein sgiliau iaith fod yn well na sgiliau iaith rhannau eraill o'r DU.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi rhybuddio ers blynnyddoedd na ddylid caniatáu i'r bwlch gwariant rhwng Cymru a Lloegr, sy'n fwy na £500 y disgylb, dyfu, ac y byddai yn y pen draw yn arwain at

educational attainment. We believe that the PISA report shows this to be the case. The Government, as has just been demonstrated, takes a different view. Carwyn Jones said that the PISA results are not connected with funding, and the Government has provided its reasons for believing this, which the Minister has just demonstrated. However, I draw Members' attention to the PISA report, which says that funding has an impact—not a strong one, but an impact nonetheless. There is direct evidence of the impact of funding on results.

If poor results are not down to funding, it must be for some other structural reason. Last year, before the PISA results were published, the Minister said that,

'In Wales over the decade of devolution we have implemented most of the changes the profession wanted to see.... We will see in December when the international comparisons of school performance are reported [in the PISA survey] whether that approach had paid off.'

On 2 November, in answer to a question from Kirsty Williams, the First Minister said,

'The question you asked is whether we are confident that, in December, the PISA figures will show that our approach has paid off. That is our intention, and we hope to see that performance in Wales continues to rise'.

Now that the results have been published, it is clear that the strategy has not worked. The Minister, to his credit, has been absolutely clear that he accepts this. He said that the 2009 figures paint an even more disappointing picture of our performance and progress, and he has ordered a review.

Clearly, the Government's own structures, which it has been building over the last few years, are not delivering the required results. We are not alone in calling for a re-think of how the Government deals with education. Across the various teaching unions and professional bodies, people are calling for a

However, underfunding cannot bear all the responsibility. David Reynolds, professor of education at Plymouth University, said that the country has good schools but lacks consistency. He says that it is not that we do not know how to educate children, but that we just do not do it reliably across the system. The OECD said that the UK tends to be one of the highest spenders per student, adding—as the Minister himself said—that there is not a particularly strong relationship between levels of expenditure and performance.

**Jeff Cuthbert:** I am grateful to you, Mark, for giving way. Perhaps you could answer the question that the Minister put to Paul, who did not answer it: how would your party's proposals to cut the education budget by 20 per cent help in this regard?

**Mark Isherwood:** You will note from Plenary records over the last eight years that I have been consistently highlighting this gap, even when budgets were increasing. Unfortunately, legacies from another place, under another party, have put us in this unenviable situation. As the OECD also said, what is more important, and evident from the data, is how the money is spent. Wales's dramatic educational decline suggests that Labour-Plaid's overly centralised and bureaucratic management of schools is letting down a generation of pupils, parents and teachers. This Welsh Government and its Labour-led predecessors have stubbornly followed a direction of travel that has failed

Dyweddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fod perfformiad Cymru'n dangos bod y wlad yn wynebu her, o'i chymharu â gweddill y DU. Nid yw'r canlyniadau'n waith darllen hawdd i Lywodraeth Cymru. Yn amlwg, mae un flwyddyn o dangyllido ar ôl y llall gan Lywodraeth Cymru yn rhannol gyfrifol am y sefyllfa hon. Adeg datganoli, 12 mlynedd yn ôl, roedd y cyllid a oedd yn cael ei fuddsoddi ym mhob disgylbl yng Nghymru £58 yn llai ar gyfartaledd na'r hyn a oedd yn cael ei fuddsoddi yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn wedi codi o £58 i £527.

Fodd bynnag, ni ellir rhoi'r bai i gyd ar dangyllido. Dywedodd David Reynolds, yr Athro Addysg ym Mhrifysgol Plymouth, fod gan y wlad ysgolion da ond bod diffyg cysondeb. Mae'n dweud ein bod yn gwybod sut i addysgu plant, ond nad ydym yn gwneud hynny'n ddibynadwy ar draws y system. Dywedodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd bod y DU yn tueddu i fod yn un o'r gwledydd sy'n gwario fwyaf ar bob myfyriwr, gan ychwanegu—fel y dywedodd y Gweinidog ei hun—nad oes perthynas arbennig o gryf rhwng lefel y gwariant a'r perfformiad.

**Jeff Cuthbert:** Rwyf yn ddiolchgar i chi, Mark, am ildio. Efallai y gallich ateb y cwestiwn a ofynnodd y Gweinidog i Paul, na wnaeth ei ateb: sut y byddai cynigion eich plaid i leihau 20 y cant ar y gyllideb addysg yn helpu yn hyn o beth?

**Mark Isherwood:** Fe welwch o gofnodion y Cyfarfod Llawn dros yr wyth mlynedd diwethaf fy mod wedi bod yn tynnu sylw at y bwlch hwn yn gyson, hyd yn oed pan oedd cyllidebau'n cynyddu. Yn anffodus, yr hyn rydym wedi'i etifeddu gan le arall, o dan blaidd arall, sydd wedi ein rhoi yn y sefyllfa annymunol hon. Fel y dywedodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd hefyd, yr hyn sy'n bwysicach ac sy'n amlwg o edrych ar y data, yw sut y mae'r arian yn cael ei wario. Mae'r dirywiad dramatig mewn addysg yng Nghymru yn awgrymu bod dull rheoli ysgolion Llafur-Plaid sy'n rhy ganolog a biwrocrataidd yn siomi cenhedlaeth o ddisgyblion, rhieni ac

calamitously. It has failed a whole generation of lost children in Wales, trapped on the wrong side of the great educational divide, despite warnings to Ministers over many years. Its answer is to steer dead ahead and push the throttle to the floor—disempowering, directing and emasculating. These dismal results were bad news for the nation's schools and urgent action is needed to reverse the disturbing downward trend in standards.

The chief executive of the General Teaching Council for Wales has stated that what is needed is a genuine continuum, applying to all teachers, which builds year by year on their skills and experience and consistently improves their classroom competence and wider capability. This will bolster key areas of teaching, such as literacy and numeracy—the building blocks of pupil attainment across the curriculum—as well as boosting results in science subjects, which would have a strong influence on the country's economic competitiveness, addressing leadership skills among headteachers and the whole teaching workforce. Done properly, this will empower and motivate, not dictate and direct.

The 2003 'The Lost Children of Wales' report found that young people and Welsh businesses were looking for a transformation that would focus on the development of leadership, teamwork, communication and creativity. The report found that in Welsh schools, too many young people's minds were unseen, the owners economically disabled, entering the workforce with results that alarmed employers. It found that young people wanted to succeed, have a good job and own their own home, but employers complained that school ill equipped them and left them poorly motivated, and young people agreed. In fact, school inadvertently trained them in absenteeism as they devised ways to escape what they saw as a raw deal. This research found that we must remove the wall between work and what is taught in schools, teaching the curriculum in a work-related

athrawon. Mae Llywodraeth bresennol Cymru a'r Llywodraethau blaenorol o dan arweiniad Llafur wedi dilyn trywydd sydd wedi methu'n enbyd. Mae wedi siomi cenhedlaeth gyfan o blant coll yng Nghymru, plant sydd wedi'u dal ar ochr anghywir y rhaniad addysg mawr, er gwaethaf rhybuddion i Weinidogion dros nifer o flynyddoedd. Ei hateb yw bwrw ymlaen yn benderfynol gan roi ei throed ar y sbardun—gan ddadrymuso, gorchymyn a gwanhau. Mae'r canlyniadau digalon hyn yn newyddion drwg i ysgolion y wlad ac mae angen gweithredu ar frys i wrthdroi'r duedd ar i lawr mewn safonau, sy'n destun pryer mawr.

Mae prif weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi datgan mai'r hyn sydd ei angen yw continwwm diliys, sy'n berthnasol i bob athro ac sy'n adeiladu ar eu sgiliau a'u profiadau o flwyddyn i flwyddyn, gan fynd ati'n gyson i wella eu cymhwysedd yn yr ystafell ddosbarth a'u gallu ehangach. Bydd hyn yn cryfhau meysydd allweddol addysgu, fel llythrennedd a rhifedd—blociau adeiladu cyrhaeddiad disgylion ar draws y cwricwlwm—ac yn rhoi hwb i ganlyniadau mewn pynciau gwyddoniaeth, a fyddai'n cael dylanwad cryf ar gystadleurwydd economaidd y wlad, ac yn rhoi sylw i sgiliau arwain ymhliith penaethiaid a'r gweithlu addysgu cyfan. O'i wneud yn iawn, bydd hyn yn grymuso ac yn ysgogi, yn hytrach na rhoi gorchymynion a chyfarwyddiadau.

Yn 2003, canfu adroddiad 'The Lost Children of Wales' fod pobl ifanc a busnesau Cymru yn chwilio am ffordd o drawsnewid a fyddai'n canolbwytio ar ddatblygu arweinyddiaeth, gwaith tîm, cyfathrebu a chreadigrwydd. O edrych ar ysgolion Cymru, canfu'r adroddiad nad oedd meddyliau hanner digon o bobl ifanc yn cael eu gweld, a'u bod yn economaidd anabl, yn ymuno â'r gweithlu gyda chanlyniadau a oedd yn dychryn cyflogwyr. Canfu fod pobl ifanc yn awyddus i lwyddo, i gael swydd dda ac i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain, ond roedd y cyflogwyr yn cwyno nad oedd yr ysgol wedi rhoi digon o sgiliau iddynt a'u bod yn gadael heb brin ddim cymhelliant. Roedd y bobl ifanc yn cytuno hefyd. Yn wir, yn anfwriadol, roedd yr ysgol wedi'u hyfforddi i fod yn absennol wrth iddynt geisio meddwl am ffyrdd o ddianc rhag yr hyn a oedd, yn eu

context, building basic and social skills rather than just bossing young people around. The then Welsh Minister for education buried the report rather than act on its evidence-based recommendations.

barn hwy, yn sefyllfa lle roeddent yn cael cam. Canfu'r gwaith ymchwil hwn ei bod yn rhaid inni chwalu'r wal rhwng gwaith a'r hyn sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion, gan addysgu'r cwricwlwm mewn cyd-destun gwaith, a datblygu sgliau sylfaenol a sgliau cymdeithasol yn hytrach na dim ond dweud wrth bobl ifanc beth i'w wneud. Yr hyn a wnaeth Gweinidog dros Addysg Cymru ar y pryd oedd claddu'r adroddiad, yn hytrach na gweithredu ar ei argymhellion a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can you wind up, please?

**Mark Isherwood:** Our young people deserve better. We must raise standards and recognise that Ministers do not always know best.

**Alun Davies:** Many of us have become used to quite surreal Wednesday afternoons in this place recently. However, it has been extraordinary to spend the last hour listening to Liberal Democrat and Conservative Members demanding that this Government spend more. The last time that we debated education in this place, just before Christmas, we were debating the impact of an £800-million cut in the teaching grant for universities, made by their own Government in London. Frankly, it ill behoves any Conservative or Liberal Democrat Member to come here and grizzle about the expenditure patterns of this Government.

Let me address the points on underfunding made by those two parties in this debate. I was glad to see them coming together a bit; I had thought that they were falling out of love a bit yesterday, so it is good to see that they have reconciled their differences this afternoon. In opening the debate Jenny Randerson—as did Peter Black later—used the figure of £527 for the difference in classroom funding between Wales and England. Perhaps if they had paid more attention while they were in the classroom they would understand that the real comparison between Wales and England is £346, when you exclude the London figures. Had they continued reading—[*Interruption.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Mark Isherwood:** Mae ein pobl ifanc yn haeddu gwell. Rhaid inni godi safonau a chydnabod nad y Gweinidogion sy'n gwybod orau bob amser.

**Alun Davies:** Mae nifer ohonom wedi dod i arfer â phrynhawniau Mercher eithaf swreal yn y fan hon yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae wedi bod yn rhyfeddol treulio'r awr ddiwethaf yn gwrando ar Aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn mynnu bod y Llywodraeth hon yn gwario mwy. Y tro diwethaf inni drafod addysg yn y fan hon, ychydig cyn y Nadolig, roeddem yn trafod effaith £800 miliwn o doriad yn y grant addysgu ar gyfer prifysgolion, a wnaed gan eu Llywodraeth hwy yn Llundain. Yn blwmp ac yn blaen, ni ddylai unrhyw Aelod o'r Ceidwadwyr na'r Democratiaid Rhyddfrydol ddod yma i gwyno am batrymau gwario'r Llywodraeth hon.

Gadewch imi fynd i'r afael â'r pwyntiau am dangyllido a wnaed gan y ddwy blaid yn y ddadl hon. Roeddwn yn falch o'u gweld yn dod at ei gilydd; roeddwn wedi meddwl eu bod yn dechrau pellhau ddoe, felly mae'n dda gweld eu bod wedi cymodi eu gwahaniaethau y prynhawn yma. Wrth agor y ddadl, defnyddiodd Jenny Randerson—fel y gwnaeth Peter Black yn ddiweddarach—£527 fel y ffigur i ddangos y gwahaniaeth rhwng yr arian sy'n cael ei roi i ddosbarthiadau yng Nghymru a Lloegr. Efallai pe baent wedi talu mwy o sylw pan oeddent yn y dosbarth, byddent yn deall bod y gymhariaeth go iawn rhwng Cymru a Lloegr yn £346, pan fyddwch yn hepgor y ffigurau ar gyfer Llundain. Pe baent wedi parhau i ddarllen—[*Torri ar*

*draws.]*

Let me continue my point. You are getting up, Jenny, but I will not let you intervene now. You can intervene in two minutes' time. You are laughing now, but you did not read the whole document. Had you read the whole of the document on which you are basing your argument, you would have seen that the next paragraph demonstrates that the total spend on education in Wales per head of population is £830, and the equivalent figure for England is £814. If there is a gap, it is that Wales is spending more on education, and England less. A gap exists because, in this country, this Government has consistently, over a number of years, spent more on education than has been spent in England per head of population—considerably more. [Interruption.] I notice that you no longer want to intervene; just to interrupt. That tells us all that you need to know about this bunch, does it not?

We spent more on education, and when we sought last year to maximise the impact of that greater spend, with the PwC process, who opposed it? The Liberal Democrats and the Tories. We do not need to do that, they said; it was wasting money.

First, we spend more money; secondly, we do not make the cuts that you have made, now that you have the opportunity, in Government. We will see what the people of Wales make of that in May. We did not make those cuts, but looked at how to maximise the benefit of our spend, and what do we get from the parties opposite? No support, but criticism—and criticism based on a poor reading of a bad document. That is what they have based their debate on this afternoon.

They are doing a tremendous disservice to people in Wales in doing so. I disagree with their proposition this afternoon, that you can explain away the PISA results entirely on the basis of funding. If they understood those

Gadewch imi barhau â'r pwynt rwyf yn ei wneud. Rydych yn codi ar eich traed, Jenny, ond ni fyddaf yn gadael ichi ymyrryd yn awr. Cewch ymyrryd mewn dwy funud. Rydych yn chwerthin yn awr, ond ni wnaethoch ddarllen y ddogfen gyfan. Pe baech wedi darllen y ddogfen rydych yn seilio'ch dadl arni yn ei chyfarwydd, byddech wedi gweld bod y paragraff nesaf yn dangos bod cyfanswm y gwariant ar addysg yng Nghymru y pen o'r boblogaeth yn £830, a bod y ffigur cyfatebol ar gyfer Lloegr yn £814. Os oes bwlc'h, mae hwnnw'n dangos bod Cymru'n gwario mwy ar addysg, a bod Lloegr yn gwario llai. Mae bwlc'h yn bodoli oherwydd, yn y wlad hon, mae'r Llywodraeth hon wedi mynd ati'n gyson dros nifer o flynyddoedd i wario mwy y pen ar addysg na'r hyn sy'n cael ei wario yn Lloegr—crys dipyn yn fwy. [Torri ar draws.] Sylwaf nad oes arnoch eisiau ymyrryd mwyach; dim ond torri ar draws. Onid yw hynny'n dweud popeth sydd angen inni ei wybod am y criw hwn?

Gwnaethom wario mwy ar addysg, a phan aethom ati'r llynedd i wneud y gorau o effaith y gwariant uwch hwnnw, gyda'r broses PwC, pwy wnaeth wrthwyebeu? Y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid. Nid oes angen inni wneud hynny, meddant; gwastraffu arian oedd hynny.

Yn gyntaf, rydym yn gwario mwy o arian, yn ail, nid ydym yn gwneud y toriadau rydych chi wedi'u gwneud, a chithau erbyn hyn wedi cael y cyfre, yn y Llywodraeth. Cawn weld beth yw barn pobl Cymru am hynny fis Mai. Nid ni oedd yn gyfrifol am wneud y toriadau hynny, gwnaethom ni edrych ar sut i sicrhau ein bod yn dwyn y budd mwyaf posibl o'n gwariant. A beth rydym yn ei gael gan y pleidiau gyferbyn? Dim cefnogaeth, dim ond beirniadaeth—beirniadaeth yn seiliedig ar ddarllen dogfen ddrwg yn wael ar ben hynny. Ar hynny y maent wedi seilio'u dadl y prynhawn yma.

Maent yn gwneud cam mawr â phobl Cymru wrth wneud hynny. Rwyf yn anghytuno â'u cynnig y prynhawn yma, y gellir egluro canlyniadau PISA yn gyfan gwbl ar sail arian. Pe baent yn deall y canlyniadau hynny,

results, and if they had read the whole document, rather than a press release, they would understand that there are countries such as Finland that spend about the same as Wales, but do much better; countries such as Luxembourg that spend the same as Wales, and get the same kind of results; and countries such as New Zealand, which spend less than Wales, but do far better. It does no service to Welsh pupils and learners to fail to understand these basic facts. [Interruption.] I will not let you intervene, Eleanor; do not even ask.

What this demonstrates—[Interruption.]

**The Deputy Presiding Officer:** Eleanor Burnham—

**Alun Davies:** I was not listening to Eleanor; I have learned not to do that over the last four years.

The report shows an unacceptable fall in overall performance, and everyone in education, who does understand this, needs to appreciate that. We have to take responsibility for it, and that means not seeking easy answers, and not failing to read documents properly. It means that—[Interruption.]

**The Deputy Presiding Officer:** Alun has indicated that he is not taking an intervention, Eleanor.

**Alun Davies:** We need to look hard at how we deliver education in Wales, and, to be fair, Paul Davies made some good points on that. Unfortunately, his whole case was undermined by the way his party has treated education in the budget discussions; however, we will put that to one side. We need to take a hard look at how we deliver education in Wales, at how we structure education in Wales, and we cannot hide behind easy slogans and poor debates on a Wednesday afternoon. I will leave you with that thought.

6.20 p.m.

a phe baent wedi darllen y ddogfen yn ei chyfarwydd, yn hytrach na datganiad i'r wasg, byddent yn deall y ceir gwledydd fel y Ffindir sy'n gwario tua'r un faint â Chymru ond sy'n gwneud yn well o lawer; gwledydd fel Lwcsembwrg sy'n gwario yr un faint â Chymru ac yn cael yr un math o ganlyniadau; a gwledydd fel Seland Newydd, sy'n gwario llai na Chymru ond yn gwneud yn well o lawer. Nid yw methu â deall y ffeithiau sylfaenol hyn yn gwneud dim i ddisgyblion a dysgwyr Cymru. [Torri ar draws.] Ni fyddaf yn gadael ichi ymyrryd, Eleanor; peidiwch â gofyn hyd yn oed.

Beth mae hyn yn ei ddangos—[Torri ar draws.]

**Y Dirprwy Lywydd:** Eleanor Burnham—

**Alun Davies:** Nid oeddwn yn gwrando ar Eleanor; rwyf wedi dysgu peidio â gwneud hynny dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r adroddiad yn dangos gostyngiad annerbyniol mewn perfformiad cyffredinol, ac mae angen i bawb mewn addysg nad ydynt yn deall hyn werthfawrogi hynny. Rhaid inni ysgwyddo cyfrifoldeb drosto, ac mae hynny'n golygu peidio â chwilio am atebion hawdd, nid peidio â darllen dogfennau'n briodol. Mae'n golygu—[Torri ar draws.]

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae Alun wedi dweud nad yw'n derbyn ymyriad, Eleanor.

**Alun Davies:** Mae angen inni edrych yn fanwl ar y modd rydym yn darparu addysg yng Nghymru ac, a bod yn deg, cododd Paul Davies bwyntiau da am hynny. Yn anffodus, cafodd ei achos cyfan ei danseilio gan y ffordd y mae ei blaidd wedi trin addysg yn y trafodaethau ar y gyllideb; fodd bynnag, rhawn hynny i'r naill ochr. Mae angen inni edrych yn fanwl ar y modd rydym yn darparu addysg yng Nghymru, ac ar y modd rydym yn strwythuro addysg yng Nghymru. Ni allwn guddio y tu ôl i sloganau hawdd a dadleuon gwael ar brynhawn dydd Mercher. Byddaf yn gadael y mater ar hynny.

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):**

The 2009 Programme for International Student Assessment results paint a disappointing picture of our performance and progress. I have not hidden from this fact and I think that colleagues will acknowledge that I have been very clear in my view that this is a systemic failure. We all share a responsibility and we all need to be willing to take the difficult decisions and actions to turn matters around.

PISA is a highly respected and robust measure of the relative performance of educational systems. These results cannot be argued away or excused. We must face up to the harsh truth: schools in Wales are not delivering the outcomes that our young people need and deserve. However, the suggestion that funding is the primary issue here simply does not stack up. We have looked at the evidence on expenditure and performance. It is a complex picture, but it tells a consistent and clear story: while there is a correlation between expenditure and performance, it is a weak one. There are many interesting examples of countries that deviate substantially from the trend line, or buck the trend, and funding level accounts for less than 10 per cent of the variation in PISA performance.

Estonia and Poland, which spend around US\$40,000 per student, performed at the same level as Norway, Switzerland and the United States, which spend over US\$100,000 per student. In New Zealand, which is one of the highest performing countries with regard to reading, spends well below the average per student. It is clearly more about what you do with the resources at your disposal than simply the overall quantum. No party that reduces this to an issue of funding, as the Liberal Democrats have done today, can be regarded as having a serious role to play in turning around these results.

If funding levels are not the main cause of variation, the question must be: ‘What is it that accounts for over 90 per cent of the difference in performance?’. That is why my response to PISA stated clearly that there was

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):**

Mae canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2009 yn rhoi darlun siomedig o'n perfformiad a'n cynnydd. Nid wyf wedi cuddio rhag y ffaith hon a chredaf y bydd fy nghyd-Aelodau yn cydnabod fy mod wedi bod yn glir iawn fy marn fod hwn yn fethiant systemig. Rydym i gyd yn rhannu cyfrifoldeb ac mae angen i bob un ohonom fod yn barod i gymryd y penderfyniadau a'r camau anodd er mwyn newid pethau.

Mae PISA yn ddull uchel ei barch a chadarn o fesur perfformiad cymharol systemau addysgol. Ni ellir dadlau'r canlyniadau nes eu bod yn diflannu, na'u hesgusodi. Rhaid inni wynebu'r gwirionedd anodd: nid yw ysgolion yng Nghymru yn cyflawni'r canlyniadau y mae ar ein pobl ifanc eu hangen na'r rhai y maent yn eu haeddu. Fodd bynnag, nid yw'r awgrym mai cyllid yw'r mater allweddol yma yn dal dŵr. Rydym wedi edrych ar y dystiolaeth ar wariant a pherfformiad. Mae'n ddarlun cymhleth, ond mae'n adrodd stori gyson a chlir: er bod cydberthynas rhwng gwariant a pherfformiad, nid yw'n berthynas gadarn. Ceir sawl enghraift ddiddorol o wledydd sy'n gwyo'n sylweddol oddi wrth y llinell duedd, neu'n mynd yn groes i'r duedd, ac mae cyllid yn cyfrif am lai na 10 y cant o'r amrywiad ym mherfformiad PISA.

Roedd perfformiad Estonia a Gwlad Pwyl, a oedd yn gwario oddeutu UDA\$40,000 ar bob myfyriwr, yr un fath â pherfformiad Norwy, y Swistir a'r Unol Daleithiau, sy'n gwario dros UDA\$100,000 ar bob myfyriwr. Mae Seland Newydd, sef un o'r gwledydd sy'n perfformio orau o ran darllen, yn gwario dipyn llai na'r cyfartaledd ar bob myfyriwr. Mae'n amlwg yn ymwneud mwy â'r hyn rydych yn ei wneud gyda'r adnoddau sydd ar gael ichi na'r cwantwm cyffredinol yn unig. Ni ellir ystyried unrhyw blaid sy'n gwneud hyn yn fater o arian, fel y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i wneud heddiw, yn blaid a chanddi rôl ddifrifol i'w chwarae i wyrdroi'r canlyniadau hyn.

Os nad lefelau ariannu yw'r prif reswm dros yr amrywiad, rhaid gofyn y cwestiwn: 'Beth sy'n gyfrifol am dros 90 y cant o'r gwahaniaeth mewn perfformiad?'. Dyna pam mae fy ymateb i PISA yn datgan yn glir nad

no single answer, and that we would use the data and work with the sector to unpick the complex issues at play here, and why this Government's focus is on delivering policies that will give tangible and sustainable reform across the whole system.

We are about securing the future of our young people in the short, medium and long term. Simply throwing more money at the system will not generate the performance improvement that we seek. Of course, there are some things that are a priority for additional resources, and that is why we are investing new funding into the foundation phase. There are other aspects to the resource management of the system that are wasteful and are a drain on the learning of young people across Wales. With surplus places across Welsh schools approaching one in five, local authorities are using up resources on empty desks. School reserves have been growing, last year reaching £78 million, and there are schools across Wales with excessive amounts of funding held back and not being used to raise standards. There is an inevitable cost to operating services for schools 22 times, and that is why we are seeking greater collaboration between local authorities in the interests of learners.

Educational outcomes are influenced by a complex and wide-ranging set of factors, including many outside of the scope of formal schooling. These include parental education and background, home environment, social and economic factors and peer pressure, to name but a few. Extended debate narrowly focused on one part of the overall system is distracting and risks diverting attention from the real, many and complex challenges that we face. As the Organisation for Economic Co-operation and Development secretary general says in the foreword to the 2009 PISA report:

'wealth and spending on education alone are no guarantee for better educational outcomes.'

The key word for me is 'alone'.

Funding is an important factor, and my front-

oedd un ateb, ac y byddem yn defnyddio'r data ac yn gweithio gyda'r sector i ddethol y materion cymhleth sydd ar waith yma. Dyma pam mae'r Llywodraeth hon yn canolbwytio ar gyflwyno polisiau a fydd yn arwain at ddiwygio pendant a chynaliadwy ar draws y system i gyd.

Rydym am sicrhau dyfodol ein pobl ifanc yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Ni fydd taflu mwy o arian i'r system yn sicrhau'r perfformiad gwell rydym yn ei geisio. Wrth gwrs, mae rhai pethau sy'n flaenoriaeth ar gyfer adnoddau ychwanegol, a dyna pam ein bod yn buddsoddi arian newydd yn y cyfnod sylfaen. Mae agweddu eraill sy'n ymwneud â rheoli adnoddau'r system sydd yn wastraffus ac yn dreth ar ddysg pobl ifanc ledled Cymru. Gyda'r lleoedd gwag ar draws ysgolion Cymru bron yn un o bob pump, mae awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau ar ddesgiau gwag. Mae cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi bod yn cynyddu, gan gyrraedd £78 miliwn y llynedd, a cheir ysgolion ledled Cymru gyda gormod o arian yn cael ei ddal yn ôl a ddim yn cael ei ddefnyddio i godi safonau. Mae'n anochel bod cost yn gysylltiedig â gweithredu gwasanaethau ar gyfer ysgolion 22 o weithiau, a dyna pam rydym yn ceisio cael mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, er budd y dysgwyr.

Mae canlyniadau addysgol yn cael eu dylanwadu gan ffactorau cymhleth ac eang, gan gynnwys ambell un sydd y tu allan i gwmpas addysg ffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys addysg rhieni a chefndir, amgylchedd y cartref, ffactorau economaidd a chymdeithasol a phwysau gan gyfoedion, i enwi ond rhai. Mae dadl ehangach sy'n canolbwytio i raddau helaeth ar un rhan o'r system yn tarfu ac yn peri risg o dynnu sylw oddi wrth yr heriau niferus, gwirioneddol a chymhleth sy'n ein hwynebu. Fel y mae ysgrifennydd cyffredinol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei ddweud yn y rhagair i adroddiad 2009 PISA:

nid yw cyfoeth a gwariant ar addysg yn unig yn gwarantu gwell canlyniadau addysgol.

Y geiriau allweddol i mi yw 'yn unig'.

Mae arian yn ffactor pwysig, ac mae fy nhîm

line resources review team is working hard to deliver more to the front line, to streamline back-office functions and harness the benefits of better collaboration. I wish that it was so easy that it was just one issue that we had to resolve. We must refocus on higher standards, set our ambitions and expectations high and look for improvement in every aspect of our system. There are many good features in our system, as Professor David Reynolds has acknowledged. I think that he was quoted by Mark Isherwood on that basis. We already have a sound basis in certain parts of Wales for improvement, where we have world-class standards. However, we need to sharpen our focus and build on what we have in place.

We are investing in the early years. Our youngest learners are benefiting from the investment that we have made in the foundation phase. We have prioritised literacy, with work in hand on a new national plan for literacy. The school effectiveness framework is drawing this and other things together, with a focus on literacy, numeracy and combating the link between poverty and attainment. We have put more money into the budget for continuing professional development, one of the issues raised by Paul Davies in a largely serious speech. The review that we have been carrying out of continuing professional development, qualifications for headship and so on is bearing fruit. It was necessary to carry out the review. In the current climate, we can be certain that money will remain scarce, so we have to use what we have as well as we can.

PISA highlights that we need to do more to secure the future of our young people in the short, medium and long term. Many of the policies that we have in place are right, but we need to be focused on the implementation and the spreading of good practice across the whole of Wales. We will be looking closely at a number of key factors. To a large extent, you can summarise the challenge that we face in the context of leadership and accountability. We will be looking at the way we recruit and train our teachers, at the way we hold the system to account, and at our

adolygu adnoddau rheng flaen yn gweithio'n galed i ddarparu mwy i'r rheng flaen, er mwyn symleiddio swyddogaethau cefn swyddfa a choleddu manteision cydweithio gwell. Byddwn yn falch pe bai mor hawdd â datrys un mater. Rhaid inni ail-ganolbwytio ar safonau uwch, gosod ein dyheadau a'n disgwyliadau ar lefel uchel ac edrych ar wella pob rhan o'n system. Mae ein system yn cynnwys llawer o nodweddion da, fel y mae'r Athro David Reynolds wedi cydnabod. Rwyf yn meddwl iddo gael ei ddyfynnu gan Mark Isherwood ar y sail honno. Mae gennym eisoes sail gadarn ar gyfer gwella mewn rhai rhannau o Gymru, lle mae gennym safonau o'r radd flaenaf. Fodd bynnag, mae angen inni wella ein ffocws ac adeiladu ar yr hyn sydd gennym.

Rydym yn buddsoddi yn y blynnyddoedd cynnar. Mae ein dysgwyr ieuengaf yn elwa o'n buddsoddiad yn y cyfnod sylfaen. Rydym wedi blaenoriaethu llythrennedd, ac mae gwaith ar y gweill ar gynllun cenedlaethol newydd ar gyfer llythrennedd. Mae'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yn dod â hyn a phethau eraill at ei gilydd, gan ganolbwytio ar lythrennedd a rhifedd a mynd i'r afael â'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad. Rydym wedi rhoi mwy o arian yn y gyllideb ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus—un o'r materion a godwyd gan Paul Davies mewn arraith eithaf difrifol. Mae'r adolygiad rydym wedi bod yn ei gynnal ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, cymwysterau ar gyfer prifathrawiaeth ac yn y blaen yn dwyn ffrwyth. Roedd angen cynnal yr adolygiad. Yn yr hinsawdd bresennol, gallwn fod yn sicr y bydd arian yn parhau'n brin, felly rhaid inni ddefnyddio'r hyn sydd gennym cystal ag y gallwn.

Mae PISA yn tynnu sylw at y ffaith bod angen inni wneud rhagor i sicrhau dyfodol ein pobl ifanc yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae nifer o'r polisiau sydd gennym ar waith yn iawn, ond mae angen inni ganolbwytio ar weithredu a lledaenu arferion da drwy Gymru gyfan. Byddwn yn edrych yn ofalus ar nifer o ffactorau allweddol. I raddau helaeth, gallwch grynhofio'r her sy'n ein hwynebu yng nghyd-destun arweinyddiaeth ac atebolrwydd. Byddwn yn edrych ar y ffordd rydym yn reciwtio ac yn hyfforddi ein

approach to literacy and numeracy and employability and skills. We will also be looking at the way that schools and local authorities are organised, as our task and finish group on the structure of delivery in education is currently doing. Where we identify a need, changes will be made. A great deal of what we need to do will take time. I will have more to say in early February on some of the further practical proposals that we intend to make.

Turning this around will require honesty, leadership and a new approach to accountability. I have no doubt that our young people deserve better, and I call upon colleagues here today to support the Government as we take the actions necessary to bring about the changes that are necessary.

**Kirsty Williams:** In responding to the debate, I wish to begin by thanking colleagues from across the Chamber for their contributions this afternoon. I had thought when the PISA results were published at the end of last year that there was universal recognition of the seriousness of the PISA process and of the fact that we saw Welsh students performing more badly than they did in 2006. However, having heard Alun Davies describe the report today as a bad report, I was clearly mistaken—

**Alun Davies:** I did not say that—

**Kirsty Williams:** Check the record. That is exactly what you said, Alun Davies. That is exactly what you said. You said that it was a bad document. I am grateful to the Minister for clearly restating in the Chamber this afternoon how seriously he takes the work of PISA and how personally disappointed he is with the results that we saw published. I acknowledge that this Minister for education, who has been in post for little over a year, cannot have the finger pointed at him when, really, these results come at the end of a decade of education policy, designed here and voted on in this Chamber. We were

hathrawon, ar y ffordd rydym yn dal y system i gyfrif, ac ar ein dull o ymdrin â llythrennedd, rhifedd, cyflogadwyedd a sgiliau. Byddwn hefyd yn edrych ar y ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael eu trefnu, fel y mae ein grŵp gorchwyl a gorffen ar y strwythur cyflwyno mewn addysg yn ei wneud ar hyn o bryd. Pan fyddwn yn gweld bod angen, bydd newidiadau'n cael eu gwneud. Bydd llawer o'r hyn y mae angen inni ei wneud yn cymryd amser. Bydd gennyf fwy i'w ddweud ddechrau mis Chwefror ar rai o'r cynigion ymarferol pellach rydym yn bwriadu eu gwneud.

Bydd gweddnewid hyn yn gofyn am onestrwydd, arweinyddiaeth a dull newydd o edrych ar atebolrwydd. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth nad yw ein pobl ifanc yn haeddu gwell, ac rwyf yn galw ar fy nghyd-Aelodau yma heddiw i gefnogi'r Llywodraeth wrth inni gymryd y camau angenrheidiol i wneud y newidiadau angenrheidiol.

**Kirsty Williams:** Wrth ymateb i'r ddadl, hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'm cyd-Aelodau o bob rhan o'r Siambra am eu cyfraniadau'r prynhawn yma. Roeddwn wedi meddwl, pan oedd canlyniadau PISA yn cael eu cyhoeddi ddiweddyr y flwyddyn diwethaf, fod difrifoldeb proses PISA a'r ffaith bod myfyrwyr Cymru yn perfformio'n waeth nag yr oeddent yn 2006 yn cael ei gydnabod yn gyffredinol. Fodd bynnag, ar ôl clywed Alun Davies yn disgrifio'r adroddiad heddiw fel adroddiad gwael, roeddwn yn camgymryd yn amlwg—

**Alun Davies:** Nid dyna ddywedais i—

**Kirsty Williams:** Edrychwch ar y cofnod. Dyna'n union beth ddywedoch chi, Alun Davies. Dyna'n union beth ddywedoch chi. Dywedoch ei bod yn ddogfen wael. Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ailldatgan yn glir yn y Siambra y prynhawn yma mor ddifrifol yw gwaith PISA yn ei dyb ef a pha mor siomedig ydyw ef yn bersonol â'r canlyniadau a gyhoeddwyd. Rwyf yn cydnabod na ellir pwyntio bys ar y Gweinidog presennol dros Addysg, sydd wedi bod yn ei swydd ers ychydig dros flwyddyn, o gofio bod y canlyniadau hyn mewn gwirionedd yn dod ar ddiwedda degawd

promised back in 2006, when the results were disappointing and there was much hand wringing by the then Minister for education, that the steps that were being taken then, in 2006, would ensure that, by 2010, we would be doing better. The sad reality for our children is that that is simply not the case. What shocked me the most perhaps was that, in responding to the publication of this report at the end of last year, the chief executive of the General Teaching Council spoke of the fact that he, and, collectively, the teaching profession, had been assuming that things were working out and that we were doing better.

In answer to the questions that I raised with the First Minister in November, he spoke about hoping that the results would be better the following month. We cannot assume, and we cannot hope; that is not a strategy. We need something more concrete for our children. I welcome the early indication today of the thinking of the Minister for education, and the promise to publish a more detailed action plan for dealing with these problems next month.

6.30 p.m.

On the issue of funding, the Government cannot have it both ways. It cannot say that funding is not an issue at all, and then pledge, in its own budget, to spend more money on education. Surely you recognise the need to spend more resources; otherwise, your own budget would not read the way it does. You are living up to the First Minister's leadership promise to spend more. If it is not an issue of funding, why bother putting more money into the system?

**Leighton Andrews:** As I said in the speech, funding would account for less than 10 per cent of the difference in performance. In speeches from the Liberal Democrats today, the only issue that I have heard about is funding. They have nothing constructive to say about performance, accountability, quality of teaching or leadership. That is pathetic.

**Kirsty Williams:** You are absolutely right to challenge the teaching profession on its role

o bolisi addysg a gynlluniwyd yma ac y pleidleisiwyd arno yn y Siambra hon. Yn ôl yn 2006, pan oedd y canlyniadau'n siomedig a llawer o wasgu dwylo gan y Gweinidog dros Addysg ar y pryd, cawsom addewid y byddai'r camau oedd yn cael eu cymryd bryd hynny, yn 2006, yn sicrhau y byddem yn gwneud yn well yn 2010. Y realiti trist i'n plant yw nad yw hynny'n wir. Efallai mai'r hyn a'm synnodd fwyaf oedd bod prif weithredwr y Cyngor Addysgu Cyffredinol, wrth ymateb i gyhoeddiad yr adroddiad hwn ddiwedd y flwyddyn diwethaf, wedi sôn am y ffaith ei fod ef, a'r proffesiwn addysgu, wedi bod yn tybio bod pethau'n gweithio a'n bod yn gwneud yn well.

Wrth ateb y cwestiynau a godais gyda'r Prif Weinidog ym mis Tachwedd, roedd yn gobeithio y byddai'r canlyniadau'n well y mis canlynol. Ni allwn gymryd yn ganiataol, ac ni allwn obeithio; nid yw hynny'n strategaeth. Mae arnom angen rhywbeth mwy cadarn ar gyfer ein plant. Rwyf yn croesawu'r arwydd cynnar heddiw o safbwytiau'r Gweinidog dros Addysg, a'r addewid i gyhoeddi cynllun gweithredu manylach i ymdrin â'r problemau hyn fis nesaf.

O ran ariannu, ni all y Llywodraeth ei chael hi bob ffordd. Ni all ddweud nad yw arian yn broblem o gwbl, ac yna rhoi addewid, yn ei chyllideb ei hun, i wario rhagor o arian ar addysg. Siawns eich bod yn cydnabod bod angen gwario rhagor o arian; fel arall, ni fyddai eich cyllideb eich hun yn edrych fel y mae. Rydych yn bodloni addewid arweinyddiaeth Prif Weinidog Cymru i wario rhagor. Os nad yw'n fater o gyllid, pam trafferthu rhoi rhagor o arian yn y system?

**Leighton Andrews:** Fel y dywedais yn yr arraith, byddai arian yn cyfrif am lai na 10 y cant o'r gwahaniaeth mewn perfformiad. Yn areithiau'r Democratiaid Rhyddfrydol heddiw, yr unig fater y clywais sôn amdano yw cyllid. Nid oes ganddynt ddim byd adeiladol i'w ddweud am berfformiad, atebolrwydd, safon yr addysgu nac arweinyddiaeth. Mae hynny'n pathetig.

**Kirsty Williams:** Rydych yn llygad eich lle i herio'r proffesiwn addysgu ar ei rôl fel rhan

as part of this debate. As you said, over the last 10 years, the National Assembly for Wales, and successive Welsh Assembly Governments, have provided every initiative that the teaching profession has asked for; perhaps the fault is that we have been a little too interested in listening to the priorities of the provider rather than the needs and desires of service users. We have fallen into that trap. You are also right that we cannot ignore issues around school leadership and the quality of the teachers in front of our children. Evidence shows that the biggest difference that you can make to a child's educational outcome is to improve the quality of the teacher who stands in front of them in the classroom, and that is why it is disappointing that the head of the General Teaching Council assumes that things were all right. We can no longer afford to assume that our headteachers have the skills they need to lead first-class institutions. We can no longer assume that the teachers in our classrooms have the skills they need to do a job for our children.

You are right to quote David Reynolds; there are some excellent institutions in our country, but they are too few and far between, and the good practice is not being spread between those good school leaders and classroom teachers. It comes down to the strategy and policies pursued by the Government, but you cannot take funding out of the picture. Funding has to begin, I believe, with our poorest pupils, because you are right to talk about factors outside the formal education system that affect levels of attainment, and we need therefore to focus on our poorest children, funding them above and beyond the ordinary to make up for some of those factors.

We need to focus on school leadership, the quality of continuing professional development and initial teacher training.

**Alun Davies rose—**

**Kirsty Williams:** I have run out of time, Alun—I am sorry. [Interruption.] With all

o'r ddadl hon. Fel y dywedoch, dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, un ar ôl y llall, wedi darparu pob cynllun y mae'r proffesiwn addysgu wedi gofyn amdano; efallai ein bod wedi bod ar fai yn dangos gormod o ddiddordeb mewn gwrando ar flaenoriaethau'r darparwr yn hytrach nag ar anghenion a dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth. Rydym wedi disgyn i'r trap hwnnw. Rydych hefyd yn llygad eich lle na allwn anwybyddu materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth ysgolion a safon yr athrawon sy'n sefyll o flaen ein plant. Mae tystiolaeth yn dangos mai'r gwahaniaeth mwyaf y gallwch ei wneud i ganlyniad addysgol plentyn yw gwella safon yr athro sy'n sefyll o'i flaen yn yr ystafell dosbarth, a dyna pam ei bod yn siomedig bod pennaeth y Cyngor Addysgu Cyffredinol yn tybio bod popeth yn iawn. Ni allwn fforddio tybio rhagor bod ein penaethiaid yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i arwain sefydliadau o'r radd flaenaf. Ni allwn dybio rhagor bod yr athrawon yn ein hystafelloedd dosbarth yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith er budd ein plant.

Rydych yn llygad eich lle i ddyfynnu David Reynolds; ceir sefydliadau rhagorol yn ein gwlad, ond maent yn rhy brin, ac nid yw'r arferion da yn cael eu rhannu rhwng yr arweinwyr da a'r athrawon yn y dosbarthiadau. Yn y bôn, strategaeth a pholisiau'r Llywodraeth sydd wrth wraidd hyn, ond ni allwch beidio â rhoi sylw i arian. Rwyf o'r farn ei bod yn rhaid i ariannu ddechrau gyda'n disgyblion tlotaf, oherwydd rydych yn gywir i sôn am ffactorau y tu allan i'r system addysg ffurfiol sy'n effeithio ar lefelau cyrhaeddiad. Mae angen inni, felly, ganolbwytio ar ein plant tlotaf, gan ddarparu mwy o arian ar eu cyfer na'r arferol i wneud iawn am rai o'r ffactorau hynny.

Mae angen inni ganolbwytio ar arweinyddiaeth ysgolion, safon datblygu proffesiynol parhaus a hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

**Alun Davies a gododd—**

**Kirsty Williams:** Nid oes gennyf ddigon o amser, Alun—mae'n ddrwg gennyf. [Torri ar

due respect, Alun, I have five minutes, so I have to finish. [*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. She is not taking an intervention.

**Kirsty Williams:** You have to have a balanced approach. To simply dismiss funding, and look at other issues instead, is not credible. The Minister made great play of leadership and accountability; I could not agree more, but that does not simply apply to leadership and accountability in the classroom or the school: it is also about leadership and accountability from the political masters who set the agenda, the regimes and the funding levels for schools. Leadership and accountability rests with you, too, Minister; it is not enough to pass the buck to teachers in classrooms. Leadership and accountability includes you as well.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections, and so I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### Pwynt o Drefn Point of Order

**Alun Davies:** Point of order. The leader of the Welsh Liberal Democrats attempted to misquote me during her contribution, and then refused to take an intervention. Could I say to the leader of the Welsh Liberal Democrats—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You may make a point of order to me.

**Alun Davies:** If she wants to misquote me, she should allow an intervention. We should at least be allowed to set the record straight.

*draws.] A phob parch, Alun, pum munud sydd gennyl, felly rhaid imi orffen. [Torri ar draws.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid yw'n derbyn ymyriad.

**Kirsty Williams:** Rhaid ichi gael dull gweithredu cytbwys. Prin y gellir diystyr u cyllid, ac edrych ar faterion eraill yn hytrach na hynny. Mae'r Gweinidog wedi gwneud defnydd mawr o arweinyddiaeth ac atebolrwydd; ni allwn gytuno mwy, ond nid dim ond i arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn yr ystafell ddosbarth y mae hynny'n berthnasol; mae'n ymneud hefyd ag arweinyddiaeth ac atebolrwydd y meistri gwleidyddol sy'n gosod yr agenda, y cyfundrefnau a'r lefelau cyllid ar gyfer ysgolion. Mae angen i arweinyddiaeth ac atebolrwydd fod yn berthnasol i chithau hefyd, Weinidog; nid yw'n ddigon taflu'r baich ar athrawon mewn ystafelloedd dosbarth. Mae arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn eich cynnwys chithau hefyd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly rwyf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**Alun Davies:** Pwynt o drefn. Mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ceisio fy nghamddyfynnu yn ystod ei chyfraniad, ac yna wedi gwrthod derbyn ymyriad. A gaf fi ddweud wrth arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Cewch wneud pwynt o drefn i mi.

**Alun Davies:** Os yw'n dymuno fy nghamddyfynnu, dylai ganiatâu ymyriad. Dylem o leiaf gael yr hawl i sicrhau cywirdeb.

**The Deputy Presiding Officer:** I suggest that you check the Record of Proceedings and, if you are still not content, you may raise that point of order next week.

Voting time is the next item on the agenda. Does anyone wish for the bell to be rung? I see that you do not.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf yn awgrymu eich bod yn edrych ar Gofnod y Trafodion ac, os ydych yn anfodlon o hyd, cewch godi'r pwynt o drefn hwnnw yr wythnos nesaf.

Y cyfnod pleidleisio yw'r eitem nesaf ar yr agenda. A oes unrhyw un sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

### **Cyfnod Pleidleisio Voting Time**

*Cynnig NDM4627: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 26.  
Motion NDM4627: For 17, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Law, Trish  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4627: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
Amendment 1 to NDM4627: For 28, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica

|                   |                  |
|-------------------|------------------|
| Franks, Chris     | Graham, William  |
| Gibbons, Brian    | Isherwood, Mark  |
| Gregory, Janice   | Melding, David   |
| Griffiths, John   | Millar, Darren   |
| Griffiths, Lesley | Morgan, Jonathan |
| James, Irene      | Ramsay, Nick     |
| Jenkins, Bethan   | Randerson, Jenny |
| Jones, Alun Ffred | Williams, Kirsty |
| Jones, Carwyn     |                  |
| Jones, Gareth     |                  |
| Jones, Ieuan Wyn  |                  |
| Law, Trish        |                  |
| Lewis, Huw        |                  |
| Mewies, Sandy     |                  |
| Morgan, Rhodri    |                  |
| Neagle, Lynne     |                  |
| Ryder, Janet      |                  |
| Sargeant, Carl    |                  |
| Watson, Joyce     |                  |
| Wood, Leanne      |                  |

*Derbynwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4627 fel y'i diwygiwyd:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth ddefnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru ac yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella targedau ynni adnewyddadwy drwy 'Chwyldro Carbon Isel—Datganiad Polisi Ynni i Gymru'.*

*Motion NDM4627 as amended:*

*The National Assembly for Wales:*

*Notes the progress made so far in the deployment of renewables in Wales and welcomes the Welsh Assembly Government's ambition in increasing renewable energy targets through the 'A Low Carbon Revolution—the Energy Policy Statement for Wales'.*

*Cynnig NDM4627 fel y'i diwygiwyd: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 16.*

*Motion NDM4627 as amended: For 29, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

|                    |
|--------------------|
| Andrews, Leighton  |
| Barrett, Lorraine  |
| Chapman, Christine |
| Cuthbert, Jeff     |
| Davidson, Jane     |
| Davies, Alun       |
| Davies, Andrew     |
| Davies, Jocelyn    |
| Franks, Chris      |
| Gibbons, Brian     |
| Gregory, Janice    |
| Griffiths, John    |
| Griffiths, Lesley  |
| Hutt, Jane         |
| James, Irene       |
| Jenkins, Bethan    |
| Jones, Alun Ffred  |
| Jones, Carwyn      |
| Jones, Gareth      |
| Jones, Ieuan Wyn   |
| Law, Trish         |

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

|                     |
|---------------------|
| Asghar, Mohammad    |
| Bates, Mick         |
| Black, Peter        |
| Burnham, Eleanor    |
| Burns, Angela       |
| Davies, Andrew R.T. |
| Davies, Paul        |
| German, Veronica    |
| Graham, William     |
| Isherwood, Mark     |
| Melding, David      |
| Millar, Darren      |
| Morgan, Jonathan    |
| Ramsay, Nick        |
| Randerson, Jenny    |
| Williams, Kirsty    |

Lewis, Huw  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4627 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM4627 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4628: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 28.  
Motion NDM4628: For 17, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Law, Trish  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4628: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 17.  
Amendment 1 to NDM4628: For 28, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica

|                   |                  |
|-------------------|------------------|
| Franks, Chris     | Graham, William  |
| Gibbons, Brian    | Isherwood, Mark  |
| Gregory, Janice   | Law, Trish       |
| Griffiths, John   | Melding, David   |
| Griffiths, Lesley | Millar, Darren   |
| Hutt, Jane        | Morgan, Jonathan |
| James, Irene      | Ramsay, Nick     |
| Jenkins, Bethan   | Randerson, Jenny |
| Jones, Alun Ffred | Williams, Kirsty |
| Jones, Carwyn     |                  |
| Jones, Gareth     |                  |
| Jones, Ieuan Wyn  |                  |
| Lewis, Huw        |                  |
| Mewies, Sandy     |                  |
| Morgan, Rhodri    |                  |
| Neagle, Lynne     |                  |
| Ryder, Janet      |                  |
| Sargeant, Carl    |                  |
| Watson, Joyce     |                  |
| Wood, Leanne      |                  |

*Derbynwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4628 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi cyhoeddi Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ddiweddar;*

*2. Yn gresynu, ar gyfer darllen a mathemateg, fod Cymru wedi disgyn y tu ôl i gyfartaledd gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac ar gyfer darllen, mathemateg a gwyddoniaeth, fod gan Gymru sgôr rhyngwladol is nag yn 2006;*

*3. Yn croesawu Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, datblygiad y Cynllun Llythrennedd Cenedlaethol a'r dull o'i roi ar waith, a buddsoddiad yn y ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar, yn enwedig y Cyfnod Sylfaen, fel tystiolaeth o benderfyniad y Llywodraeth i wella safonau mewn ysgolion yng Nghymru.*

*Motion NDM4628 as amended:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes the recent publication of the OECD's Programme for International Student Assessment;*

*2. Regrets that, for reading and mathematics, Wales has fallen behind the average for the OECD countries, and that for reading, mathematics and science, Wales has a lower international ranking than in 2006;*

*3. Welcomes the Welsh Assembly Government's School Effectiveness Framework, the development and implementation of a National Literacy Plan, and investment in early years provision, especially the Foundation Phase, as evidence of the government's determination to improve standards in Wales' schools.*

*Cynnig NDM4628 fel y'i diwygiwyd: O blaïd 28, Ymatal 6, Yn erbyn 11.*

*Motion NDM4628 as amended: For 28, Abstain 6, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaïd:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.

|                   |                  |
|-------------------|------------------|
| Cuthbert, Jeff    | Davies, Paul     |
| Davidson, Jane    | Graham, William  |
| Davies, Alun      | Isherwood, Mark  |
| Davies, Andrew    | Law, Trish       |
| Davies, Jocelyn   | Melding, David   |
| Franks, Chris     | Millar, Darren   |
| Gibbons, Brian    | Morgan, Jonathan |
| Gregory, Janice   | Ramsay, Nick     |
| Griffiths, John   |                  |
| Griffiths, Lesley |                  |
| Hutt, Jane        |                  |
| James, Irene      |                  |
| Jenkins, Bethan   |                  |
| Jones, Alun Ffred |                  |
| Jones, Carwyn     |                  |
| Jones, Gareth     |                  |
| Jones, Ieuan Wyn  |                  |
| Lewis, Huw        |                  |
| Mewies, Sandy     |                  |
| Morgan, Rhodri    |                  |
| Neagle, Lynne     |                  |
| Ryder, Janet      |                  |
| Sargeant, Carl    |                  |
| Watson, Joyce     |                  |
| Wood, Leanne      |                  |

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
German, Veronica  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM4628 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM4628 as amended agreed.*

### **Dadl Fer Short Debate**

#### **Dyfodol Cymunedau Cymraeg The Future of Welsh-speaking Communities**

**Gareth Jones:** Cyn imi ddechrau ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud, dealaf fod Eleanor Burnham yn awyddus i gyfrannu ar ddiwedd fy nghyflwyniad, ac yr wyf yn fwya na pharod i ganiatáu hynny.

Mae'n bleser gennyf gynnig ychydig sylwadau ar ddyfodol cymunedau Cymraeg yn yr hyn sy'n debygol o fod yn gyfle olaf imi arwain dadl fer yn y Cynulliad. Mae'r testun yn rhoi cyfle imi gyfuno dwy o'r themâu sydd wedi bod yn gwbl ganolog yn fyngwaith gwleidyddol, sef sicrhau dyfodol i'n cymunedau a dyfodol i'r Gymraeg. Cyn y medrwn lunio unrhyw weledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru a'n hiaith, rhaid inni yn

**Gareth Jones:** Before I relate what I have to say, I understand that Eleanor Burnham is keen to contribute towards the end of my introduction. I am more than happy to accommodate that.

I am pleased to offer a few comments on the future of Welsh-speaking communities in what is likely to be my last opportunity to conduct a short debate in the Assembly. The subject gives me the opportunity to combine two of the themes that have been absolutely central in my political work, namely to ensure the future of our communities and the future of the Welsh language. Before we can shape any vision for the future of Wales and

gyntaf holi ein hunain pa ddyfodol sydd i'n cymunedau.

Wrth gwrs, mae defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r gair 'cymuned' ym mhob agwedd ar wleidyddiaeth a gweithgaredd y Llywodraeth, ond, yn rhy aml, mae'n cael ei ddefnyddio'n arwynebol, heb unrhyw ymdrech i ragweld gofynion ac anghenion ein pobl i'r dyfodol. Yn wir, mae'r gair 'cymuned' yn cael ei ddefnyddio hyd at syrffed mewn rhai achosion, ond nid yw anghenion cymunedau yn cael y flaenoriaeth y maent yn ei haeddu.

Y gwir amdani yw bod tueddiad parhaus i ystyried y gwahanol anghenion cymunedol—y sgolion, gwasanaethau iechyd, darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, cludiant, band llydan neu dai fforddiadwy—fel elfennau ar wahân. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae'r iaith Gymraeg yn y cwestiwn. Mae tueddiad o hyd i weld materion yn ymwneud â'r iaith fel rhyw faes ar ei ben ei hun yn hytrach nag ystyried dyfodol yr iaith yng nghyd-destun amddiffyn ac ehangu'r cymunedau sy'n ei chynnal.

Mae'n destun balchder inni hefyd fod mwyafrif pobl Cymru—yn Gymraeg ac yn ddi-Gymraeg—yn gefnogol i'r Gymraeg ac yn dymuno gweld twf yn y defnydd ohoni. Fodd bynnag, ni fydd y gefnogaeth hon yn ddigon i sicrhau nod y Cynulliad o greu Cymru ddwyieithog oni welwn seiliau cadarnach i'r iaith yn ein cymunedau.

Mae nifer o bethau wedi tynnu sylw yn ddiweddar at ein pryder yngylch yr iaith. Mae llawer o'r dadlau a ffraeo yngylch cau ac ad-drefnu ysgolion yn tarddu, yn y bôn, o bryder am ddyfodol yr iaith. Yn yr un modd, gyda Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), cafwyd trafodaeth frwd yngylch statws yr iaith a'r bygythiad y gallai'r llysoedd farnu'n groes a thanseilio'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

18.40 p.m.

Yn amlwg, pryder am y Gymraeg yw'r pryer am ddyfodol S4C. Er hynny, mae angen edrych ar fygythiadau ehangach a llai

our language, we must first ask ourselves what future our communities have.

Of course, the word 'community' is used extensively in every aspect of politics and in every Government activity, but, too often, it is used superficially, without any effort to envisage the needs and requirements of our people for the future. In fact, the word 'community' is being used ad nauseam, but the needs of communities are not getting the priority that they deserve.

The truth of the matter is that there is a persistent tendency to consider various community needs—in schools, health services, and the provision of public services, transport, broadband or affordable housing—as separate elements. This is particularly true where the Welsh language is concerned. There remains a tendency to see language issues as something apart rather than consider the future of the language with regard to protecting and expanding the communities that support it.

It is also a source of pride for us that the majority of people in Wales—be they speakers of Welsh or not—are supportive of the language and want to see it grow in use. However, this support will not be enough to ensure the Assembly's goal of creating a bilingual Wales unless we have firmer foundations for the language in our communities.

Several things have drawn attention recently to our concerns for the language. Much of the debate and quarrelling over school closures and reorganisation derives, essentially, from concerns about the future of the language. In the same way, with the Proposed Welsh Language (Wales) Measure, there was heated debate about the status of the language and the threat that the courts could rule unfavourably and undermine the use of Welsh.

Clearly, the concern about the future of S4C is a concern about the Welsh language. Nevertheless, we need to consider wider and

amlwg yn ogystal. Mae diffyg band llydan yn ein cymunedau gwledig, er enghraifft, yn fygythiad i swyddi ac i ddyfodol y Gymraeg yn y cymunedau hynny. Yn yr un modd, mae'n gwbl annerbyniol bod rhai cynlluniau i ddatblygu stadau tai, a fyddai'n annog mewnliiad a newid holl natur gwead ac iaith ein cymunedau, yn cael eu cymeradwyo, tra bod cynlluniau eraill i adeiladu neu helaethu tai ar gyfer teuluoedd cynhenid yn y Gymru wledig a'r parciau cenedlaethol yn cael eu gwrrthod.

O ran gwasanaethau hanfodol fel addysg ac iechyd, gofynion ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny sydd dan ystyriaeth yn rhy aml, ac nid anghenion y gymdeithas. Canlyniadau hyn yn aml yw cau ysgolion, neu israddio a chau ysbtyai. Yn aml, mae datrysiaid yn ôl gwasanaeth unigol yn tanseilio cymuned. Efallai fod y gwasanaeth ei hun yn well, ond mae yn rhywle arall, lle mae gofyn i'r unigolyn deithio i'w gael—boed yn ysgol neu'n ysbty—ac weithiau, lle nad oes tai ar gael, rhaid ymfudo'n gyfan gwbl.

Ein nod ddylai fod gwasanaethau lleol i bobl leol. Yr wyf wedi dweud hyn droeon mewn perthynas ag ysgolion, a chredaf yn gryf fod y drefn bresennol o ariannu yn ôl y disgynbl yn tanseilio cymunedau a'r iaith. Mae'n hanfodol ein bod yn dangos mwy na thocynistiaeth o ran cynllunio cymunedol. Rhaid cydnabod rhngddibyniaeth ein prif wasanaethau, fel y byddant yn cyfrannu at gynnal ein cymunedau. Dadfeiliwch hwy un wrth un, a byddwch yn dadfeilio cymunedau, a dagrau'r peth yw bod y Gymraeg wedyn yn gwanychu.

Beth felly y gall y Cynulliad ei wneud o ran adfywio'n cymunedau? Sut mae datblygu cymunedau cynaliadwy, a beth yw goblygiadau hynny? Mae rhai camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd, fel y gwaith adfywio o dan ragleni Amcan 1 a Chymunedau'n Gyntaf, ac mae lle i gymeradwyo'r rhain ac ymfalchiö ynddynt. Da o beth yw bod gennym Gynulliad Cenedlaethol a all symbylu a chefnogi'r math hwn o weithgarwch i wella ansawdd ein cymunedau, er gwaethaf y diffyg buddsoddiad yn seilwaith Cymru dros y

less obvious threats as well. The lack of broadband in our rural communities, for example, threatens jobs and the future of Welsh in those communities. In the same way, it is absolutely unacceptable that certain plans to develop housing estates, which would encourage in-migration and change the whole nature of the our communities' language and the way they are woven together, are approved, while plans to build or expand housing for indigenous families in rural and national parks are rejected.

In terms of essential services such as education and health, it is too often the requirements and effectiveness of those services that are considered, and not the needs of society. The consequences of this are often school closures and the downgrading or closure of hospitals. The solution for an individual service often undermines a community. The service itself may well be improved, but it is somewhere else, thereby requiring a person to travel to access it—be it a school or a hospital—and sometimes, where housing is unavailable, they have to relocate entirely.

It should be our aim to have local services for local people. I have said this many times in relation to schools, and I strongly believe that the current system of funding per pupil undermines communities and the language. It is essential that we demonstrate more than tokenism in community planning. We must acknowledge the interdependence of our primary services, so that they contribute towards sustaining our communities. Run them down one by one, and you disintegrate our communities, and the tragedy of it is that the Welsh language in turn is weakened.

What, therefore, can the Assembly do to regenerate our communities? How can sustainable communities be developed, and what are the implications of that? Some positive steps have been taken, such as the regeneration work under the Objective 1 and Communities First programmes, and there is scope to commend these and to take pride in them. It is a good thing that we have a National Assembly that can motivate and support this kind of activity to improve the quality of our communities, despite the lack of investment in the infrastructure of Wales

blynnyddoedd. Mae'n hanfodol ein bod, drwy'r refferendwm ym mis Mawrth, yn ennill cymeradwyaeth pobl Cymru i Lywodraeth Cymru gael rheolaeth gadarn ar feysydd allweddol addysg, iechyd, tai a datblygiad economaidd.

Mae gan gymunedau Cymru anghenion arbennig, sy'n gofyn am ddatrysiaid Cymreig, ac mae'n dda gweld y pleidiau oll yma'n cydweithio tua'r nod. O safbwyt yr iaith, dylem gydnabod a diolch am y camau y mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi'u cymryd, megis y Mesur iaith arfaethedig, y strategaeth addysg Gymraeg a'r coleg ffederal Cymraeg. Gobeithio hefyd y cawn ateb boddhaol i argyfwng S4C maes o law. Ond a yw'r adweithio hwn yn ddigonol i gynnal yr iaith a sicrhau twf i'r dyfodol? Byddwn yn dadlau bod lle a chyfle i fod yn llawer mwy rhagweithiol nag yr ydym wedi bod hyd yma. Y perygl o hyd yw adweithio yn ôl yr angen a thawelu'r dyfroedd, yn lle bod yn llawer mwy dychmygus a blaengar yn y camau yr ydym yn eu cymryd i warchod yr iaith. Mae gennyf ofn bod meddylfryd o hyd mai rhywbeth atodol yw'r iaith yn hytrach na rhan o'r brif ffrwd gyda'r Saesneg.

Mae angen cynllunio'n well ar gyfer ein cymunedau. Mae rhai pethau positif yn digwydd. Mae Mesur diweddar llywodraeth leol am weld cymunedau lleol yn cael eu grymuso. Mae engriffiadau da lle mae egwyddor Cymunedau'n Gyntaf wedi gwreiddio. Mae mentergarwch a mentrau cymdeithasol yn sbarduno dycnwch a'r ewyllys i oroesi mewn rhai cymunedau, ond yn anffodus, nid oes digon o'r gweithgarwch hwn. Mae angen llawer mwy, a llawer mwy o fuddsoddiad i sicrhau sefydlogrwydd a hunangynhaliaeth ein cymunedau.

Mae hefyd angen edrych o ddifrif i weld a ydyw'r defnydd mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o'r arian sydd yn dod i S4C ar gyfer hybu economi ein cymunedau. Y ffaith syml amdani yw na all y Gymraeg fyw mewn gwagle. Wedi'r cyfan, cyfrwng ar gyfer cyfathrebu yw unrhyw iaith, yn hytrach nag endid ynddo'i hun. Os bydd y cymunedau o bobl sydd yn defnyddio'r iaith yn dadfeilio, a diffyg rhwydweithiau newydd yn cael eu

over the years. It is essential that, through the referendum in March, we win the support of the people of Wales for the Welsh Government to have firm control over key fields such as education, health, housing and economic development.

The communities of Wales have special needs, which call for a Welsh solution, and it is good to see all the parties here collaborating towards that end. From the viewpoint of the language, we should acknowledge and be grateful for the steps that the One Wales Government has taken, such as the proposed language Measure, the Welsh-language education strategy, and the Welsh federal college. We also hope to get a satisfactory answer to the S4C crisis in due course. However, is this response sufficient to sustain the language and ensure growth in the future? I would argue that there is scope and an opportunity to be much more proactive than we have been to date. The ever present danger is to be reactive and fire fight, rather than being much more imaginative and innovative in the steps that we are taking to safeguard the language. I am afraid that there is still a mindset that the language is an add-on rather than part of the mainstream with the English language.

We need to plan better for our communities. There are some positive things happening. The recent proposed Measure on local government will see local communities being strengthened. There are good examples where the Communities First principle has taken root. Social entrepreneurship and enterprises spur on tenacity and the will to survive in some communities, but, unfortunately, there is not enough of this activity. We need much more, and much more investment to secure the stability and self-sufficiency of our communities.

We must look seriously at this to see whether the most effective use is being made of the funding that is given to S4C in order to promote the economy of our communities. The simple fact of the matter is that the Welsh language cannot exist in a vacuum. After all, any language is a medium of communication, not an entity in itself. If the communities of people who use the language decay and no new networks are created, the

creu, bydd y defnydd o'r Gymraeg hefyd yn edwino.

Un o'r pethau mwyaf calonogol i mi ynghylch y strategaeth ddrafft 'Iaith Fyw: Iaith Byw' yw ei bod, am y tro cyntaf, yn nodi'r angen i gynyddu nifer y bobl sydd yn defnyddio'r iaith, yn ogystal â'r nifer sydd yn gallu ei siarad. Yr oeddwn yn falch o weld y Gweinidog yn lansio'r strategaeth ddrafft yn fy etholaeth, yn Llanrwst, ac yn cydnabod y gwaith da y mae Menter Iaith Conwy yn ei wneud i gynnal cymunedau Cymraeg yn y sir. Mae'n rhaid i ni sylweddoli bod gwarchod Cymreictod ardaloedd traddodiadol Cymraeg, megis Dyffryn Conwy, yn gwbl allweddol i gyflawni amcanion 'Iaith Fyw: Iaith Byw'.

Mae 10 mlynedd bellach er pan gynhaliwyd y cyfrifiad diwethaf, a ddangosodd gynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws Cymru, ond cwmp sylweddol yn nifer y cymunedau lle mae dros 70 y cant yn siarad yr iaith. Ymateb llawer yn rhy gyffredin gan bobl i'r ystadegau hyn oedd ceisio hunan-gysuro'n ormodol ar sail yr hyn sy'n ymddangos fel cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad yr iaith. Hyd yn oed o gymryd bod y ffigurau hyn yn gywir—mae amheuaeth ynghylch safon sgiliau llawer o'r bobl ifanc hyn yn y Gymraeg yn ôl arolygon Estyn—mae cwestiynau difrifol i'w gofyn am y graddau y gall y bobl ifanc hyn ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl ymadael â'r ysgol.

Mae'n rhaid mynd ymhellach a chydnabod nad yw'r math o gynnydd a welwyd mewn ardaloedd mwy Seisnig yng Nghymru, er cystal ei gael, yn gwrthbwys o'r colledion yn y cadarnleoedd. Os ydyw'r Gymraeg am barhau fel iaith fyw, rhaid i ni sicrhau ei bod yn dal ac yn cryfhau ei thir ym Mlaenau Ffestiniog, yn ogystal ag ennill tir ym Mlaenau Gwent.

Gan fod cyfrifiad arall eleni, rhaid sicrhau bod ein dealltwriaeth o gymdeithasiaeth iaith wedi gwella ac aeddfedu, o gymharu â'r sefyllfa 10 mlynedd yn ôl. Os oes cwmp pellach yn nifer yr ardaloedd sydd â'r Gymraeg yn brif iaith iddynt, mae argyfwng

use made of the Welsh language will also decline.

One of the most encouraging things for me about the draft strategy 'A Living Language: A Language for Living' is that, for the first time, it notes the need to increase the number of people who use the language, as well as the number of speakers. I was pleased to see the Minister launch the draft strategy in my constituency, in Llanrwst, and acknowledge the good work that Menter Iaith Conwy is doing to sustain Welsh-language communities in the county. We must realise that safeguarding the Welshness of traditional Welsh-speaking areas, such as the Conwy valley, is crucial in order to meet the aims of 'A Living Language: A Language for Living'.

Ten years have passed since the last census was held. That census attested to an increase in the number of young people who could speak Welsh across Wales, but a significant decrease in the number of communities where more than 70 per cent could speak the language. A far too common response to those statistics was for people to seek too much consolation from what appears to be a significant increase in the number of young people who could speak the language. Even if we considered those figures to be accurate—there is some doubt about the Welsh skill levels of many of these young people according to Estyn inspections—there are serious questions to be asked about the degree to which these young people use the Welsh language after leaving school.

We must go further and acknowledge that the kind of progress seen in the more Anglicised areas of Wales, although it is great to see, does not counterbalance the losses in the heartlands. If the Welsh language is to continue as a living language, we must ensure that it holds its ground and grows in Blaenau Ffestiniog as well as make progress in Blaenau Gwent.

As there is to be another census this year, we must ensure that our understanding of sociolinguistics has improved and matured, compared to the situation 10 years ago. If there is a further decrease in the number of areas where Welsh is the main language, we

yn ein wynebu—argyfwng y mae'n rhaid i ni ymateb iddo yn effeithiol ac yn gadarnhaol.

Pan oeddwn yn blentyn ac yn tyfu i fyny ym Mlaenau Ffestiniog, ychydig flynyddoedd yn ôl, yr oeddwn yn byw mewn tref gwbl Gymraeg ei hiaith lle'r oedd ymhell dros 90 y cant o bobl y dref yn ei siarad. Yr oedd y Gymraeg yn ffynnu er gwaethaf y diffyg statws a system addysg llawer llai Cymreig nag a welir ar hyn o bryd, a'r rheswm pennaf am hynny oedd cryfder y gymdeithas a oedd yn gwbl Gymraeg ei hiaith. Heddiw, yn sgil diffyg cynllunio cymunedol, diffyg cyfleoedd gwaith a diffyg tai fforddiadwy, mae'r gymdeithas yn dadfeilio, ac o'r herwydd, yr iaith hithau hefyd. Os ydym o ddifrif am sicrhau dyfodol i'r Gymraeg fel iaith fyw mae'n rhaid i'r gwaith o gynnal cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith gael llawer mwy o flaenoriaeth nag a gaiff ar hyn o bryd.

Yr oedd yn dda gennyf ddeall y bore yma y bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn rhoi sylw i'r argyfwng hwn mewn cyfarfod arbennig ddydd Sadwrn. 'Cymunedau Cymraeg Cynaliadwy' fydd teitl y drafodaeth. Mae'n deitl neilltuol o berthnasol i ni yn y Cynulliad. Gan fod y Cynulliad wedi ymrwymo i gynaliadwyedd o'r dechrau, mae'n rhaid i'r ymrwymiad hwnnw gael ei fynegi'n ddi-flewyn-ar-dafod o safbwyt cynnal cymunedau Cymraeg, fel gyda phopeth arall.

I gloi, wrth sôn am ddyfodol cymunedau Cymraeg, nid sôn am iaith yn unig a wnawn, ond am ddyfodol rhywbeth sydd wedi bod yn rhan gwbl allweddol o hunaniaeth a diwylliant y cymunedau hynny am 15 canrif a mwy. Unwaith y bydd y llinyn arian hwnnw yn cael ei dorri, bydd nodweddion unigryw'r ardaloedd hynny yn cael eu colli am byth, a drwy hynny collir y gwead diwylliannol hwnnw sydd yn gymaint o ran o'n hetifeddiaeth fel cenedl.

6.50 p.m.

**Eleanor Burnham:** Mae'n amhosibl ymateb yn gyflawn mewn munud i'r materion cymhleth y mae Gareth wedi'u crybwyl. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd wedi

will be facing a crisis—a crisis to which we will have to respond effectively and positively.

When I was a child growing up in Blaenau Ffestiniog, a few years ago, I lived in a thoroughly Welsh-speaking town where far in excess of 90 per cent of the people of the town spoke the language. The Welsh language prospered despite the lack of status and a much less Welsh education system than we currently have, and the main reason for that was the strength of the community that was totally Welsh in its language. Today, because of a lack of community planning, employment opportunities and affordable housing, society is decaying, and, as a result, so is the language. If we are serious about securing a future for the Welsh language as a living language, the work of sustaining traditional Welsh-speaking communities must be given much greater priority than it is given at present.

I was pleased to hear this morning that the Welsh Language Society will be paying particular attention to this crisis in a special meeting on Saturday. The title of the discussion will be 'Sustainable Welsh Communities'. It is an exceptionally relevant title to us in the Assembly. As the Assembly has been committed to sustainability from the start, that commitment must be expressed frankly as regards Welsh-speaking communities, as with everything else.

To conclude, in talking about the future of Welsh-speaking communities, we are not only talking about the language, but about the future of something that has been a key part of our identity and the culture of those communities for 1,500 years and more. Once that silver thread is broken, the unique characteristics of those areas will be lost forever and, as a result, the rich cultural fabric that is so much a part of our heritage as a nation will be lost.

**Eleanor Burnham:** It is impossible to give a full response in a minute to the complex issues that Gareth covered in his contribution. The Liberal Democrats were also key in the

bod yn allweddol drwy gyfrwng ‘Iaith Pawb’ a gyflwynwyd yn ein cynhadledd ni ar ddechrau'r degawd diwethaf. Jenny yw'r cyn-Weinidog dros ddiwylliant, ac yr wyf yn ymfalchiö fy mod wedi cael y cyfle dros y blynyddoedd diwethaf i ymyrryd a gwneud fy ngorau dros y Gymraeg. Mae'n rhaid i ni annog ein gilydd i wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, fel y dywedodd Gareth. Mae gwella'r economi yn allweddol, gan gynnwys mynediad at fand eang, fel y dywedodd Gareth, neu ni all pobl ifanc ddychwelyd i'w cymunedau os ydynt wedi symud i Gaerdydd, er enghraifft. Mae hwn yn bwnc llosg yr wyf yn ei drafod ambell waith ar y trēn ar y ffordd adref neu ar y ffordd i lawr i Gaerdydd gyda phobl ifanc sydd, wrth fynd yn hŷn, eisiau dechrau teulu a dod yn ôl i ogled Cymru. Yr ydym i gyd o dan bwysau i wneud ein gorau i gyflawni yr hyn y soniodd Gareth amdano yn ei arraith arbennig.

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Hoffwn ddiolch i Gareth am ddod â'r ddadl hon ger ein bron ac i Eleanor am ei chyfraniad i'r drafodaeth. Nid oes angen imi ddweud eto fod y Gymraeg yn rhan allweddol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad Cymru. Mae'n help i'n diffinio fel cenedl, ac ar y cyd â ieithoedd a diwylliannau eraill, mae'n ffurfio rhan o'r amrywiaeth gyfoethog sy'n creu tirlun cymdeithasol Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop gyfan. Mae Gareth hefyd yn iawn i ddweud bod cyfrifiad 2001 wedi dangos bod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu, ond bod sefyllfa'r iaith fel iaith gymunedol yn parhau'n fregus.

Er bod bron pawb sy'n medru siarad Cymraeg yn rhugl yn ei defnyddio'n gyson, mae angen rhagor o gyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae hynny'n wir yn yr ardaloedd traddodiadol gwledig lle mae cymunedau Cymraeg wedi bod ar eu cryfaf, ond hefyd yn yr ardaloedd trefol lle mae'r Gymraeg wedi adennill tir yn ystod y degawdau diwethaf.

Mae byw ochr yn ochr ag un o ieithoedd cryfaf y byd yn her gyson. Yn ogystal, mae prosesau ymfudo ac allfudo wedi cael effaith niweidiol ar sefyllfa'r Gymraeg mewn

context of ‘Iaith Pawb’, which was introduced at our conference at the beginning of the last decade. Jenny was the Minister for culture, and I am proud of the fact that I have had an opportunity over the past few years to get involved and to do my best for the Welsh language. We must encourage each other to improve the opportunities available to use the Welsh language, as Gareth said. Improving the economy is crucial, including access to broadband, which Gareth mentioned, or young people will not be able to return to their communities after moving to Cardiff, for example. This is a controversial subject that I have sometimes discussed with young people during train journeys on the way home or on the way to Cardiff. Some young people tell me that, as they get older, they want to start a family and return to north Wales. We are all under pressure to do the best that we can to achieve the aspirations that Gareth outlined in his excellent speech.

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** I would like to thank Gareth for proposing this debate today and thank Eleanor for her contribution. There is no need for me to reiterate that the Welsh language is a crucial part of the cultural identity and the make-up of Wales. It helps to define us as a nation and, with other languages and cultures, it forms part of the rich tapestry that makes up the social fabric of Wales, the United Kingdom and Europe as a whole. Gareth is quite right to say that the 2001 census showed that the number of people who could speak Welsh had increased, but that the position of the language as a community language was still precarious.

Although almost everyone who is able to speak Welsh fluently makes regular use of it, we need to provide further opportunities for people to use the Welsh language at work and in informal situations. That is true of the rural areas where Welsh-speaking communities have traditionally been at their strongest, but it is also true of the urban areas where the Welsh language has regained ground over the past few decades.

Living alongside one of the most powerful languages in the world is a constant threat. The process of migration has had a detrimental effect on the position of the

cymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae hanes wedi profi y gall y defnydd o'r iaith o fewn cymunedau leihau'n eithriadol o gyflym, ac mae lleihad o'r fath i'w weld mewn llawer cymuned yng Nghymru heddiw. Dyna sydd yn frawychus, sef bod y newid hwnnw'n gallu digwydd mor sydyn.

Ceisiodd dogfen 'Iaith Pawb' a gyhoeddwyd yn 2003 greu rhyw fath o strategaeth gyffredinol i'r Gymraeg, ond yr ydym wedi ei hadolygu a chyhoeddi'r strategaeth ddrafst 'Iaith Fyw: Iaith Byw' y cyfeiriasoch ati, sydd allan ar gyfer ymgynghoriad ar hyn o bryd. Nod y strategaeth yw cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Ochr yn ochr â honno, mae Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) a gafodd ei dderbyn gan y Cynulliad ychydig cyn y Nadolig. Mae'n werth pwysleisio y bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar y Llywodraeth i sefydlu cyngor partneriaeth y Gymraeg, a bydd y cyngor yn helpu i godi proffeil y Gymraeg yng ngwaith y Llywodraeth a hefyd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar y strategaeth ei hun.

O ran y cyfeiriad a wnaethost, Gareth, at gymunedau gwledig, a phentrefi a threfi mwy lle mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol, er bod niferoedd y siaradwyr wedi gostwng mewn rhai ohonynt islaw'r trothwy traddodiadol o 70 y cant yn ystod y degawdau diwethaf, dylem dalu teyrnged i'r gwaith aruthrol sydd yn digwydd ar hyn o bryd drwy'r mentrau iaith, Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin, y papurau bro, clybiau ffermwyr ifanc ac yn y blaen, gan gydnabod nad yw'n ddigon a bod angen grymuso'r gwaith a'r gefnogaeth iddynt.

Mae'r cymunedau hynny—yn enwedig cymunedau gwledig—yn newid, ac yn newid yn gyflym. Mae'r newid demograffig yn frawychus ynddo'i hun, ac yn tanseilio'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Dyna pam yr ydym, yn y strategaeth, am weld datblygu ardaloedd hybu'r Gymraeg. Bydd y rhain yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig lle gwelir y Gymraeg yn brif iaith bywyd beunyddiol, neu lle'r oedd yn brif iaith tan yn gymharol ddiweddar, ond lle mae bellach dan

Welsh language in communities the length and breadth of Wales. History tells us that the use of the language within communities can reduce exceedingly quickly, and that decline can be seen in a number of communities in Wales today. That is the frightening thing—that that change can occur so quickly.

'Iaith Pawb', published in 2003, tried to put in place a general strategy for the Welsh language, but we have reviewed that document and brought forward the 'A Living Language: A Language for Living' strategy that you referred to, which is currently out for consultation. The aim of that strategy is to increase the use of the Welsh language in communities the length and breadth of Wales. Alongside that we have the Proposed Welsh Language (Wales) Measure agreed by the Assembly just before Christmas. It is worth emphasising that the proposed Measure will place a duty on the Government to establish a Welsh language partnership council, which will help to raise the profile of the language in the Government's work and advise Welsh Ministers on the strategy itself.

In terms of the reference that you made, Gareth, to rural communities, and villages and larger towns where the Welsh language is still a community language, although in some of those areas the threshold of 70 per cent that we have traditionally made reference to has seen a decline over the past few decades, we should pay tribute to the incredible work that is ongoing through the Menteriau Iaith, the Urdd, Merched y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin, community newspapers, young farmers' clubs and so on, while acknowledging that it is not enough and that we need to empower them and provide more support.

Those communities—particularly rural communities—are changing, and changing fast. The demographic change is frightening in and of itself, and it undermines the Welsh language as a community language. That is why, in the strategy, we want to see the development of language promotion areas. These will be areas of particular linguistic significance, where the Welsh language is the main language of daily life, or where it was the main language of daily life until fairly

fgyythiad o fewn teuluoedd ac yn y gymuned yn ehangach. Ein bwriad yw datblygu cynllunio ieithyddol dwys yn yr ardaloedd hynny. Bydd hyn yn gyfle i gyrff cyhoeddus a'r cyrff gwirfoddol yr wyf wedi cyfeirio atynt ddod at ei gilydd i greu cynllun cynhwysfawr. Cyfeiriaist at y gwaith y mae Menter Iaith Conwy yn ei wneud o safbwyt creu cyfleoedd gwaith. Nid oes dwywaith nad oes rhaid edrych yn fanwl ar y strwythurau a'r cyfleoedd gwaith sy'n bodoli eisoes, gan gyfeirio ein pobl ifanc i'r meysydd hynny, neu ystyried a oes angen creu cyfleoedd o'r newydd. Mae engrheifftiau—fel yr un ym Menter Iaith Conwy—lle mae modd gwneud hynny. Yr wyf yn credu bod cyfleoedd yma, a bod yr ardaloedd hyn yn rhoi cyfle i ni wneud hynny mewn ffordd fwy cydlynol nag a welwyd yn y gorffennol. Mae engrheifftiau eraill ar hyd a lled Cymru lle gall mentrau cymdeithasol a chyrff cyhoeddus ddod at ei gilydd i greu canolfannau sy'n rhyw fath o bwerdai diwylliannol i'r iaith.

Yr wyt wedi cyfeirio at yr angen i fod yn ddychmygus a blaengar a chynllunio'n fwriadol. Yn anffodus, mae hynny'n golygu newid yn aml iawn. Credaf weithiau na allwn amddiffyn cadw popeth fel y mae; mae'n rhaid i gymunedau fod yn barod i addasu a newid er mwyn wynebu'r heriau newydd sy'n ein hwynebu. Un o'r heriau hynny, wrth gwrs, yw trosglwyddo'r iaith o fewn teuluoedd gan fod y patrwm o deuluoedd lle mae'r tad a'r fam yn siarad Cymraeg yn mynd yn fwy ac yn fwy prin. O'r herwydd, mae'n llawer anos i'r plant fod yn hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg, beth bynnag yw iaith yr addysg y maent yn ei derbyn.

Mae'r her sy'n ein hwynebu yn fawr. Fodd bynnag, credaf fod cyfleoedd drwy'r strategaeth os gallwn harneisio brwd frydedd pobl Cymru. Mae angen i'r Llywodraeth arwain—yr wyf yn gwbl argyhoeddedig o hynny; nid llusgo o'r tu ôl a thalu rhyw wrogaeth wrth fynd heibio y dylai'r Llywodraeth ei wneud, ond arwain. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i ni gael ymrwymiad unigolion a chymunedau os ydym i wyrdroi'r sefyllfa. Harneisio'r brwd frydedd hwnnw sydd yn ein cymunedau yw'r her dros y 10 mlynedd nesaf, os ydym i wireddu'r hyn yr wyt ti a llawer iawn o bobl eraill yn y Cynulliad eisiau ei weld, sef y Gymraeg

recently, but where it is under threat within families and the wider community. Our aim is that there will be intensive linguistic planning in those areas. This will be an opportunity for the public and voluntary bodies to which I have referred to come together to create a comprehensive plan. You referred to the work that Menter Iaith Conwy does in developing work opportunities. There is no doubt that we need to look in detail at the structures and work opportunities that already exist, directing our young people into those areas, or consider whether we need to create new opportunities. There are examples—such as Menter Iaith Conwy—where that appears to be possible. I believe that there are opportunities here, and that these areas give us an opportunity to do it in a more co-ordinated way than was the case in the past. There are further examples across Wales where social groups and public bodies can come together in order to create centres that become cultural hubs for the language.

You referred to the fact that we need to be imaginative and innovative and plan very deliberately. Unfortunately, that very often leads to change. On occasion, I do not believe that we can just defend the status quo; communities have to adapt and change in order to face new challenges. One of those challenges, of course, is the transfer of language within families. The pattern of a family where both parents speak Welsh is becoming rarer. As a result, it is becoming more and more difficult for children to become confident in their use of the Welsh language, whatever education system they enter.

The challenge facing us is huge. However, I believe that there are opportunities in the strategy if we can harness the enthusiasm of the people of Wales. The Government needs to lead—I am entirely convinced of that; the Government should not trail behind people, paying lip service in passing. The Government should lead. However, we need the commitment of individuals and communities if we are to turn this situation around. Harnessing that enthusiasm within the community is the challenge for the next 10 years if we are to achieve what you and many others in the Assembly want to see, namely the Welsh language prosper again as

unwaith eto yn iaith hyderus sy'n ffynnu yn a confident language in the twenty-first century.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â today's business to a close. thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.58 p.m.  
The meeting ended at 6.58 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**  
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)